

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

08/03/2016

Cynwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
- [1. Questions to the First Minister](#)
- [2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
- [2. Business Statement and Announcement](#)
- [3. Datganiad: Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru](#)
- [3. Statement: The Government and Laws in Wales Bill](#)
- [4. Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd\) \(Storio Olew\) \(Cymru\) 2016](#)
- [4. The Water Resources \(Control of Pollution\) \(Oil Storage\) \(Wales\) Regulations 2016](#)
- [5. Cyfnod 4 y Bil Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\)](#)
- [5. Stage 4 of the Tax Collection and Management \(Wales\) Bill](#)
- [6. Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2015-16](#)
- [6. Debate on the Second Supplementary Budget 2015-16](#)
- [7. Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2016-17](#)
- [7. Debate on the Final Budget 2016-17](#)
- [8. Cyfnod Pleidleisio](#)
- [8. Voting Time](#)
- [9. Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#)
- [9. Stage 3 of the Public Health \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:00 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:00 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:00	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.	Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
13:00	1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog	1. Questions to the First Minister
	Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.	[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.
13:00	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The first item this afternoon is questions to the First Minister. Question 1 is Darren Millar.	Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma. Daw cwestiwn 1 gan Darren Millar.
13:00	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	1. A wnaiffy Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2755(FM)	1. Will the First Minister make a statement on the future of the NHS in Wales? OAQ(4)2755(FM)
13:00	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	Senedd.tv Fideo Video
	Yes. The Welsh NHS is one of our top priorities. That's why we are investing more than ever in our health service.	Gwnaf. Mae GIG Cymru yn un o'n prif flaenoriaethau. Dyna pam yr ydym ni'n buddsoddi mwy nag erioed yn ein gwasanaeth iechyd.

13:00

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks for that answer, First Minister. One of the first things that a future Welsh Government will have to address are some of the challenges in our out-of-hours care in the health service, and you will note the report that has been published today by the Public Services Ombudsman for Wales, which has shown examples of patients coming to harm as a result of shortcomings in out-of-hours care. Of course, it comes hot on the heels of a report by the Public Accounts Committee that expressed concerns about general practitioner out-of-hours care in north Wales, which explained very clearly that around 77 per cent of rotas are covered in some parts of Wales, which leaves 23 per cent, obviously, without GP cover. What action are you taking specifically to address those problems in north Wales in terms of GP out-of-hours care?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Un o'r pethau cyntaf y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol roi sylw iddo yw rhai o'r heriau yn ein gofal y tu allan i oriau yn y gwasanaeth iechyd, a byddwch wedi nodi'r adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sydd wedi dangos enghrefftiau o gleifion yn dioddef niwed o ganlyniad i ddiffygion mewn gofal y tu allan i oriau. Wrth gwrs, mae'n dod yn fuan iawn ar ôl adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a fynegodd bryderon am ofal y tu allan i oriau meddygon teulu yn y gogledd, a oedd yn esbonio'n glir iawn bod cymorth wrth gefn ar gyfer tua 77 y cant o rotas mewn rhai rhannau o Gymru, sy'n gadael 23 y cant, yn amlwg, heb gymorth meddyg teulu wrth gefn. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd yn benodol i fynd i'r afael â'r problemau hynny yn y gogledd o ran gofal y tu allan i oriau meddygon teulu?

13:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We're working with both the royal college and, indeed, the British Medical Association to address those issues. There are 102 GP practices in the north of Wales. Four of them have served notice that they're not able to fulfil their contracts. What then happens is that the local health board seeks to work with those practices. If that's not possible, then other practices are able to take over the practices that no longer exist, and beyond that, of course, the LHB will take control of the situation itself to ensure that the service continues for people in a manner that they would expect.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym ni'n gweithio gyda'r coleg brenhinol ac, yn wir, Cymdeithas Feddygol Prydain i fynd i'r afael â'r materion hynny. Ceir 102 o feddygfeydd yn y gogledd. Mae pedwar ohonynt nhw wedi rhoi rhybudd nad ydynt yn gallu cyflawni eu contractau. Yr hyn sy'n digwydd wedyn yw bod y bwrdd iechyd lleol yn ceisio gweithio gyda'r meddygfeydd hynny. Os nad yw hynny'n bosibl, yna gall meddygfeydd eraill gymryd y meddygfeydd nad ydynt yn bodoli mwyach drosodd, a thu hwnt i hynny, wrth gwrs, bydd y BILI yn cymryd rheolaeth o'r sefyllfa ei hun er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau ar gyfer pobl mewn modd y byddent yn ei ddisgwyl.

13:01

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Welsh Conservatives' proposal for scores on the doors to rank Welsh hospitals is the clearest indication yet that they will follow the trail blazed by David Cameron and Jeremy Hunt of restructuring and privatisation from the top. [Interruption.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, cynnig Ceidwadwyr Cymru ar gyfer sgoriau ar y drysau i roi ysbytai Cymru yn eu trefn yw'r arwydd mwyaf eglur eto y byddant yn dilyn y trywydd y mae David Cameron a Jeremy Hunt arno a ailstrwythuro a phreifateiddio o'r brig. [Torri ar draws.]

13:02

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar, you've had your opportunity. Lynne Neagle.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar, rydych chi wedi cael eich cyfle. Lynne Neagle.

13:02

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you agree with me, First Minister, that the future of the NHS in Wales is dependent, not on treating patients as customers or shopping around or creating internal markets, but on the spirit of co-operation and investment we have created to ensure that all hospitals can provide high-quality services?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

A fyddch chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, bod dyfodol y GIG yng Nghymru yn dibynnu, nid ar drin cleifion fel cwsmeriaid neu siopa o gwmpas neu greu marchnadoedd mewnlol, ond ar yr ysbyrd o gydwethredu a buddsoddi yr ydym ni wedi ei greu i sicrhau y gall pob ysbyty gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel?

13:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Absolutely. I don't think the challenges the NHS faces can be answered by way of a sticker on the door, no. That's seems to be the simplistic answer. It's not particularly ambitious, because, if we look at the My Health Online website, there are far more indicators that the public can access in order to see how their local hospital is doing. I notice as well that the Welsh Conservatives are not going to apply this to mental health, to GPs, to dentists—well, 'Why not?' would be the question that I'm sure the public would ask. From our perspective, we have a system that is far more comprehensive—[Interruption.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn sicr. Nid wyf yn credu y gellir ymateb i'r heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu trwy roi sticer ar y drws, nac ydw. Mae hwnnw'n ymddangos fel yr ateb syml. Nid yw'n arbennig o uchelgeisiol, oherwydd, os edrychwn ni ar y wefan Fy lechyd Ar-lein, ceir llawer mwy o ddangosyddion y gall y cyhoedd gael mynediad atynt er mwyn gweld sut y mae eu hysbyty lleol yn perfformio. Sylwaf hefyd nad yw Ceidwadwyr Cymru yn mynd i ddefnyddio hyn ar gyfer ieichyd meddwl, meddygon teulu, deintyddion—wel, 'Pam ddim?' fyddai'r cwestiwn yr wyf yn siŵr y byddai'r cyhoedd yn ei ofyn. O'n safbwyt ni, mae gennym ni system sy'n llawer mwy cynhwysfawr—[Torri ar draws.]

13:03

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar. You've had your opportunity, you've tried five times in a seated position—stop. Have you finished, First Minister? I do beg your pardon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar. Rydych chi wedi cael eich cyfle, rydych chi wedi ceisio bum gwaith heb godi ar eich traed—dyna ddigon. A ydych chi wedi gorffen, Brif Weinidog? Mae'n ddrwg gen i.

13:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have a system that is far more comprehensive than what's being proposed by the Welsh Conservatives.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gennym ni system sy'n llawer mwy cynhwysfawr na'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Geidwadwyr Cymru.

13:03

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r ysbryd yma o gydweithio a buddsoddiad y mae Lynne Neagle yn sôn amdano fe, wrth gwrs, wedi arwain at sefyllfa yng ngogledd Cymru lle mae Bwrdd lechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gorfol gwario £3.2 milïwn mewn un mis ar staff o asiantaethau. Beth mae hynny'n ei ddweud, yn eich barn chi, felly, Brif Weinidog, ynglŷn â chyflwr capaciti staffio y gwasanaeth ieichyd yng ngogledd Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This spirit of collaboration and investment that Lynne Neagle mentioned, of course, has led to a situation in north Wales where the Betsi Cadwaladr University Local Health Board has had to spend £3.2 million in one month on agency staff. What does that tell us, in your view, First Minister, about the condition of the staffing capacity of the health service in north Wales?

13:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, mae'r gwasanaeth ieichyd yn wastad, wrth gwrs, wedi dibynnu ar rai staff sydd yn gweithio i asiantaethau, yn enwedig lle mae yna broblemau lle mae pobl, effalai, yn dost, wrth gwrs, i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael dros dro i bobl. Nid yw'n rhywbeth sydd i fod yn barhaol; mae hynny'n iawn. Ac, wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o bell ffordd o'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth ieichyd yn gweithio'n llawn amser—yn cael eu cyflogi, wrth gwrs, gan y gwasanaeth ieichyd ei hunan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the health service has always depended, of course, on some agency staff, particularly when there are problems where people, perhaps, are sick, of course, to ensure that a temporary service is available for patients. It's not something that is a permanent fixture; that's true. And, of course, the vast majority of staff who work in the NHS are full time and are employed, of course, by the NHS itself.

13:04

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, un o'r pethau sy'n poeni pobl y gogledd fwyaf ydy amseroedd aros. Ym mis Gorffennaf 2014, fe ddywedodd eich Gweinidog chi, ynglŷn ag amseroedd aros yn y gogledd:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, one of the things that concerns the people of north Wales most is waiting times. In July 2014, your Minister said, about waiting times in north Wales:

'There are conditions for which Betsi Cadwaladr is currently unable to provide treatment within the 26-week and 36-week periods that we lay down. My officials are working very closely with it to ensure that it is in a position to do that in the future.'

'Mae yna amgylchiadau lle na all Betsi Cadwaladr ddarparu triniaeth o fewn y cyfnodau a osodwn o 26 wthnos a 36 wthnos. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r bwrdd i sicrhau ei fod mewn sefyllfa i wneud hynny yn y dyfodol.'

A ydych chi felly'n pryderu bod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi gofyn am newid lleol, 'local variation', efo ysbtyai yn Lloegr, sydd yn dweud eu bod ond yn mynd i gael triniaeth o fewn 52 wythnos? Ac os ydych chi'n mynd i ysbty Gobowen, er enghraifft, os ydych o Hywel Dda a Phowys, y cytundeb rhwng ysbty Gobowen a'r byrddau iechyd hynny ydy eu bod yn cael triniaeth o fewn 40 mis. Os ydych chi'n byw yn y gogledd, 52 wythnos. Deugain wythnos, yn hytrach na 40 mis.

13:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rŷm ni'n erfyn i unrhyw fwrdd iechyd i sicrhau eu bod nhw'n dod y tu mewn i'r targedau ynglŷn ag amseroedd aros, ac wrth gwrs rŷm ni'n erfyn i ysbtyai yn Lloegr i sicrhau bod triniaeth ar gael i'r rheini yng Nghymru. Ac, wrth gwrs, mae'n wir y ffordd arall rownd hefyd achos taw byrddau iechyd Cymru sydd yn talu am y driniaeth y mae pobl yn ei chael mewn ysbtyai yn Lloegr. Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod amseroedd yn dod lawr, os ŷm ni'n siarad am amseroedd ynglŷn â chael triniaeth neu amseroedd ynglŷn â chael profion diagnostig a chael y canlyniadau o'r rheini. Mae hynny'n dangos, wrth gwrs, fod yr arian rŷm ni wedi ei fuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd, sef 48 y cant o gyllideb Llywodraeth Cymru, yn dwyn ffrwyth.

13:05

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Association of Directors of Adult Social Services state that, in England since 2010, the Tories have cut £4.6 billion from adult social care—a 31 per cent reduction that has led to devastating consequences in accident and emergency. Are you able to confirm that a Welsh Labour Government will not go down the road that the Tories would take if they were in power here?

13:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Clearly not. The problem is that the Tories—. The problem is that the Tories like to pretend that social care and health are two areas that are not related in any way whatsoever. They are. We know that if social care is not available, that has an effect on delayed transfers of care, which are rocketing in England. Why? Because money has been siphoned out of social care in England and we know the effect that has on older people. They've given up, effectively, on funding social care and said to councils, 'It's all up to you now', which means that a council in a poorer area will find it more difficult to fund social services and social care than a council in a richer area. It's an abdication of responsibility by a Tory Government in London and they would do exactly the same if that happened in Wales. The people of Wales want to make sure that vulnerable people are looked after. The Welsh Tories would abandon them.

Are you therefore concerned that the Betsi Cadwaladr health board has asked for local variation with hospitals in England, which have stated that they will only be treated within 52 weeks? And if you go to Gobowen hospital, for example, if you are from the Hywel Dda and Powys areas, the agreement between Gobowen hospital and those health boards is that they should be treated within 40 months. If you live in north Wales, it's 52 weeks. Sorry, 40 weeks rather than 40 months.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We expect every health board to ensure that they are within the targets as regards the waiting times, and of course we expect the English hospitals to ensure that treatment is available to people from Wales. And, of course, it's true vice versa because it's the Welsh health boards that pay for the treatment that people receive in hospital in England. We know, of course, that the waiting times are reducing, if we're talking about the waiting times for treatment or the waiting times for diagnostic tests and to receive the results of those tests. That, of course, demonstrates that the funding that we've invested in the health service, which is 48 per cent of the Welsh Government budget, is bearing fruit.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, yn datgan bod y Torïaid wedi torri £4.6 bilwn o ofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr ers 2010—gostyngiad o 31 y cant sydd wedi arwain at ganlyniadau trychinebus o ran damweiniau ac achosion brys. A allwch chi gadarnhau na fydd Llywodraeth Lafur Cymru yn ddilyn yr un trywydd y byddai'r Torïaid yn ei ddilyn pe byddent mewn gym yma?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Na fydd, yn amlwg. Y broblem yw bod y Torïaid—. Y broblem yw bod y Torïaid yn hoffi esgus bod gofal cymdeithasol ac iechyd yn dda fu faes nad ydynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd o gwbl. Maen nhw. Rydym ni'n gwybod os nad oes gofal cymdeithasol ar gael, bod hynny'n cael effaith ar oedi wrth drosglwyddo gofal, sy'n mynd drwy'r to yn Lloegr. Pam? Am fod arian wedi ei gipio allan o ofal cymdeithasol yn Lloegr ac rydym ni'n gwybod yr effaith y mae hynny'n ei chael ar bobl hŷn. Maen nhw wedi rho'i'r gorau, i bob pwrrpas, i ariannu gofal cymdeithasol ac wedi dweud wrth gynghorau, 'Eich cyrifoldeb chi yw'r cwbl nawr', sy'n golygu y bydd cyngor mewn ardal dlotach yn ei chael yn anoddach i ariannu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol na chyngor mewn ardal gyfoethocach. Mae'n achos o ymrwrthod â chyrifoldeb gan Lywodraeth Doriidd yn Llundain a byddent yn gwneud yn union yr un peth pe byddai hynny'n digwydd yng Nghymru. Mae pobl Cymru eisiau sicrhau bod pobl agored i niwed yn derbyn gofal. Byddai Torïaid Cymru yn troi eu cefnau arnyw nhw.

Amseroedd Ymateb Ambiwlansys

Ambulance Response Times

13:07

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan? OAQ(4)2752(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. Will the First Minister make a statement on ambulance response times in the Aneurin Bevan University Health Board area? OAQ(4)2752(FM)

13:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. The latest published figures for January show that the response time performance in the Aneurin Bevan health board area was among the best in Wales—70.2 per cent of red calls received an emergency response within eight minutes and over a third of calls received a response in just five minutes.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf. Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer mis Ionawr yn dangos bod y perfformiad amseroedd ymateb yn ardal bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ymhliith y gorau yng Nghymru—derbyniodd 70.2 y cant o alwadau coch ymateb brys o fewn wyl munud a derbyniodd mwy nag un o bob tri galwad ymateb mewn dim ond pum munud.

13:07

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the reply, Minister. I was recently contacted by the family of an 80-year-old lady who lives in my constituency or region. This lady was found by her grandson, lying on the floor of her bedroom at 4.20 p.m. She was still in her nightdress, so clearly she had fallen the night before. A paramedic arrived 20 minutes later and said that she could not be moved because of the severe pain she was in. An ambulance was called that took three hours and 20 minutes to arrive. Does the First Minister think that it is acceptable that, under his Government, an 80-year-old lady should be left in severe pain for over three hours, waiting for an ambulance?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am yr ateb, Weinidog. Cysylltodd teulu gwraig 80 mlwydd oed sy'n byw yn fy etholaeth neu fy rhanbarth â mi yn ddiweddar. Daethwyd o hyd i'r wraig hon gan ei wyr, yn gorwedd ar lawr ei hystafell wely am 4.20 p.m. Roedd hi'n dal yn ei gŵn nos, felly mae'n amlwg ei bod wedi cwymopo y noson cynt. Cyrhaeddodd parafeddyg 20 munud yn ddiweddarach a dywedodd na ellid ei symud oherwydd y poen difrifol yr oedd hi ynddo. Galwyd ambiwlans a gymerodd dair awr ac 20 munud i gyrraedd. A yw'r Prif Weinidog yn credu ei bod yn dderbyniol, o dan ei Lywodraeth ef, bod gwraig 80 mlwydd oed yn cael ei gadael mewn poen difrifol am dros dair awr, yn aros am ambiwlans?

13:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it's very difficult to comment not knowing the full circumstances surrounding the individual. We know that the red calls are designed for emergencies. I appreciate what the Member said about the lady being in pain, and we wouldn't want to see that, but a judgment is made by paramedics on the scene as to the severity of the person's condition. Where somebody is an emergency, where they are categorised as red, then we see, of course, that Aneurin Bevan has very good and improving figures in terms of ambulance call-out times.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, mae'n anodd iawn gwneud sylw heb wybod yr amgylchiadau llawn yn ymwneud â'r unigolyn. Rydym ni'n gwybod bod y galwadau coch wedi'u cynllunio ar gyfer argyfyngau. Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn a ddywedodd yr Aelod am y faith fod y wraig mewn poen, ac ni fyddem eisiau gweld hynny, ond caiff penderfyniad ei wneud gan barafeddygon yn y fan a'r lle am ddifrifoldeb cyflwr yr unigolyn. Pan fo rhywun mewn argyfwng, pan fo wedi ei gategoreiddio'n goch, yna rydym ni'n gweld, wrth gwrs, bod gan Aneurin Bevan ffigurau da iawn ac sy'n gwella o ran amseroedd galw allan ambiwlansys.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:09

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, today we've had the report from the Public Services Ombudsman for Wales and the findings that he's had when he's looked at 12 specific cases over a period of time. He's clearly called for an independent inquiry into out-of-hours provision, and in particular the help and support that can be put in place for junior doctors. I have, over this five-year term, called time after time to you for a Keogh-style inquiry into the Welsh NHS. This is a growing bank of evidence that's come forward again today. Will you now, in the twilight hours of your Government in this Assembly term, commission such an independent inquiry that can celebrate the good practice that is in many quarters of our NHS, but also identify the areas of concern that need support, and put the packages of support in place so that junior doctors and other staff members do not feel that they're left isolated without supervision?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, rydym ni wedi cael yr adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru heddiw a'r canfyddiadau ar ôl iddo edrych ar 12 o achosion penodol dros gyfnod o amser. Mae wedi galw'n eglur am ymchwiliad annibynnol i ddarpariaeth y tu allan i oriau, a'r cymorth a'r gefnogaeth y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer meddygon iau yn arbennig. Yn ystod y tymor pum mlynedd hwn, rwyf wedi galw arnoch dro ar ôl tro am ymchwiliad o fath Keogh i GIG Cymru. Mae hwn yn swmp cynyddol o dystiolaeth a gyflwynwyd eto heddiw. A wnewch chi nawr, yn niwrnodau diwethaf eich Llywodraeth yn y tymor Cynulliad hwn, gomisiyny ymchwiliad annibynnol o'r fath sy'n gallu clodfori arfer da a geir mewn sawl rhan o'n GIG, ond hefyd nodi meysydd o bryder sydd angen cymorth, a chyflwyno'r pecynnau cymorth fel nad yw meddygon iau ac aelodau staff eraill yn teimlo eu bod yn cael eu gadael yn ynysig heb oruchwyliaeth?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

You've got to admire his brass neck in talking about junior doctors—I mean, you really have to. Tomorrow, junior doctors are on strike under the Tories in England for 48 hours. That's what they would do in Wales—import the junior doctors' strike—and he stands up and talks about working with junior doctors. He doesn't know the meaning of the word. He raises the issue of the ombudsman's report. Yes, of course we take that seriously. I know that the Minister's already requested the national clinical lead for unscheduled care to give his assessment and provide advice on how best to learn from these individual cases. It's also fair to say, in terms of background, that 12 people have been identified—there were 3 million admissions in the period that was described. One of the people, of that 12, that case occurred in the last three years, and we have introduced a range of measures to improve care that are not covered in the report itself. But, that said, the report we take, of course, seriously, and I've already described the actions that the Minister is taking. But we don't need his junior doctors' strike in Wales.

Mae'n rhaid i chi edmygu ei hyfdra wrth siarad am feddygon iau—mae wir rhaid i chi. Yfory, mae meddygon iau ar streic o dan y Torïaid yn Lloegr am 48 awr. Dyna'r hyn y byddent yn ei wneud yng Nghymru—mewnforio streic y meddygon iau—ac mae'n sefyll ar ei draed ac yn siarad am weithio gyda meddygon iau. Nid yw'n gwybod ystyr y gair. Mae'n codi mater adroddiad yr ombwdsmon. Ydym, wrth gwrs ein bod ni'n cymryd hwnnw o ddifrif. Gwn fod y Gweinidog eisoes wedi gofyn i'r arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu roi ei asesiad a chynnig cyngor ar y ffordd orau o ddysgu o'r achosion unigol hyn. Mae hefyd yn deg i ddweud, o ran cefndir, bod 12 o bobl wedi cael eu nodi—roedd 3 miliwn o dderbyniadau yn y cyfnod a ddisgrifiwyd. Un o'r bobl, o'r 12 hynny, digwyddodd yr achos hwnnw yn y tair blynedd diwethaf, ac rydym ni wedi cyflwyno nifer o fesurau i wella gofal nad ydynt yn cael eu trafod yn yr adroddiad ei hun. Ond, wedi dweud hynny, rydym ni, wrth gwrs, yn cymryd yr adroddiad o ddifrif, ac rwyf eisoes wedi disgrifio'r camau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd. Ond nid ydym ni angen ei streic meddygon iau yng Nghymru.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you say I've got the brass neck—this report clearly identifies premature deaths because people, sadly, were not getting the help and support they required from the consultant-led teams that should have been in place supporting the junior doctors in some of the decisions they are making. I make no apologies—no apologies—for making sure that we root out poor practice where it is and make sure we minimise the number of premature deaths within the NHS in Wales and in any other part of the United Kingdom. But, again, you decline the opportunity to instigate an independent inquiry that could potentially look into these areas. So, if it's a 'no' from you, the electorate can make up their mind in the current election campaign that will come on 5 May.

Brif Weinidog, rydych chi'n dweud fy mod i'n hy—mae'r adroddiad hwn yn nodi'n eglur marwolaethau cynamserol oherwydd, yn anffodus, nad oedd pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen arnynt gan y timau dan arweiniad meddygon ymgynghorol a ddylai fod wedi bod ar waith yn cefnogi'r meddygon iau yn rhai o'r penderfyniadau yr oeddent yn eu gwneud. Nid wyf yn ymddiheuro o gwbl—o gwbl—am wneud yn siŵr ein bod yn cael gwared ar arfer gwael lle mae'n bodoli a sicrhau ein bod yn lleihau nifer y marwolaethau cynamserol yn y GIG yng Nghymru ac mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Ond, unwaith eto, rydych chi'n gwrthod y cyfle i gynnal ymchwiliad annibynnol a allai ystyried y meysydd hyn o bosibl. Felly, os mai 'na' yw hi gennych chi, gall yr etholwyr benderfynu yn yr ymgyrch etholiadol bresennol a fydd yn dod ar 5 Mai.

However, First Minister—[Interruption.] However, First Minister, if we move on to a different area of questioning—[Interruption.] If we move on to a different area—[Interruption.] Well, a ‘no’ is a ‘no’. Ultimately, First Minister, one of the key infrastructure projects you’ve identified as needing to be delivered to help the Welsh economy is the M4 relief road. Time and time again you have stood there and said it is a critical part of the infrastructure to develop a twenty-first century economy here in Wales. Will you make sure that you, like us, the Welsh Conservatives, commit to delivering the M4 relief road in the next Assembly term?

Fodd bynnag, Brif Weinidog—[Torri ar draws.] Fodd bynnag, Brif Weinidog, os symudwn ni ymlaen at wahanol faes holi—[Torri ar draws.] Os symudwn ni ymlaen at wahanol faes—[Torri ar draws.] Wel, ‘na’ yw ‘na’. Yn y pen draw, Brif Weinidog, un o’r prosiectau seilwaith allweddol yr ydych chi wedi nodi bod angen ei gyflwyno i helpu economi Cymru yw ffordd liniaru'r M4. Rydych chi wedi sefyll yn y fan yna dro ar ôl tro a dweud ei bod yn rhan hanfodol o'r seilwaith i ddatblygu economi yr unfed ganrif ar hugain yma yng Nghymru. A wnewch chi sicrhau eich bod chi, fel ni, Ceidwadwyr Cymru, yn ymrwymo i gyflwyno ffordd liniaru'r M4 yn nhymor nesaf y Cynulliad?

13:12

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. And let’s just come back to the issue that he raised earlier and is trying to run away from, and that is what he avoids, which is the fact that if he had been anywhere near—to use his phrase last week—God help us, power in Wales, we’d have had a junior doctors’ strike in Wales. There is nothing worse in terms of care, in terms of premature deaths, than having a situation where doctors are not in hospitals, and that’s exactly what his Government in London has delivered for the people of England, and we will not allow that to happen in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf. A gadewch i ni ddychwelyd i'r mater a gododd yn gynharach ac y mae'n ceisio rhedeg i ffrwrdd oddi wrtho, a dyna'r hyn y mae'n ei osgoi, sef y ffaith pe byddai wedi bod unrhyw le yn agos—i ddefnyddio ei ymadrodd ef yr wythnos diwethaf—Duw â'n helpo, at rym yng Nghymru, byddem ni wedi cael streic meddygon iau yng Nghymru. Nid oes dim gwaeth o ran gofal, o ran marwolaethau cynamserol, na chael sefyllfa lle nad yw meddygon mewn ysbytai, a dyna'n union y mae ei Lywodraeth ef yn Llundain wedi ei gyflawni dros bobl Lloegr, ac ni fyddwn yn caniatáu i hyunny ddigwydd yng Nghymru.

13:12

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With the greatest of respect, First Minister, mortality rates are higher in Wales than they are in England. It is a clear, identifiable strand that there are a greater number of premature deaths on the weekend than there are in the working week. If you want to stand by and allow that to continue, that's your prerogative. Have that discussion with relatives who've lost loved ones in hospital; have that discussion with medics who've been put in the unenviable position of not having the support that they require when they're on call, on the weekend and in out-of-hours positions. You've time and time again refused to support that independent inquiry. Another point that I've raised with you time and time again that would help A&E provision would be to put consultants on the wards to make sure that there is consultant cover. The Royal College of Emergency Medicine have identified a staffing level that is required for consultants. If you take the FOIs that we've received as Welsh Conservatives—[Interruption.] Well, I appreciate it might be boring for the Labour Party, but premature deaths are an important issue.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gyda'r parch mwyaf, Brif Weinidog, mae cyfraddau marwolaethau yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'n elfen eglur ac amlwg bod nifer uwch o farwolaethau cynamserol ar y penwythnos nag yn ystod yr wythnos waith. Os ydych chi eisiau sefyll yn ôl a chaniatáu i hyunny barhau, mae gennych chi bob hawl i wneud hyunny. Dylech chi gael y drafodaeth honno gyda pherthnasau sydd wedi colli anwyliad yn yr ysbyty; dylech chi gael y drafodaeth honno gyda meddygon sydd wedi cael eu rhoi yn y sefyllfa annymunol o beidio â chael y cymorth sydd ei angen arnynt pan eu bod ar alwad, ar y penwythnos ac mewn swyddogaethau y tu allan i oriau. Rydych chi wedi gwrtihod cefnogi'r ymchwiliad annibynnol dro ar ôl tro. Pwynt arall yr wyf i wedi ei godi gyda chi dro ar ôl tro a fyddai'n helpu darpariaeth adrannau damweiniau ac achosion brys fyddai rhoi meddygon ymgynghorol ar y wardiau i wneud yn siŵr bod meddygon ymgynghorol ar gael. Mae'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys wedi nodi lefel staffio sy'n ofynnol ar gyfer meddygon ymgynghorol. Os ystyriwch chi'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ydym ni wedi eu derbyn fel Ceidwadwyr Cymru— [Torri ar draws.] Wel, rwy'n sylweddoli y gallai fod yn ddiflas i'r Blaid Lafur, ond mae marwolaethau cynamserol yn fater pwysig.

13:13

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Andrew R.T. Davies, don't address the Members opposite. Please ask the questions.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Andrew R.T. Davies, peidiwch ag annerch yr Aelodau gyferbyn. Gofynnwch y cwestiynau.

13:13

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Royal College of Emergency Medicine have a clear bench line of staffing that is required in A&E departments. When you look at Hywel Dda, their numbers are 15 per cent of that bench line. When you look at health boards across Wales, they are not meeting their staffing requirement. What action are you going to take to make sure that you do get consultants in place to support junior doctors in A&E departments to make sure that we get on top of this situation?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys feincnod staffio eglur sy'n ofynnol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Pan edrychwrchi ar Hywel Dda, 15 y cant o'r meincnod hwnnw yw eu rhifau nhw. Pan edrychwrchi chi ar fyrrdu iechyd ledled Cymru, nid ydynt yn bodloni eu gofyniad staffio. Pa gamau ydych chi'n mynd i'w cymryd i wneud yn siŵr eich bod gennych chi feddygon ymgynghorol ar gael i gefnogi meddygon iau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys i wneud yn siŵr ein bod yn cael y sefyllfa hon o dan reolaeth?

13:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Let me say to the leader of the opposition—[Interruption.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gadewch i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid—[Torri ar draws.]

13:14

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That was terrible, Andrew.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Roedd hynna'n ofnadwy, Andrew.

13:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We don't really need your personal comments, thank you. The First Minister is perfectly capable of answering. First Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Does wir ddim angen eich sylwadau personol arnom ni, diolch. Mae'r Prif Weinidog yn berffaith abl i ateb. Brif Weinidog.

13:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The NHS depends on senior doctors, it depends on junior doctors, it depends on nurses. We've seen what's happened to nurse numbers in England, what's being suggested for the nurse bursaries. We've seen the fact that the UK Government's approach to working with the medical profession is to abuse them to the extent that they go out on strike. Now, if the leader of the opposition had actually turned round and condemned what his party has done in England, I would have had more respect for him and the position that he has taken. But the reality is that we have a situation in Wales where we work with the medical profession and with the nursing profession. We do not work against them, we do not provoke them to go out on strike, and he only has to see the response of the medical profession in England, who say that moral in low and that many junior doctors want to leave England. They will be welcomed in Wales. They want to come to a system where we spend more per head on health than England does, spend more on mental health, do better on cancer, and, yes, recognise challenges—not everything's perfect, we accept that. But we don't have lots of trusts that are in special measures, and we don't have a £2 billion deficit in the NHS, which is what his party has delivered in England. We will have in Wales an NHS that is free at the point of delivery and free from privatisation, an NHS that is well funded and not the Cameron's chaos that exists in England. [Interruption.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r GIG yn dibynnu ar uwch feddygon, mae'n dibynnu ar feddygon iau, mae'n dibynnu ar nyrssy. Rydym ni wedi gweld yr hyn sydd wedi digwydd i nifer y nyrssy yn Lloegr, yr hyn sy'n cael ei awgrymu ar gyfer y bwrsariaethau nyrssy. Rydym ni wedi gweld y ffaith mai dull Llywodraeth y DU o weithio gyda'r proffesiwn meddygol yw eu cam-drin i'r fath raddau fel eu bod nhw'n mynd allan ar streic. Nawr, pe byddai arweinydd yr wrthblaid wir wedi codi a chondemnio yr hyn y mae ei blaidd wedi ei wneud yn Lloegr, byddai gen i fwy o barch tuag ato a'r safiad y mae wedi ei gymryd. Ond y gwir amdani yw bod gennym ni sefyllfa yng Nghymru lle'r ydym ni'n gweithio gyda'r proffesiwn meddygol a chyda'r proffesiwn nyrssio. Nid ydym ni'n gweithio yn eu herbyn, nid ydym ni'n eu pryfocio nhw i fynd allan ar streic, a does ond rhaid iddo weld ymateb y proffesiwn meddygol yn Lloegr, sy'n dweud bod ysbryd yn isel a bod llawer o feddygon iau eisiau gadael Lloegr. Byddant yn cael eu croesawu yng Nghymru. Maen nhw eisiau dod i system lle'r ydym ni'n gwario mwy fesul pen ar iechyd nag y mae Lloegr, yn gwario mwy ar iechyd meddwl, yn gwneud yn well o ran canser, ac, ie, yn cydnabod heriau —nid yw popeth yn berffaith, rydym ni'n derbyn hyunny. Ond nid oes gennym ni lawer o ymddiriedolaethau sy'n destun mesurau arbennig, ac nid oes gennym ni ddiiffyg o £2 biliwn yn y GIG, sef yr hyn y mae ei blaidd ef wedi ei gyflawni yn Lloegr. Bydd gennym ni yng Nghymru GIG sydd am ddim ar y pwnt darparu ac yn rhydd o breifateiddio, GIG sydd wedi ei ariannu'n dda ac nid anhreft Cameron fel sy'n bodoli yn Lloegr. [Torri ar draws.]

13:16

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You obviously enjoyed that. Now we move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n amlwg eich bod chi wedi mwynhau hynna. Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Thank you, Presiding Officer. First Minister, you are correct to say that the Tories have declared war on junior doctors in England. Applications from English doctors to work abroad surged by 1,000 per cent on the day that Jeremy Hunt announced his new junior doctor contract. We do need to take advantage of that—getting those medics to come and practise their medicine here in Wales. If we are to be successful, we need to assure junior doctors that there will be adequate supervision, support and training opportunities for them here in Wales. So, could you outline clearly what steps you will take in response to the ombudsman's report to ensure that junior doctors in Wales will be assured of adequate cover, supervision and training?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, rydych chi'n gywir i ddweud bod y Toriaid wedi cyhoeddi rhyfel ar feddygon iau yn Lloegr. Bu cynydd o 1,000 y cant i geisiadau i weithio dramor gan feddygon o Loegr ar y diwrnod y cyhoeddodd Jeremy Hunt ei gontract meddygon iau newydd. Mae angen i ni fanteisio ar hynny—gan gael y meddygon hynny i ddod i ymarfer eu meddygaeth yma yng Nghymru. Os ydym ni'n mynd i fod yn llwyddiannus, mae angen i ni sicrhau meddygon iau y bydd digon o gyfleoedd goruchwyliau, cymorth a hyfforddiant ar eu cyfer yma yng Nghymru. Felly, a allech chi amlinellu'n eglur pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd mewn ymateb i adroddiad yr ombwdsmon i sicrhau y bydd meddygon iau yng Nghymru yn sicr o gael cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant digonol?

Well, it is something that, as I said, the Minister has asked the clinical lead to look at. We want to see what the clinical lead's view is. As I say, we take the report seriously, and there are cases mentioned in the report that deserve fuller investigation, we accept that. But, as I say, against the context of 12 cases out of 3 million admissions in five years, one case, I think, mentioned in the report is from the last three years. We have put steps in place that aren't mentioned in the report itself, since 2012, to deal with some of the issues that were raised there. So, yes, the 12 cases are concerning, of course they are, but they're not evidence of a systemic failure in the system. That said, of course, we wait to see what the clinical lead says.

Wel, mae'n rhywbedd, fel y dywedais, y mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r arweinydd clinigol ei ystyried. Rydym ni eisiau gweld beth yw barn yr arweinydd clinigol. Fel y dywedais, rydym ni'n cymryd yr adroddiad o ddifrif, a cheir achosion a grybwyliau yn yr adroddiad sy'n haeddu ymchwiliad llawnach, rydym ni'n derbyn hynny. Ond, fel y dywedais, yng nghyd-destun 12 achos allan o 3 miliwn o dderbyniadau mewn pum mlynedd, un achos, rwy'n meddwl, a grybwyliau yn yr adroddiad, sydd o'r tair blynedd diwethaf. Rydym ni wedi rhoi camau ar waith nad ydynt yn cael eu crybwyliau yn yr adroddiad ei hun, ers 2012, i ymdrin â rhai o'r materion a godwyd ynddo. Felly, ydy, mae'r 12 achos yn peri pryder, wrth gwrs eu bod nhw, ond nid ydynt yn dystiolaeth o fethiant systemig yn y system. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, rydym ni'n aros i weld beth mae'r arweinydd clinigol yn ei ddweud.

Thank you for that. I believe that this ombudsman's report—and he is perfectly entitled, of course, and it's his duty to carry out such thematic reports—is evidence that we do need wholesale change in the way we inspect our health services. An important element of that would be to establish a new health watchdog that is completely independent of Welsh Government and that is properly resourced and able to do its job without fear of repercussions. Would you commit yourself to establishing a stand-alone healthcare inspectorate system here in Wales, independent of your Government, who could investigate such matters as identified by the ombudsman?

Diolch i chi am hynna. Credaf fod yr adroddiad ombwdsmon hwn—ac mae ganddo berffaith hawl, wrth gwrs, ac mae'n ddyletswydd arno i gyflawni adroddiadau thematig o'r fath—yn dystiolaeth bod angen newid ar raddfa eang arnom i'r ffordd yr ydym ni'n arolygu ein gwasanaethau iechyd. Elfen bwysig o hynny fyddai sefydlu corff gwarchod newydd ar gyfer iechyd sy'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ac sy'n cael adnoddau priodol ac yn gallu gwneud ei waith heb ofni ôl-effeithiau. A wnewch chi ymrwymo eich hun i sefydlu system arolygiaeth gofal iechyd annibynnol yma yng Nghymru, yn annibynnol ar eich Llywodraeth, a allai ymchwilio i'r materion hynny a nodir gan yr ombwdsmon?

13:18

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I agree with her in principle. I wouldn't agree with her that, somehow, the inspectorate is leaned on in any way or isn't able to deliver a judgment that it feels is fit. But perception is important, and these are certainly issues that we are keen to look at in the course of the next Assembly. In terms of what's happened since 2012, if I could just inform the Assembly, we, for example, are the only nation to routinely review all deaths in hospitals, and we've implemented a national early warning system to identify deteriorating patients at all times, and there have been significant improvements in sepsis and stroke care and outcomes. So, that was put in place before this report actually came out, but I take the point that the leader of the Liberal Democrats makes about the need to look carefully at the perception of independence of the inspectorates.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n cytuno â hi mewn egwyddor. Ni fyddwn yn cytuno â hi bod pwysau ar yr arolygiaeth, rywsut, mewn unrhyw ffordd neu nad yw'n gallu gwneud dyfarniad y mae'n teimlo sy'n briodol. Ond mae tybiaethau'n bwysig, ac mae'r rhain yn sicr yn faterion yr ydym ni'n awyddus i'w hystyried yn ystod y Cynulliad nesaf. O ran yr hyn sydd wedi digwydd er 2012, pe gallwn i hysbysu'r Cynulliad, ni, er enghraift, yw'r unig wlad i adolygu pob marwolaeth mewn ysbyty fel mater o drefn, ac rydym ni wedi cyflwyno system rhybudd cynnar genedlaethol i nodi cleifion sy'n dirywio ar bob adeg, a bu gwelliannau sylweddol o ran gofal a chanlyniadau sepsis a strôc. Felly, cyflwynwyd hynny cyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond rwy'n derbyn y pwynt y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud am yr angen i edrych yn ofalus ar y dybiaeth o annibyniaeth yr arolygiaethau.

13:19

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, when the inspectorate was set up we didn't have the legislative powers we do now, but if it's good enough to have an independent inspector for education, I'm sure you would agree with me that it's equally important to have that in the field of healthcare. Now, the ombudsman says today that the cases highlighted do not appear to be isolated incidents and that an independent systematic review would confirm any emerging patterns or inconsistency in quality of care. I'm sure you would agree with me that, in order to learn lessons from this report and, indeed, many of the strategic challenges facing our NHS in Wales into the future, it's time to put patients not politics first. Will you recommit this afternoon to supporting our idea of a cross-party commission to look into the future of our NHS, and which could look at these issues around staffing and how we can continue to develop a quality care environment for all Welsh patients?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, pan sefydlwyd yr arolygiaeth, nid oedd gennym yr un pwerau deddfwriaethol ag sydd gennym ni nawr, ond os yw'n ddigon da i gael arolygydd annibynnol ar gyfer addysg, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi ei bod yr un mor bwysig cael hynny ym maes gofal iechyd. Nawr, mae'r ombwdsmon yn dweud heddiw nad yw'n ymddangos bod yr achosion a amlwgwyd yn ddigwyddiadau ynysig ac y byddai adolygiad systematig annibynnol yn cadarnhau unrhyw batrymau neu anghysondeb sy'n dod i'r amlwg o ran ansawdd gofal. Rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi, er mwyn dysgu gwersi o'r adroddiad hwn ac, yn wir, llawer o'r heriau strategol sy'n wynebu ein GIG yng Nghymru yn y dyfodol, ei bod hi'n amser rhoi cleifion ac nid gwleidyddiaeth yn gyntaf. A wnewch chi ailymrwymo y prynhawn yma i gefnogi ein syniad o gomisiwn trawsbleidiol i ystyried dyfodol ein GIG, ac a allai ystyried y materion hyn ynghylch staffio a sut y gallwn barhau i ddatblygu amgylchedd gofal o ansawdd i holl gleifion Cymru?

13:20

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We agreed, of course; it was the other parties that wouldn't agree. Yes, in an ideal world—. I dare say it's not going to happen before an election, but we were in agreement with the Liberal Democrats on this, that a cross-party commission looking at this would have been a good idea. But that didn't find favour with the other parties.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaethom ni gytuno, wrth gwrs; y pleidiau eraill oedd yn anfodlon cytuno. Gwnaf, mewn byd delfrydol—. Mentrach ddweud nad yw'n mynd i ddigwydd cyn etholiad, ond roeddem ni'n cytuno â'r Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn, y byddai comisiwn trawsbleidiol yn ystyried hyn wedi bod yn syniad da. Ond nid oedd y pleidiau eraill o blaid hynny.

13:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to Leanne Wood, who is the leader of Plaid Cymru. Leanne Wood.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn nawr at Leanne Wood, sef arweinydd Plaid Cymru. Leanne Wood.

Diolch, Lywydd. First Minister, I am slightly concerned that you appear to dismiss research because it looked at just 12 cases. I'm sure that you are well aware of the difference between qualitative and quantitative research, and qualitative research of this nature shouldn't be dismissed. But I want to ask you about your manifesto for the last election, because you promised then that people would be able to access local GP services in the evenings and on Saturday mornings. Why is it, then, that not one single surgery is offering appointments after 6.30 p.m. in four health board areas, and there are only two surgeries offering appointments on Saturday mornings, across the whole of the country? Can you tell us why you have failed to meet this election pledge?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, rwyf braidd yn bryderus ei bod yn ymddangos eich bod yn gwrtod gwaith ymchwil oherwydd iddo ystyried 12 achos yn unig. Rwy'n siŵr eich bod chi'n gwbl ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng ymchwil ansoddol a meintiol, ac ni ddylid gwrtod ymchwil ansoddol o'r math hwn. Ond hoffwn eich holi am eich manifesto ar gyfer yr etholiad diwethaf, gan eich bod wedi addo bryd hynny y byddai pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu lleol fin nos ac ar foreau Sadwrn. Pam, felly, nad oes yr un feddygfa yn cynnig apwyntiadau ar ôl 6.30 p.m. mewn pedair ardal bwrdd iechyd, ac mai dim ond dwy feddygfa sy'n cynnig apwyntiadau ar foreau Sadwrn, ledled y wlad gyfan? A allwch chi ddweud wrthym ni pam yr ydych wedi methu â chyflawni'r addewid etholiadol hwn?

Although rural areas such as Ynys Môn pay exactly the same as everyone else in the British Isles for their mobile phone signal, the service is often second rate. To be honest, many pay more for a mobile phone in areas such as Ynys Môn—some pay for two phones, one for work and one for home; some pay for a box to boost the signal; and others have to pay roaming charges because the signal from Ireland is stronger than the signal available on Ynys Môn. The 'Daily Post' at present is running a campaign to try and improve mobile signal in north Wales and they revealed some figures yesterday on 4G coverage: I think that the Netherlands are on 83 per cent, Britain is on 53 per cent and Wales is on just 20 per cent. Given that connectivity is so important in rural areas, what has prevented the Welsh Government from encouraging the mobile phone providers to do more to provide enhanced signal in rural areas and in Ynys Môn?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yn gyntaf, rwy'n deall y pwynt ynglŷn ag lwerddon, fel rhywun sydd â chwaer yng nghyfraith sydd yn byw yn nhref Warrenpoint yng Ngogledd Iwerddon. Mae signal cryfach yn dod o ochr arall y dŵr, o'r Weriniaeth, felly rydych yn talu taliadau 'roaming' o achos hynny. Nid yw hwn yn rhywbeth sydd wedi cael ei ddatganoli, wrth gwrs. Serch hynny, rŷm ni wedi bod yn gwthio Llywodraeth y Deyrnas Unedig a hefyd y gweithredwyr er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth ddylen nhw ei gael.

First of all, I understand the point about Ireland, as somebody who has a sister-in-law living in the town of Warrenpoint in Ireland. A stronger signal comes from across the water, from the Republic, and therefore you pay roaming charges because for that. This is not a devolved issue, of course. However, we have been pushing the UK Government and also the mobile providers to ensure that people receive the service that they should have. If we look

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that the mobile network operators have written a joint letter to the Welsh Government urging you to review the planning framework to facilitate the roll-out of mobile infrastructure. All mobile network operators have expressed the view that, if the necessary mobile infrastructure is to be rolled out across rural Wales, they must be permitted to do so by local planning authorities through more flexible planning regulation, which would allow an increase of permitted development to a height of 25m and allow a 5m mast height in non-protected areas. I'd be grateful for an update on this and your view on this.

Rwy'n deall bod gweithredwyr y rhwydwaith symudol wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd i Lywodraeth Cymru yn eich annog i adolygu'r fframwaith cynllunio i hwyluso'r broses o gyflwyno seilwaith symudol. Mae'r holl weithredwyr rhwydweithiau symudol wedi mynegi'r farn, os yw'r seilwaith symudol angenreidiol am gael ei gyflwyno ar draws cefn gwallad Cymru, bod yn rhaid iddynt gael caniatâd i wneud hynny gan awdurdodau cynllunio lleol trwy reoleiddio cynllunio mwy hyblyg, a fyddai'n caniatâu cynnydd i ddatblygiad a ganiateir i uchder o 25m ac yn caniatâu uchder mast o 5m mewn ardaloedd nad ydynt yn warchodedig. Byddwn yn ddiolchgar am yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn a'ch barn ar hyn.

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I don't accept the situation is any different, or any worse, rather, in Wales than it is in England. It's important that the operators learn to share as well—to share masts. To have a separate mast for every single operator strikes me as being inefficient. In other countries, masts are shared and I'd urge them certainly to do that. But now we look to see the UK Government ensuring that the agreement that they have reached with the operators becomes effective for most people in Wales.

It's not just the masts, of course, because one of the issues that have been raised, and I raised it earlier, and I know the Member for Ynys Môn has raised this as well, is the strength of the signal. There have been many occasions, and I'm sure Members will have had experience of this themselves, where the phone may show four or five bars of phone reception, but you can't download data, because the signal doesn't seem to be strong enough. I'm not going to pretend to be an expert on the technical aspects of this, but it isn't simply a question of having masts in place, it's a question of making sure that the strength of the signal coming from the mast is strong enough to make sure—that the bandwidth is strong enough to make sure—that people can use the signal for downloading information as well as phoning and texting.

Wel, nid wyf yn derbyn bod y sefyllfa yn wahanol, nac yn waeth, yn hytrach, yng Nghymru nag ydyw yn Lloegr. Mae'n bwysig bod y gweithredwyr yn dysgu i rannu hefyd—i rannu mastiau. Mae'n fy nharo i bod cael mast ar wahân ar gyfer pob un gweithredwr yn anfeithlon. Rhennir mastiau mewn gwledydd eraill a byddwn yn sicr yn eu hannog i wneud hynny. Ond nawr rydym ni'n disgwyl gweld Llywodraeth y DU yn sicrhau bod y cytundeb y maen nhw wedi ei wneud gyda'r gweithredwyr yn dod yn effeithiol i fwyafri pobl Cymru.

Nid dim ond y mastiau yw hyn, wrth gwrs, oherwydd un o'r materion a godwyd, ac fe'i codwyd gennyl fîn gynharach, a gwn fod yr Aelod dros Ynys Môn wedi codi hyn hefyd, yw cryfder y signal. Bu sawl achlysur, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau wedi cael profiad o hyn eu hunain, lle gall y ffôn ddangos pedwar neu bum bar o dderbyniad ffôn, ond nad ydych chi'n gallu lawrlwytho data, gan ei bod yn ymddangos nad yw'r signal yn ddigon cryf. Nid wyf yn mynd i esgus bod yn arbenigwr ar agweddau technegol hyn, ond nid yw'n gwestiwn syml o godi mastiau, mae'n fater o wneud yn siŵr bod cryfder y signal sy'n dod o'r mast yn ddigon cryf i wneud yn siŵr—neu fod y lled band yn ddigon cryf i wneud yn siŵr—y gall pobl ddefnyddio'r signal ar gyfer lawrlwytho gwybodaeth yn ogystal â ffonio ac anfon negeseuon testun.

13:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, Kirsty Williams.

Yn olaf, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the mobile infrastructure project was meant to deliver hundreds of masts across the UK to prevent notspots, but the Government in Westminster have scrapped that programme, having just built 40. Having dealt with them, and indeed the mobile companies, forgive me if I'm a little bit cynical as to whether this agreement will actually make a difference to my constituents in Brecon and Radnorshire. You say this is not a devolved issue, but economic development and public services are devolved issues, and mobile telephony and good signals are crucial to the delivery of both. What steps will the Welsh Government take to ensure that all communities in Wales have access to decent mobile phone coverage?

Brif Weinidog, roedd y prosiect seilwaith symudol i fod i ddarparu cannoedd o fastiau ar draws y DU i atal mannau gwan, ond mae'r Llywodraeth yn San Steffan wedi diddymu'r rhaglen honno, ar ôl adeiladu 40 yn unig. Ar ôl ymdrin â nhw, ac yn wir y cwmnïau ffonau symudol, maddeuwch i mi os wyf i braidd yn sinigaidd o ran pa un a fydd y cytundeb hwn wir yn gwneud gwahaniaeth i'm hetholwyr ym Mrycheiniog a Sir Ffynwy. Rydych chi'n dweud nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond mae datblygiad economaidd a gwasanaethau cyhoeddus yn faterion datganoledig, ac mae teleffoni symudol a signalau da yn hanfodol i ddarparu'r ddua. Pa gamau wnaiff Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod gan bob cymuned yng Nghymru fynediad at dderbyniad ffonau symudol da?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it's right to say that economic development is devolved, but telecoms are not. There is an obligation on the UK Government to make sure that mobile phone coverage improves across the whole of the UK. We expect to see the UK Government deliver that, certainly by next year. If that is not delivered, then we'll have to consider what steps to take next.

Wel, mae'n iawn i ddweud bod datblygu economaidd wedi'i ddatganoli, ond nid yw telathrebu. Ceir rhwymedigaeth ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod derbyniad ffonau symudol yn gwella ar draws y DU gyfan. Disgwylwn weld Llywodraeth y DU yn cyflawni hynny, yn sicr erbyn y flwyddyn nesaf. Os nad yw'n cael ei ddarparu, yna bydd yn rhaid i ni ystyried pa gamau i'w cymryd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister, Jane Hutt.

13:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, there's been one change to the business statement for this week's business. The First Minister will make a statement on the Government and Laws in Wales Bill. Business for the final week of the Assembly is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

13:49

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, as you know, today is International Women's Day, and I know you're hosting a number of events here at the Senedd. On Saturday, I visited Oxfam in Monmouth and donated one of my fiancée's handbags—with her permission, I should add—as part of their campaign to support women living in challenging circumstances across the world. Will you join me in welcoming the efforts of Oxfam and other charities, whose volunteers work tirelessly throughout the year to raise much-needed funds and to raise awareness of days such as International Women's Day?

13:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I very much welcome Nick Ramsay's support, not only for that particular initiative in terms of Oxfam, but for International Women's Day, which I know we're going to debate tomorrow, led by the Presiding Officer, Dame Rosemary Butler, and I recognise the role she has played in terms of raising the profile of women in public life in particular, but of course our Minister for Communities and Tackling Poverty is also speaking at an Oxfam event. There are a number of International Women's Day events, and it is very important that we recognise not only the achievements but also the work that we have to do in terms of progressing equality for women, not just here in Wales but across the world.

13:50

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last week, I visited the Morriston Hospital idiopathic pulmonary fibrosis support group, and I was very impressed with the level of support being provided for those suffering from the disease. Can I request an oral or written statement on the pulmonary fibrosis service within Wales?

2. Business Statement and Announcement

 [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, bu un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar y Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru. Mae busnes ar gyfer wythnos olaf y Cynulliad fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhliith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Llywydd, fel y gwyddoch, heddiw yw Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a gwn eich bod yn cynnal nifer o ddigwyddiadau yma yn y Senedd. Ddydd Sadwrn, ymwelais ag Oxfam yn Nhrelynwy a rhoddais un o fagiau llaw fy nyweddi—gyda'i chaniatâd hi, dylwn ychwanegu—yn rhan o'u hymgyrch i gefnogi menywod sy'n byw o dan amgylchiadau anodd ar draws y byd. A wnewch chi ymuno â mi i groesawu ymdrechion Oxfam ac elusennau eraill, y mae eu gwirfoddolwyr yn gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn i godi arian sydd wir ei angen ac i godi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau fel Diwrnod Rhyngwladol y Menywod?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, rwy'n croesawu cefnogaeth Nick Ramsay yn fawr, nid yn unig i'r fenter benodol honno o ran Oxfam, ond i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, y gwn ein bod yn mynd i'w drafod yfory, dan arweiniad y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler, ac rwy'n cydnabod y swyddogaeth y mae hi wedi ei chyflawni o ran codi proffil menywod mewn bywyd cyhoeddus yn enwedig, ond wrth gwrs mae ein Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi hefyd yn siarad mewn digwyddiad Oxfam. Ceir nifer o ddigwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod nid yn unig y llwyddiannau ond hefyd y gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud o ran symud cydraddoldeb i fenywod yn ei flaen, nid yn unig yma yng Nghymru ond ar draws y byd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yr wythnos diwethaf, ymwelais â grŵp cymorth ffeibrosis idiopathig yr ysgyfaint Ysbyty Treforys, a gwnaeth lefel y cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r rhai sy'n dioddef o'r clefyd grynn argraff arnaf i. A gaf i ofyn am ddatganiad llafar neu ysgrifenedig ar y gwasanaeth ffeibrosis yr ysgyfaint yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for that question. It gives us a chance to highlight this service, which is not just being provided for patients at Morriston with pulmonary fibrosis, but, of course, we have a very strong pulmonary fibrosis patient group in the Gower—very complimentary of the local service. And I will ask the Minister for Health and Social Services to write to you on this matter.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolchaf i Mike Hedges am y cwestiwn yna. Mae'n rhoi cyfle i ni dynnu sylw at y gwasanaeth hwn, sy'n cael ei ddarparu nid yn unig i gleifion yn Nhreforys sydd â ffeibrosi yr ysgyfaint, ond, wrth gwrs, mae gennym ni grŵp cleifion ffeibrosi yr ysgyfaint cryf iawn yng Ngŵyr—sy'n canmol y gwasanaeth lleol yn fawr. A byddaf yn gofyn i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atoch ar y mater hwn.

13:51

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder if we could have a statement from the Welsh Government on any discussions you have had with the European Commission on the current situation with regard to Tata Steel. I ask because I'm aware that you may be able to access both the European fund for strategic investments and the Horizon 2020 money. I was at the Commission offices a few weeks ago, and they seem to think that if Wales applied for such funding that developments such as the power plant at the steelworks in Port Talbot could become a reality, due to being able to access that fund. So, I wonder if you could give us a statement to that effect.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, tybed a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar y sefyllfa bresennol o ran Tata Steel. Ryw'n gofyn gan fy mod i'n ymwybodol efallai y gallech chi gael mynediad at y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol ac arian Horizon 2020. Roeddwn i yn swyddfeydd y Comisiwn ychydig wythnosau yn ôl, ac mae'n ymddangos eu bod nhw'n meddwl pe byddai Cymru'n gwneud cais am gyllid o'r fath y gallai datblygiadau fel yr orsaf bŵer yn y gwaith dur ym Mhort Talbot ddod yn realiti, gan eu bod yn gallu cael gafael ar y cylid hwnnw. Felly, tybed a allech chi roi datganiad i ni i'r perwyl hwnnw.

I also wanted to ask for a statement from the Minister for Natural Resources regarding the Llynfi biomass site. People living in the area have been messaging me in the last few days saying that there has been a fire burning there for the last six days, that the air stinks of smoke and that they don't know how to get in touch with Natural Resources Wales. They have tried to contact them via Twitter, but they haven't been responsive. Obviously, this is something that concerns local people, so I wonder whether we could have a statement from the Minister to see how this can be progressed.

Roeddwn i hefyd eisiau gofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol am safle biomas Llynfi. Mae pobl sy'n byw yn yr ardal wedi bod yn anfon negeseuon ataf dros y diwrnodau diwethaf yn dweud y bu tân yn llosgi yno ers chwe diwrnod, bod yr aer yn drewi o fwg ac nad ydynt yn gwybod sut i gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru. Maen nhw wedi ceisio cysylltu â nhw trwy Twitter, ond nid ydynt wedi ymateb. Yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth sy'n poeni pobl leol, felly tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog i weld sut y gellir bwrw ymlaen â hyn.

13:52

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very glad to say that, in terms of access to European funding—not only structural funds but related funds that can support Tata—we're working very closely with the Commission. In fact, I was in Brussels last week and I raised this with the Commission—and, of course, following very closely to the Minister's work on the taskforce, but also recognising that, for example, when I announced the multi-million Materials and Manufacturing Academy at Swansea bay innovation campus, Tata was there present, recognising that this would help them in terms of leading into cutting-edge technology, which is so important for the future of Tata steelworks.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ryw'n falch iawn o ddweud, o ran mynediad at gyllid Ewropeaidd—nid yn unig cronefeydd strwythurol, ond arian cysylltiedig a all gefnogi Tata—ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Comisiwn. A dweud y gwir, roeddwn i ym Mrwsel yr wythnos diwethaf a chodais hyn gyda'r Comisiwn—ac, wrth gwrs, yn fuan iawn ar ôl gwaith y Gweinidog ar y tasglu, ond hefyd gan gydnabod, er enghraifft, pan gyhoeddais yr Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu ar gampws arloesi bae Abertawe, roedd Tata yno'n bresennol, gan gydnabod y byddai hyn yn eu helpu o ran arwain i mewn i'r dechnoleg ddiweddaraf, sydd mor bwysig i ddyfodol gwaith dur Tata.

Now, your second point: of course the Minister will respond to any questions that are raised in terms of responding to what is a local fire, where you need all agencies, of course, to respond.

Nawr, eich ail bwynt: wrth gwrs bydd y Gweinidog yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir o ran ymateb i'r hyn sy'n dâñl lleol, lle mae angen i bob asiantaeth, wrth gwrs, ymateb.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, International Women's Day also gives us the opportunity to reflect on the advancements that we've made in women's health issues, of which there have been many in recent decades. But constituents of mine remain concerned about the policy by Breast Test Wales to invite women for mammograms between the ages of 50 and 70, and then allow self-referral after that. Now, I'm sure you'd agree with me it's a very important procedure, but there's always something slightly more inviting you could put into your diary than a mammogram, and often people put that off. Does the Government have any intention to relook at the evidence around self-referral for mammograms after the age of 70, and to revise the policy to continue to invite women, given that a woman's risk of cancer increases with age?

Weinidog, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod hefyd yn rhoi cyfle i ni fyfyrion ar y datblygiadau yr ydym ni wedi eu gwneud o ran materion iechyd menywod, a bu llawer ohonynt yn y degawdau diwethaf. Ond mae etholwyr i mi yn dal yn bryderus yngylch y polisi gan Bron Brawf Cymru i wahodd menywod am famogramau rhwng 50 a 70 oed, ac yna caniatáu hunangyfeirio ar ôl hynny. Nawr, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi ei bod yn driniaeth bwysig iawn, ond mae bob amser rhywbeth ychydig mwya deniadol y gallech chi ei roi yn eich dyddiadur na mamogram, ac yn aml mae pobl yn ei ohirio. A oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i ailystyried y dystiolaeth o ran hunangyfeirio ar gyfer mamogramau ar ôl 70 oed, ac i ddiwygio'r polisi i barhau i wahodd menywod, o gofio bod risg menyw o gael canser yn cynyddu gydag oedran?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the success of Breast Test Wales is clearly evident—huge progress—and I remember Dame Deirdre Hine, who was the chief medical officer—you'll recall her as well, I'm sure, Kirsty—and the way she pioneered this and took this forward and saved so many lives in terms of women's health, and it's very important to acknowledge that again today, as International Women's Day. Obviously, it's evidence-based in terms of the service that's provided, and also linked to the national committee on screening and the advice that they give on screening. But I know the Minister takes account of this, and also patient questions and concerns that arise. That will, of course, be looking at the impact of self-referral routes to Breast Test Wales.

Wrth gwrs, mae llwyddiant Bron Brawf Cymru yn gwbl amlwg—cynnydd enfawr—ac rwy'n cofio'r Fonesig Deirdre Hine, y prif swyddog meddygol gynt—byddwch chi'n ei chofio hi hefyd, rwy'n siŵr, Kirsty—a'r ffordd y gwnaeth hi arloesi hyn a datblygu hyn ac achub cymaint o fywydau o ran iechyd menywod, ac mae'n bwysig iawn cydnabod hynny eto heddiw, ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Yn amlwg, mae'n seiliedig ar dystiolaeth o ran y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, a hefyd yn gysylltiedig â'r pwylgor cenedlaethol ar sgrinio a'r cyngor y maen nhw'n ei roi ar sgrinio. Ond rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn cymryd hyn i ystyriaeth, yn ogystal â chwestiynau a phryderon cleifion sy'n codi. Bydd hynny, wrth gwrs, yn edrych ar effaith llwybrau hunangyfeirio i Bron Brawf Cymru.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I call for a single statement on voter registration? Following publication of a co-signed letter from party leaders and co-chairs of the all-party parliamentary group on democratic participation in Westminster, the Bite the Ballot campaign has asked us to raise the need to boost electoral registration in the National Assembly before we go into recess. According to Office for National Statistics figures for December 2015, my regional constituency of North Wales witnessed a 25 per cent drop in 16 and 17-year-old attainers registered to vote as the next generation of Welsh voters. Bite the Ballot's 'Missing Millions' report is being launched in Westminster today with solutions, and, to take this forward urgently, with elections for the Assembly and referendum imminent, what action will the Welsh Government take to issue special guidance to electoral registration officers in Wales, reminding them of their power to go into and work with schools in the same way that the electoral officer for Northern Ireland does? In Northern Ireland a proven and successful schools initiative seeks to ensure every young person registers in the one place they're obliged to be: at school. If it's good enough for Ireland, why not Wales? I would welcome, as would the campaign, a statement accordingly.

A gaf i alw am un datganiad ar gofrestru pleidleiswyr? Ar ôl cyhoeddi llythyr wedi'i gyd-lofnodi gan arweinwyr y pleidiau a chyd-gadeiryddion y grŵp seneddol hollbleidiol ar gyfranogiad democraidd yn San Steffan, mae ymgyrch Bite the Ballot wedi gofyn i ni godi'r angen i roi hwb i gofrestriadau etholiadol yn y Cynulliad Cenedlaethol cyn i ni fynd i'r toriad. Yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer mis Rhagfyr 2015, bu gostyngiad o 25 y cant i nifer y cyrhaeddwr 16 a 17 mlwydd oed yn fy etholaeth ranbarthol i yn y gogledd fel cenhedlaeth nesaf pleidleiswyr Cymru. Mae adroddiad 'Missing Millions' Bite the Ballot yn cael ei lansio yn San Steffan heddiw gydag atebion, ac, i fwrr ymlaen â hyn ar frys, gydag etholiadau'r Cynulliad a'r refferendwm ar fin cael eu cynnal, pa gamau wnaiff Llywodraeth Cymru eu cymryd i gyhoeddi canllawiau arbennig i swyddogion cofrestru etholiadol Cymru, yn eu hatgoffa o'u pŵer i fynd i mewn i ysgolion a gweithio â nhw yn yr un modd ag y mae'r swyddog etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn ei wneud? Yng Ngogledd Iwerddon, mae menter ysgolion brofedig a llwyddiannus yn ceisio sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cofrestru yn yr un lle y mae'n rhaid iddyn nhw fod: yn yr ysgol. Os yw'n ddigon da i Iwerddon, pam nad Cymru? Byddwn yn croesawu, fel y byddai'r ymgyrch, ddatganiad yn unol â hynny.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it is quite extraordinary that you raise this, assuming absolute ignorance, or are you not ashamed of your Government—of the way the UK Government has intervened to make democratic registration opportunities so difficult, so complex? It is astonishing that you raise that question. But, of course, we wish to as a Welsh Government support not only those who are eligible to vote but also those who are responsible, and so we have given additional funding to local authorities in order to assist them in this huge task, which I know is going to result, unfortunately, in terms of the new arrangements that have been imposed by your Government, in much more difficult access to democracy as we move into all electoral cycles.

Wel, mae'n eithaf rhyfeddol eich bod yn codi hyn, gan dybio anwybodaeth lwyf, neu onid oes gennych chi gywilydd o'ch Llywodraeth—o'r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymyrryd i wneud cyfleoedd cofrestru democraetaidd mor anodd, mor gymhleth? Mae'n rhyfeddol eich bod yn codi'r cwestiwn yna. Ond, wrth gwrs, rydym ni'n dymuno fel Llywodraeth Cymru, cefnogi nid yn unig y rhai sy'n gymwys i bleidleisio ond hefyd y rhai sy'n gyfrifol, ac felly rydym ni wedi rhoi arian ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo yn y dasg enfawr hon, yr wyf yn gwybod sy'n mynd i arwain, yn anffodus, o ran y trefniadau newydd sydd wedi eu gorfodi gan eich Llywodraeth chi, at fynediad llawer mwy anodd at ddemocratiaeth wrth i ni symud i mewn i bob cylch etholiadol.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gwasanaeth awyr de-gogledd yn un pwysig iawn, iawn wrth gwrs, ac mae cysondeb yn y gwasanaeth hwnnw yn eithriadol o bwysig o ran cynnal niferoedd y teithwyr ac yn y blaen, ac felly roedd y ffaith bod Air Links wedi cael ei hatal, i ddechrau, yn y gwasanaeth, wedi cael effaith andwyol ar hynny. Ond y broblem ddiweddaraf ydy bod teithwyr a oedd yn teithio gydag Air Links wedi archebu tocynnau ymlaen llaw ac maen nhw'n methu â chael unrhyw gyswilt gyda'r cwmni awyr i gael eu digolledu. Mi fuaswn i'n Hoffi datganiad gan y Gweinidog yn datgan ei sefyllfa—Links Air, mae'n ddrwg gen i. Buaswn i'n licio datganiad gan y Gweinidog i ddweud yn union beth ydy'r sefyllfa ddiweddaraf a beth ydy sefyllfa'r teithwyr yma sydd wedi methu â chysylltu a methu â chael eu harian yn ôl er bod yna addewid wedi cael ei wneud i wneud hynny ar y dechrau.

The north to south Wales air service is very important, of course, and consistency of service is extremely important in terms of maintaining passenger numbers and so on, and therefore the fact that Air Links were first of all suspended from continuing the service had a detrimental effect in that regard. But the latest problem is that passengers travelling with Air Links had booked their tickets beforehand and they can't make any contact with the company to be recompensed. I would like a statement from the Minister setting out—Links Air, I do apologise. So, I would like a statement from the Minister informing us exactly what the latest situation is and what the position is for these passengers who have failed to get in touch with the company and haven't been reimbursed, although a pledge was given that that would be done initially.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, this is, as you say, Alun Ffred Jones, a matter for Links Air and it is a matter for Links Air to resolve. We are aware that there have been some difficulties in terms of lack of contact in terms of future bookings with the company before it decided to cease operating the intra-Wales air service in January. Of course, this is wholly unacceptable. We're actively working with the Civil Aviation Authority and Links Air to seek a resolution for passengers, and the economy, science and transport Minister is also considering what other measures the Welsh Government might take if the situation doesn't improve, because she doesn't want to see passengers negatively impacted by the situation.

Wel, wrth gwrs, mae hwn, fel y dywedwch, Alun Ffred Jones, yn fater i Links Air ac mae'n fater i Links Air ei ddatrys. Rydym ni'n ymwybodol y cafwyd rhai anawsterau o ran diffyg cysylltiad o ran archebion yn y dyfodol gyda'r cwmni cyn iddo benderfynu ymatal rhag gweithredu'r gwasanaeth hedfan y tu mewn i Gymru ym mis Ionawr. Wrth gwrs, mae hyn yn gwbl annerbynol. Rydym ni'n mynd ati i weithio gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil a Links Air i geisio cael ateb i deithwyr, ac mae Gweinidog yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth hefyd yn ystyried pa fesurau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd os na fydd y sefyllfa'n gwella, gan nad yw eisiau gweld teithwyr yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y sefyllfa.

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, there was an important announcement from the health Minister last week with the very welcome launch of the new national autism service. Now, over the years I've dealt with numerous parents of children with autism who've been affected by what they feel have been gaps in service provision, and the new joined-up service, I'm sure, will, I hope, tackle this. Now, I know there's not much time left in this Assembly session, but could it be arranged for the health Minister to make an oral statement on these changes, which have the potential to really improve the lives of people with autism across Wales?

Weinidog, cafwyd cyhoeddiad pwysig gan y Gweinidog iechyd yr wythnos diwethaf gyda lansiad y gwasanaeth awtisiaeth cenedlaethol newydd, sydd i'w groesawu'n fawr. Nawr, dros y blynnyddoedd, ryw ymdrin â nifer o rieni plant ag awtisiaeth sydd wedi cael eu heffeithio gan yr hyn y maen nhw'n teimlo oedd yn fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau, ac ryw'n siŵr y bydd y gwasanaeth cydgylltiedig newydd, ryw'n gobeithio, yn mynd i'r afael â hyn. Nawr, ryw'n gwybod nad oes llawer o amser ar ôl yn y sesiwn Cynulliad hwn, ond a ellid trefnu i'r Gweinidog iechyd wneud datganiad llafar ar y newidiadau hyn, sydd â'r potensial i wella o ddirif bywydau pobl ag awtisiaeth ledled Cymru?

13:59

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, can I start by paying tribute to Christine Chapman, the Member for Cynon Valley, for the vigilance with which she has not only responded to her constituents but also raised these issues, particularly in response to the developing services in Wales—pioneering services in terms of autism. It is very welcome—I know that we welcome it across this Chamber—that we have this new national autism service for Wales, providing that lifetime support for children and adults. Of course, that was announced on 4 March. Again, just for the record today, Mark Drakeford, the Minister for Health and Social Services launched this and said that this was a key part of our Welsh Government's refreshed autistic spectrum disorder action plan. And it's subject to consultation, which will give opportunities for you and also Members and all those you represent to respond. Of course, it does go back to, as I said, that original strategic action plan in 2008, and it is backed by £6 million of Welsh Government funding over the next three years.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, a gaf i ddechrau trwy dalu teyrnged i Christine Chapman, yr Aelod dros Gwm Cynon, am y wyliadwriaeth y mae hi wedi ei ddangos nid yn unig wrth ymateb i'w hetholwyr ond wrth godi'r materion hyn hefyd, yn enwedig mewn ymateb i'r gwasanaethau sy'n datblygu yng Nghymru—gwasanaethau arloesol o ran awtistiaeth. Mae i'w groesawu'n fawr—gwn ein bod yn ei groesawu ar draws y Siambra hon—bod y gwasanaeth awtistiaeth cenedlaethol newydd hwn i Gymru gennym ni, yn darparu'r cymorth hwnnw am oes i blant ac oedolion. Wrth gwrs, cyhoeddwyd hydny ar 4 Mawrth. Unwaith eto, dim ond ar gyfer y cofnod heddiw, lansiwyd hwn gan Mark Drakeford, y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a dywedodd bod hyn yn rhan allweddol o gynllun gweithredu ar ei newydd wedd ein Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwyladerau ar y sbectrwm awtistig. Ac mae'n destun ymgynghoriad, a fydd yn rhoi cyfle i chi yn ogystal â'r Aelodau a phawb yr ydych chi'n eu cynrychioli i ymateb. Wrth gwrs, mae'n mynd yn ôl, fel y dywedais, i'r cynllun gweithredu strategol gwreiddiol hwnnw yn 2008, ac mae wedi ei gefnogi gan £6 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd nesaf.

14:01

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I request a statement on school places and the impact of the Welsh Government's 5 per cent surplus places policy from the Minister for education, please, given the emerging crisis we're seeing in Cardiff? I have to declare an interest, Presiding Officer, in that my own son is one of the children affected here. Hundreds of children have been declined their first choice of school; dozens are still left without a place anywhere in their catchment. I've been told, for example, of one instance where a child living in Pentwyn, on the extreme east of the city, has been told to consider a school in Ely, right on the extreme west of the city, a journey that will add three hours to his school day, every single day. That child actually lives closer to Newport than to that particular school. I'm told that Llanishen High School, Fitzalan High School, Cardiff High School, St Teilo's high school and Bishop of Llandaff high school are all massively oversubscribed. This is an entirely predictable crisis. Those children were in primary school previously. The parents quite rightly want to know what is going to be done to resolve this.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i ofyn am ddatganiad am leoedd ysgol ac effaith polisi 5 y cant o leoedd dros ben Llywodraeth Cymru gan y Gweinidog addysg, os gwelwch yn dda, o ystyried yr argyfwng sy'n dod i'r amlwg yng Nghaerdydd? Mae'n rhaid i mi ddatgan buddiant, Lywydd, gan fod fy mab fy hun yn un o'r plant sy'n cael eu heffeithio yma. Mae cannoedd o blant wedi cael gwrtihod eu dewis cyntaf o ysgol; mae dwsinau wedi eu gadael heb le mewn unrhyw fan yn eu dalgylch o hyd. Fe'm hysbyswyd, er enghraift, am un achos lle dywedwyd wrth blentyn sy'n byw ym Mhentwyn, ar begwn dwyreiniol y ddinas, i ystyried ysgol yn Nhrelái, ar begwn gorllewinol y ddinas, taith a fyddai'n ychwanegu tair awr i'w ddiwrnod ysgol, bob dydd. Mae'r plentyn hwnnw'n byw yn agosach at Gasnewydd na'r ysgol benodol honno. Rwy'n clywed bod Ysgol Uwchradd Llanisien, Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Teilo Sant ac Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf i gyd wedi'u gorddansgrifio'n aruthrol. Mae hwn yn argyfwng holol ragweladwy. Roedd y plant hynny yn yr ysgol gynradd yn flaenorol. Mae'r rhieni, a hynny'n ddigon teg, eisiau gwybod beth sy'n mynd i gael ei wneud i ddatrys hyn.

14:02

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a matter for the local authority. I understand it appears to focus on one school, and it is important that local authorities do keep school capacity under review. Obviously, there are rising school populations, but, in terms of the sufficiency of places, while, in some secondary schools in Cardiff, there may be an issue, there are surplus places in others. But it is important to state today that it is for the local authority to ensure sufficiency and to handle this.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mater i'r awdurdod lleol yw hwn. Rwy'n deall ei fod yn ymddangos i fod yn canolbwytio ar un ysgol, ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn parhau i adolygu capaciti ysgolion. Yn amlwg, ceir poblogaethau ysgol sy'n cynyddu, ond, o ran cael digon o leoedd, er, efallai y bydd problem mewn rhai ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd, ceir lleoedd dros ben mewn eraill. Ond mae'n bwysig datgan heddlu mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod digon o leoedd ac i ymdrin â hyn.

14:02

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I call for a statement from the Minister for education on work experience placements in Wales? We all know that work experience is a very valuable thing for young people and, indeed, employers to engage in, but Careers Wales have told me that they were specifically told by the Welsh Labour Government not to fund the health and safety vetting of work experience placements with effect from September last year and that this was specifically removed as part of their remit letter. I've got a copy of the remit letter in front of me in which it is very, very clear that they are not being required to undertake that function any more. The result of this in my own constituency is that many employers now are not able to take work experience placements and that schools are being asked to pick up the tab for this sort of vetting, which was previously funded very successfully and very economically by Careers Wales. Can I ask for a statement to explain the rationale behind this move from the education Minister, and will he reconsider the position in order that this valuable tool for employers and for young people can be reinstated as soon as possible?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the Welsh Government is fully in support, and also welcoming, of private, public and third sector organisations and employers providing that all-important work experience for our young people.

14:04

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

14:04

3. Datganiad: Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the Government and Laws in Wales Bill. First Minister.

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Llywydd. I'd like to make a statement about the draft Government and Laws in Wales Bill, which the Welsh Government published yesterday, together with an explanatory summary.

Weinidog, a gaf i alw am ddatganiad gan y Gweinidog addysg ar lleoliadau profiad gwaith yng Nghymru? Rydym ni i gyd yn gwybod bod profiad gwaith yn rhywbeth gwerthfawr iawn i bobl ifanc ac, yn wir, cyflogwyr i gymryd rhan ynddo, ond mae Gyrfa Cymru wedi dweud wrthyf eu bod wedi eu hysbysu'n benodol gan Lywodraeth Lafur Cymru i beidio ag ariannu'r broses o fetio iechyd a diogelwch lleoliadau profiad gwaith yn effeithiol o fis Medi y llynedd ac y cafwyd gwared ar hyn yn benodol yn rhan o'u llythyr cylch gwaith. Mae gen i gopi o'r llythyr cylch gwaith o fy mlaen lle mae'n gwbl, gwbl eglur nad yw'n ofynnol iddyn nhw gyflawni'r swyddogaeth honno mwyach. Canlyniad hyn yn fy etholaeth i yw nad yw llawer o gyflogwyr yn gallu derbyn lleoliadau profiad gwaith erbyn hyn ac y gofynnir i ysgolion dalu'r bil am y math hwn o fetio, a ariannwyd yn llwyddiannus iawn ac yn ddarbodus iawn gan Gyrfa Cymru yn y gorffennol. A gaf i ofyn am ddatganiad i egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r cam hwn gan y Gweinidog addysg, ac a wnaiff ef ailystyried y sefyllfa fel y gall yr offeryn gwerthfawr hwn i gyflogwyr ac i bobl ifanc gael ei ailgyflwyno cyn gynted â phosibl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi, ac yn croesawu, sefydliadau a chyflogwyr y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sydd yn darparu'r profiad gwaith hollbwysig hwnnw i'n pobl ifanc.

14:04

3. Statement: The Government and Laws in Wales Bill

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Prif Weinidog am y Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru. Brif Weinidog.

14:04

Diolch i chi, Llywydd. Hoffwn wneud datganiad am y Bil draft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ddoe, ynghyd â chrynodeb esboniadol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Since last August, my officials and I have spent a considerable amount of time trying to make the Secretary of State's former draft Wales Bill work. We've done this in the context of the accepted view that the current conferred-powers model should be replaced by a reserved-powers model. It's been widely agreed, most notably by the unanimous vote by this Assembly in response to the Constitutional and Legislative Affairs Committee report, that the proposals on the table from the UK Government are flawed. As we discussed last week, the Secretary of State has announced his intention to modify his draft Wales Bill, and he will not therefore be in a position to introduce it to Parliament until much later in the year. I have, therefore, taken the decision to publish our conclusions on how to make a reserved-powers model for Wales work in the form of our alternative Bill. The Bill reflects an approach that is based on a comprehensive perspective of the governance of Wales in the UK, it's futureproofed in line with Silk commission recommendations, and the law regarding the constitutional status of Wales will be found in a single source document rather than a collection of Acts developed over time.

The perspective of Wales in the UK is shown in our approach to the list of reserved powers laid out in the draft Bill. In our internal discussions we have repeatedly asked ourselves: what are the functions of Government that, for the good of the union and its citizens, should be held at UK level? So, we propose a list of reservations that includes those matters essential to the maintenance and continuing good health of the UK's political, economic and social union. For example, provisions supporting the UK's internal market, or the equity of entitlement to social security benefits, which underpins our common citizenship of the UK, are reserved matters. By taking this principled approach, the number of reservations is kept to an essential minimum.

Conversely, applying the subsidiarity principle recommended by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, we have omitted from the list of reservations those matters where responsibility for decisions should lie at the lowest possible level consistent with their effective implementation, or closest to where they will have their effect. Those matters therefore are devolved responsibilities for what we will, in future, call the Welsh Parliament.

In this way, we think the draft Bill we have published strengthens democracy in Wales within the union; it will make the Welsh Parliament responsible for the matters that most frequently affect people in their daily lives, and make the Members of this place directly accountable to their electorates for discharge of those responsibilities.

Ers mis Awst diwethaf, mae fy swyddogion a minnau wedi treulio cryn dipyn o amser yn ceisio gwneud i Fil Cymru drafat blaenorol yr Ysgrifennydd Gwladol weithio. Rydym ni wedi gwneud hyn yng nghyd-destun y farn a dderbyniwyd y dylai'r model rhoi pwerau presennol gael ei ddisodli gan fodel cadw pwerau. Mae wedi ei gytuno yn eang, yn fwyafr nodig gan bleidlais unfrydol y Cynulliad hwn mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, bod y cynigion a gyflwynwyd gan Llywodraeth y DU yn wallus. Fel y trafodwyd yr wythnos diwethaf, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi ei fwriad i addasu ei Fil Cymru drafat, ac felly ni fydd mewn sefyllfa i'w gyflwyno i'r Senedd ân yn llawer hyvrach yn y flwyddyn. Rwyf i, felly, wedi penderfynu cyhoeddi ein casgliadau ar sut i wneud i fodel cadw pwerau weithio yng Nghymru ar ffur ein Bil amgen. Mae'r Bil yn adlewyrchu dull o weithredu sy'n seiliwig ar safbwyt cynhwysfawr o lywodraethu Cymru yn y Deyrnas Unedig, mae'n ddiogel rhag y dyfodol yn unol ag argymhellion comisiwn Silk, a bydd y gyfraith ynglŷn â statws cyfansoddiadol Cymru ar gael mewn un ddogfen ffynhonnell yn hytrach na chasgliad o Ddeddfau a ddatblygir dros amser.

Dangosir safbwyt Cymru yn y DU yn ein dull o weithredu'r rhestr o bwerau a gadwyd yn ôl a nodir yn y Bil drafat. Yn ein trafodaethau mewnlol, rydym wedi gofyn i'n hunain dro ar ôl tro: pa swyddogaethau Llywodraeth y dylid eu cynnal, er i lles yr undeb a'i dinasyddion, ar lefel y DU? Felly, rydym yn cynnig rhestr o faterion a gedwir yn ôl sy'n cynnwys y materion hynny sy'n hanfodol i gynnali iechyd da parhaus undeb gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y DU. Mae darpariaethau sy'n cefnogi marchnad fewnol y DU, neu ecwiti o'r hawl i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, er enghraift, sy'n sail i'n dinasyddiaeth gyffredin yn y Deyrnas Unedig, yn faterion a gadwyd yn ôl. Drwy ddefnyddio'r dull egwyddorol hwn, mae nifer y materion a gedwir yn ôl yn aros ar leiafswm hanfodol.

I'r gwrthwyneb, trwy gymhwyso'r is-egwyddor a argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rydym wedi hepgor o'r rhestr o faterion a gedwir yn ôl, y materion hynny y dylai'r cyrifoldeb am benderfynu arnynt orwedd ar y lefel isaf bosibl, yn unol â'u gweithredu yn effeithiol, neu ar y lefel sydd agosaf at ble byddant yn cael effaith. Mae'r materion hynny, felly, yn gyrifoldebau datganoledig i'r hyn y byddwn, yn y dyfodol, yn ei alw yn Senedd Cymru.

Yn y modd hwn, rydym yn credu bod y Bil drafat yr ydym wedi ei gyhoeddi yn atgyfnerthu democraciaeth yng Nghymru o fewn yr undeb; bydd yn rhoi cyrifoldeb i Senedd Cymru am y materion sy'n effeithio ar bobl amlaf yn eu bywydau bob dydd, ac yn gwneud Aelodau'r Senedd yn atebol yn uniongyrchol i'w hetholwyr am gyflawni'r cyrifoldebau hynny.

Limiting the number of reservations gives us greater flexibility to meet the challenges of the future. But, by developing a new concept of deferred matters, we want also to futureproof the Bill, to reflect something envisaged by the Silk commission itself: the devolution to the Assembly, in 10 years' time, of responsibility for the civil and criminal law and the administration of justice. In other words, a separate, as opposed to distinct, legal jurisdiction for Wales. In the meantime, there would be a distinct jurisdiction along the lines the Assembly has recently unanimously sought, and the Welsh Parliament would be able to legislate substantively on deferred matters like youth justice unless Parliament disagrees.

As I said in my statement last week, I believe the creation of a legal jurisdiction for Wales is an inevitable constitutional development, and the Bill provides for that. I urge the UK Government to accept this reality and move towards this now, rather than under the pressure of events later on.

Thirdly, as Members will see, we have brought together all the relevant provisions into a single document. So the Welsh Government's draft Bill is a consolidation, but it is more than that, because we have included new drafting to reflect the requests for additional powers for the Assembly, which we have asked for, as well as, for example, incorporating two Measures passed by the last Assembly that are clearly relevant to the constitutional settlement.

My hope is that presenting the settlement in a single, logically ordered document will enable people in Wales to gain a much clearer understanding of what devolution is and how it works. And, I believe calling this place the Welsh Parliament should also aid that understanding.

So, what should happen now? In my letter to the Secretary of State yesterday, I said that our Bill cannot represent the last word on the issues, and that I will be happy to discuss the proposals further with him at an appropriate time. His decision to defer introducing his Bill into Parliament perhaps allows us the space for that. And I stress, once again, the need for us to proceed in a collaborative way. Restructuring of the devolution settlement must be done with Wales, not for Wales.

Llywydd, I do believe that legislation along the lines of the Welsh Government's Bill could provide a constitutional basis for the governance of Wales in the UK in the long term. It would meet the tests of clarity, coherence, stability, workability and sustainability, which the Secretary of State has identified as the requirements for an enduring settlement, and of course I agree with him on that.

Finally, let me say this: over the last two or three years, we have made some progress in developing devolution in a desirable way, and we have been able to do so by securing a good measure of cross-party consensus in this Chamber on the key issues. I hope that we can maintain that consensus, and that this Bill can provide a new vehicle for that.

Mae cyfyngu ar nifer y materion a gedwir yn ôl yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni gwrdd â heriau'r dyfodol. Ond, trwy ddatblygu cysyniad newydd o faterion gohiriedig, rydym hefyd eisiau gwneud y Bil yn ddiogel rhag y dyfodol, i adlewyrchu rhywbeth a ragwelir gan y comisiwn Silk ei hun: datganoli i'r Cynulliad, ymhent 10 mlynedd, gyfrifoldeb am y gyfraith sifil a throseddol a gweinyddu cyflawnder. Mewn geiriau eraill, awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, yn hytrach nag arbennig, i Gymru. Yn y cyfamser, byddai awdurdodaeth arbennig ar y trywydd y mae'r Cynulliad wedi ei geisio yn unfrydol yn ddiweddar, a byddai Senedd Cymru yn gallu deddfu'n barhaol ar faterion gohiriedig, megis cyflawnder ieuencid, oni bai fod y Senedd yn anghytuno.

Fel y dywedais yn fy natganiad yr wythnos diwethaf, credaf fod creu awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghymru yn ddatblygiad cyfansoddiadol anochel, ac mae'r Bil yn darparu ar gyfer hynny. Rwyf yn annog Llywodraeth y DU i dderbyn y gwirionedd hwn a symud tuag at hyn yn awr, yn hytrach nag o dan bwysau digwyddiadau yn nes ymlaen.

A gaf i ddechrau drwy ddweud fy mod i'n credu ei bod yn gwbl briodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r drafft a welwn ger ein bron heddiw? Os yw rhywun yn beirniadu gweithredoedd Llywodraeth, ac yr ydych yn dweud nad ydych yn hoffi'r hyn sy'n cael ei gynnig, a'r hyn y maent wedi ei gyflwyno, mae'n ddyletswydd, byddwn i'n ei ddweud, dod o hyd i ddewis arall. Felly, rwy'n credu ei fod yn holol dderbyniol, ac yn wir, y peth iawn i fod wedi ei wneud, i ddweud, 'Wel, os nad yw hynny'n gweithio—yr hyn sy'n cael ei gynnig gan Lundain—dyma ddewis arall.' Ac yn fy marn i, mae'n ffurfio'r sail i ddadl y gallwn ei chynnal yma, yngylch pa ffurf y dylai Bil Cymru ei gymryd, ac y gallai ddarparu'r hyn y mae pob un ohonom yn ei ddymuno, ar draws y Siambwr hon, sef setliad sydd yn gynaliadwy, yn hirdymor, ac yn darparu eglurder—eglurder i Lywodraeth Cymru yngylch ei swyddogaethau a'i chyfrifoldebau, ac eglurder i gyhoedd Cymru am yr hyn y gallant ei ddisgwyl i'r Llywodraeth honno ei wneud ar eu rhan, ac yn drist iawn bu'r eglurder hwnnw ar goll.

Yn y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, rwyf yn croesawu'r ffaith ei fod yn creu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, a wasanaethir gan farnwriaeth a llys cyffredin, yn cynnwys datganoli'r doll teithwyr awyr ac ardoll agregau, pwerau dros wyliau banc, yn ogystal â chadarnhau Senedd Cymru yn barhaol yng nghyfansoddiad y DU. Rwyf hefyd yn cefnogi honiad y Prif Weinidog yn ei ddatganiad heddiw, bod Llywodraeth Cymru, wrth sôn am bwerau a gedwir yn ôl, wedi edrych ar yr egwyddor o sybsidiaredd, er mwyn ceisio lleihau nifer y pwerau a gedwir yn ôl, ac mae hynny yn sicr yn rhestr fyrrach o lawer nag a gynigwyd yn flaenorol gan San Steffan. Ond mae pwerau sylwedol wedi eu cadw yn ôl o hyd, ac, unwaith eto, byddai'n ddefnyddiol cael dealltwriaeth ehangach o pam mae'r Llywodraeth wedi gwneud y penderfyniadau hynny ar y materion penodol hynny.

Rwy'n falch o gael eglurder gan y Prif Weinidog o ran safbwyt ei blaid ar ddatganoli plismona. Rwy'n falch eich bod wedi gallu rhoi Mr Burnham yn ôl yn ei focs. Mae pob plaid wleidyddol yn cael trafferthion o bryd i'w gilydd gyda'u cydweithwyr yn San Steffan wrth esbonio wrthynt sut mae datganoli'n gweithio—nid oes yr un ohonom yn ddiogel rhag hynny—ac rwy'n falch eich bod chi wedi gallu rhoi eglurder heddiw.

O ran y symudiad i ddatganoli llysoedd, yr heddlu, gweinyddu cyflawnder, cyfraith teulu a chyfraith troseedd erbyn 2026, pa mor realistig yw hynny yn ôl y Prif Weinidog? Dywedaf hynny yng nghyd-destun Silk, wrth gwrs, a ddywedodd y dylai cyflawnder ieuengtid fod wedi ei ddatganoli i'r Senedd hon ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac y dylem, erbyn 2018, fod yn adolygu ac yn datganoli carchardai a'r gwasanaeth prawf, ac, erbyn 2025, byddem ni wedi cyflawni a gweithredu adolygiad o ddatganoli agweddu ar gyflawnder yn ddeddfwriaethol. Felly, gwnaed yr addewid hwn i ni o'r blaen, ac rwyf yn gofyn a fyddai'r Prif Weinidog yn hoffi amlinellu sut y gellir cyflawni hyn yn ei dyb ef.

Can I, therefore, turn to the issue of income tax? If this is not a veto by the Welsh Labour Party, then why is it included in the draft before us? It seems to me that we have now—. Having seen off the issue of the lockstep, and having seen off the issue of a need to have a referendum to convey these powers to the Welsh Government and the National Assembly for Wales, why then put this retrograde step of a two thirds majority vote into this document? If it is not a veto by Welsh Labour, if Welsh Labour are committed to these powers coming here, then why is it in there? I would ask the First Minister to reflect once again on the appropriateness of the inclusion of that in this document.

Can I conclude by saying: this place, and the progress of devolution, is at its best when progressive forces come together and speak with one voice? That is when we move things forward for our nation. We can all be a bit uppity today and have our noses put out of joint because you didn't ask us first, but we are where we are, and I would ask the First Minister what mechanisms he will now employ to ensure that we can speak with one voice as much as possible from this Chamber in taking this forward. Because that is when we make a real difference, that is when we make real progress and that is when we will have some opportunity of convincing colleagues in Westminster that the approach offered here is one that will deliver the sustainable and lasting devolution settlement that we all want.

A gaf i, felly, droi at fater treth incwm? Os nad yw hyn yn feto gan Blaid Lafur Cymru, yna pam mae'n gynwysedig yn y drafft sydd ger ein bron? Mae'n ymddangos i mi fod gennym erbyn hyn—. Ar ôl datrys y mater o gamu clos, ac ar ôl datrys y mater o angen refferendwm i drosglwyddo'r pwerau hyn i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, pam felly gynnwys y cam hwn yn ôl o gael pleidais mwyafri'r ddwy ran o dair yn y ddogfen hon? Os nad yw'n feto gan Blaid Lafur Cymru, os yw Plaid Lafur Cymru wedi ymrwymo i ddod â'r pwerau hyn yma, pam felly ei fod yno? Byddwn i'n gofyn i'r Prif Weinidog edrych unwaith eto ar briodoldeb cynnwys hyn yn y ddogfen hon.

A gaf i gloi drwy ddweud hyn: mae'r sefydliad hwn, a'r cynnydd tuag at ddatganoli, ar ei orau pan fydd grymoedd blaengar yn dod at ei gilydd ac yn siarad ag un llais? Dyna pryd yr ydym yn symud pethau ymlaen ar gyfer ein cenedl. Gallwn ni i gyd fod braidd yn fawreddog heddiw a theml cam oherwydd na wnaethoch chi ofyn i ni yn gyntaf. Ond dyma'r sefyllfa yr ydym ynddi. A byddwn i'n gofyn i'r Prif Weinidog pa ddulliau y bydd yn awr yn eu defnyddio i sicrhau ein bod yn gallu siarad ag un llais cymaint â phosibl o'r Siambri hon wrth fwrw ymlaen â hyn. Oherwydd dyna pryd y byddwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, dyna pryd y byddwn yn gwneud cynnydd gwirioneddol a dyna pryd y byddwn yn cael rhywfaint o gyfle i argyhoeddi cydweithwyr yn San Steffan fod y dull a gynigir yma yn un a fydd yn cyflawni'r setliad datganoli cynaliadwy a pharhaol yr ydym ni'n ei ddymuno.

14:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the leader of the Liberal Democrats for her comments. She mentions the jurisdiction. I think it's worth emphasising that there are some who say, 'Well, the jurisdiction has served us well for centuries.' It did, but we have to remember that when the jurisdiction was put in place in 1536—there are some upstairs in my office who are now shaking their heads when I start talking in this way—it replaced three different legal systems in what we now call Wales—Marcher law, English law and Welsh law. The jurisdiction was not England and Wales, it was England. It was set up on the basis that there would be not just no Welsh Parliament ever again, but no Wales or Welsh language ever again. The Welsh language was to be—and I use the words in the legislation—'utterly extirpated', as it was described in Tudor times. But, the reality is, we saw the passing—I use the Sunday Closing (Wales) Act 1881, the Welsh Courts Act 1942, the Welsh Language Act 1967—of some Welsh legislation, now we are seeing significant Welsh legislation being passed—24 Acts in the course of this Assembly. That shows the current arrangements of the jurisdiction no longer work, because it was set up on the basis that there was one Parliament and one set of laws; that's no longer the case. In every other part of the common law world, a new jurisdiction has always been set up, without exception, whenever a legislature has been set up; this is the abnormal situation that we have in England and Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn diolch i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei sylwadau. Mae hi'n sôn am yr awdurdodaeth. Rwy'n credu bod gwerth pwysleisio bod rhai sy'n dweud, 'Wel, mae'r awdurdodaeth wedi ein gwasanaethu ni'n dda ers canrifioedd.' Mae hynny'n wir, ond mae'n rhaid i ni gofio pan roddwyd yr awdurdodaeth ar waith yn 1536—mae yna rai i fyny'r grisiau yn fy swyddfa sy'n ysgwyd eu pennau erbyn hyn pan fyddaf yn dechrau siarad yn y ffordd hon—iddi ddisodli tair system gyfreithiol wahanol yn yr hyn yr ydym erbyn hyn yn ei alw'n Gymru—cyfraith y Mers, cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr. Nid awdurdodaeth Cymru a Lloegr oedd hi, ond awdurdodaeth Lloegr. Fe'i sefydlwyd ar y sail, nid yn union na fyddai Senedd Cymru yn bodoli byth eto, ond na fyddai unrhyw Gymru nac iaith Gymraeg byth eto ychwaith. Roedd yr iaith Gymraeg am gael ei—a defnyddiaf y geiriau yn y ddeddfwriaeth—ei 'difa yn llwyr', fel y'i disgrifiwyd yn oes y Tuduriaid. Ond, y gwir amdani yw, gwelsom dderbyn—rwy'n defnyddio Deddf Cau Tafarnau ar y Sul (Cymru) 1881, Deddf Llysoedd Cymru 1942, Deddf yr iaith Gymraeg 1967—rhywfaint o ddeddfwriaeth i Gymru, ac rydym bellach yn gweld ddeddfwriaeth arwyddocaol i Gymru yn cael ei derbyn—24 Deddf yn ystod oes y Cynulliad hwn. Mae hynny'n dangos nad yw trefniadau presennol yr awdurdodaeth yn gweithio mwyach, oherwydd iddi gael ei sefydlu ar y sail bod un Senedd ac un gyfres o ddeddfau; nid yw hynny'n wir erbyn hyn. Ym mhob rhan arall o fyd y gyfraith gyffredin, sefydlwyd awdurdodaeth newydd bob tro, yn ddieithriad, pryd bynnag y sefydlwyd ddeddfwra; dyma'r sefyllfa annormal sy'n bodoli yng Nghymru a Lloegr.

The second point that she raises, in terms of the 10-year lead in—. Well, that is in accordance with what Silk said. Let's not pretend that the devolution of justice is easy or that it can be done quickly. At the very beginning, we have to set up the expertise within Government to deal with issues of justice and to deal with the penal system, and that does take a long lead-in time. So, I think it's a reasonable period of time—that 10-year period—in order to see justice devolved.

In terms of where we go next with this, this Bill is on the table for genuine discussion. We don't offer this as a take-it-or-leave-it Bill; this is a document that, we hope, will form the basis for discussion about Wales's constitutional future, and we hope it will be in the thinking of the UK Government as they look to provide a draft Bill for the future. This is our contribution to the debate and to what's passed thus far for negotiation.

On the point of income tax, again, it is not the intention of my party not to support the devolution of income tax. She says to me, 'Take it out'. Well, we can have that discussion, certainly, in the future, but it's not something, certainly, that occurred to me at the time, given my party's stance on this. As I said, income tax devolution is moving forward. There's still a lot of ground to cover yet with the Treasury, which seems to think there is absolutely no correlation at all between what's happened in Scotland and what might be proposed for Wales. Nevertheless, if those discussions start with Treasury Ministers, that will be a start to the process. But, certainly from our perspective, the issue of income tax is not an issue in terms of my party opposing it.

Yr ail bwynt a godwyd ganddi, o ran y cyfnod arweiniol o 10 mlynedd —. Wel, mae hynny yn unol â'r hyn a ddywedodd Silk. Gadewch i ni beidio ag esgus bod datganoli cyflawnder yn hawdd neu y gellir ei wneud yn gyflym. Ar y cychwyn cyntaf, mae'n rhaid i ni sefydlu arbenigedd o fewn y Llywodraeth i ymdrin â materion cyflawnder, ac i ymdrin â'r system gosbi, ac mae hynny'n cymryd cyfnod arweiniol hir. Felly, mae'n gyfnod rhesymol yn fy marn i—y cyfnod o 10 mlynedd hwnnw—er mwyn datganoli cyflawnder.

O ran ein camau nesaf yn hyn o beth, mae'r Bil hwn wedi ei gyflwyno i'w drafod yn ddilys. Nid ydym yn cynnig y Bil hwn fel un i'w dderbyn neu'i wrthod; mae'n ddogfen a fydd, gobeithio, yn ffurfio sail ar gyfer trafodaeth am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru, ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn ei ystyried wrth lunio Bil drafft ar gyfer y dyfodol. Dyma ein cyfraniad at y ddadl ac at yr hyn sydd wedi ei dderbyn i'w gyd-drafod hyd yn hyn.

O ran treth incwm, unwaith eto, nid yw'n fwriad gan fy mhlaid i beidio â chefnogi datganoli treth incwm. Mae hi'n dweud wrthyf, 'Tynnwch ef allan'. Wel, gallwn drafod hynny, yn sicr, yn y dyfodol, ond nid yw'n rhywbeth, yn sicr, a'm tarodd i ar y pryd, o ystyried safbwyt fy mhlaid ar hyn. Fel y dywedais, mae datganoli treth incwm yn symud ymlaen. Mae llawer o drafod i'w wneud eto gyda'r Trysorlys, sydd i'w weld yn ystyried nad oes unrhyw gydberthynas o gwbl rhwng yr hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban a'r hyn y gellid ei gynnig i Gymru. Serch hynny, os yw'r trafodaethau hynny yn dechrau gyda Gweinidogion y Trysorlys, bydd hynny yn cychwyn ar y broses. Ond, yn sicr o'n safbwyt ni, nid yw mater treth incwm yn broblem o ran fy mhlaid yn ei wrthwynebu.

14:40

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've had a speaker from each party, and lots of detailed questions and answers, so can we be a little concise now? Alun Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym wedi cael siaradwr o bob plaid, a llawer o gwestiynau ac atebion manwl, felly a allwn fod yn gryno yn awr? Alun Davies.

14:40

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. I think, like others in the Chamber this afternoon, I very much welcome the publication of this draft Bill and also the fact that the First Minister has come to this Chamber to make this statement today, our first sitting day after its publication. I very much welcome the tone of the contributions from the leader of the Welsh Conservatives and the leader of the Welsh Liberal Democrats in focusing on the big issues we have here to face.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Credaf, fel eraill yn y Siambro y prynhawn yma, fy mod i'n croesawu cyhoeddiad y Bil drafft hwn yn fawr a'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi dod i'r Siambro hon i wneud y datganiad hwn heddiw, y diwrnod cyntaf inni eistedd ers ei gyhoeddi. Croesawaf yn fawr nawys y cyfraniadau gan arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig ac arweinydd Democratioaid Rhyddfrydol Cymru wrth ganolbwyntio ar y materion mawr sy'n ein hwynebu ni yma.

First Minister, you have in this draft Bill linked the issues of the devolution of justice and the police. It might be useful for you to outline why you did that. In the past, we have argued that we don't need to link those two issues in terms of their devolution, and the devolution of the police could happen on a much quicker timescale. I very much welcome—I think like many others do—a principled approach to dealing with reservations. One of the great intellectual weaknesses of the Bill drafted by the Secretary of State was the lack of any principled approach to reservations, and I think that does set up a far, far more sustainable process. However, in terms of timescales, we are looking at a very, very long timescale here for the devolution of these powers. The date of 2021, I think, is too distant for some of those powers to come here, and 2026 for the exercising of other powers would be a step too far. I'm concerned about the length of time it's going to take to devolve issues over our electoral arrangements and the internal architecture of this place. We're already seeing changes to the electoral system put in train by the United Kingdom Government; if this place wishes to amend the way we elect Members here, we could see two significant, substantial changes to the electoral system in Wales in successive Parliaments and Assemblies. So, I think we do need to look at how we move forward on these agreed matters on a timescale that is far faster than is available to us.

A final subject would be that of the UK structures that could be put in place to sustain a settled and stable devolution settlement. You've spoken, and others have spoken today, about the devolution of income tax powers; I'm somebody who wants to see those powers devolved as soon as possible, and used to sustain Welsh public services. But if we are to do that, then we must have a stable financial settlement in the United Kingdom that isn't dependent on the diktat of the Treasury. The UK Government has already established the Office for Budget Responsibility to provide an independent oversight of some aspects of the Treasury's work. It must now be time that we also look at the Australian model, of the Commonwealth Grants Commission, to look at how the funding of the Welsh Government, the Scottish Government and the Northern Ireland Executive is done independently of the Treasury and independently of the United Kingdom Government. If we are to find the stability that we need, then we must have the structures that establish a federal state in the United Kingdom and not simply rely on the United Kingdom state and United Kingdom departments to be judge and jury wherever there are issues between the different structures that now exist in the United Kingdom.

Brif Weinidog, yn y Bil draft hwn, rydych chi wedi cysylltu materion datganoli cyflawnder a'r heddlu. Gallai fod yn ddefnyddiol i chi amlinellu pam y gwnaethoch chi hynny. Yn y gorffennol, rydym ni wedi dadlau nad oes angen i ni gysylltu'r ddau fater hynny o ran eu datganoli, a gallai datganoli'r heddlu ddigwydd ar amserlen llawer cyflymach. Ryw yn croesawu'n fawr iawn—fel y mae llawer o bobl eraill hefyd—ddull o ymdrin â phwerau a gedwir yn ôl wedi ei seilio ar egwyddorion. Un o wendidau deallusol mawr y Bil a ddrafftwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol oedd diffyg dull ar sail egwyddorion i'r pwerau a gedwir yn ôl, a chredaf fod hynny yn sefydlu proses lawer, lawer mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, o ran amserlenni, rydym yn edrych ar amserlen hir iawn, iawn yma o ran datganoli'r pwerau hyn. Mae 2021, yn fy marn i, yn rhy bell i ffwrdd i rai o'r pwerau hynny ddod yma, a byddai 2026 ar gyfer arfer pwerau eraill yn gam yn rhy bell. Ryw'n pryderu am faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddatganoli materion ein trefniadau etholiadol a phensaerniäeth mewnol yn y lle hwn. Rydym eisoes yn gweld newidiadau i'r system etholiadol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig; os yw'r Cynulliad yn dymuno newid y ffordd yr ydym yn ethol Aelodau yma, gallem weld dau newid arwyddocaol, sylweddol i'r system etholiadol yng Nghymru mewn Seneddau a Chynulliadau olynol. Felly, credaf fod angen i ni edrych ar sut yr ydym yn symud ymlaen ar y materion hyn a gytunwyd ar amserlen sy'n llawer cyflymach nag sydd ar gael i ni.

Byddai pwnc terfynol yn trafod strwythurau y DU y gellid eu rhoi ar waith i gynnal setliad datganoli sefydlog a chadarn. Rydych chi wedi siarad, ac mae eraill wedi siarad heddiw, ynglych datganoli pwerau treth incwm; ryw ynnau yn rhywun sydd am weld y pwerau hynny wedi eu datganoli cyn gynted ag y bo modd, a'u ddefnyddio i gynnal gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Ond os ydym am wneud hynny, mae'n rhaid i ni gael setliad ariannol sefydlog yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ddibynnol ar ddictad y Trysorlys. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi sefydlu Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddarparu goruchwyliaeth annibynnol o rai agweddu ar waith y Trysorlys. Mae'n rhaid i ni nawr edrych hefyd ar fodel Awstralia, Comisiwn Grantiau'r Gymanwlad, i edrych ar sut i gyllido Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn annibynnol ar y Trysorlys ac yn annibynnol ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Os ydym am gael y sefydlogwydd sydd ei angen arnom, mae'n rhaid i ni gael y strwythurau sy'n sefydlu gwladwriaeth federal yn y Deyrnas Unedig ac nid dibynnu ar wladwriaeth y Deyrnas Unedig ac adrannau y Deyrnas Unedig i farnu lle bynnag y bydd problemau rhwng y gwahanol strwythurau sy'n bodoli erbyn hyn yn y Deyrnas Unedig.

14:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Can I thank my friend, the Member for Blaenau Gwent, for his questions? He is right to say that I have said that policing could be devolved earlier. I still believe that's possible, but, as part of the Wales Bill, what I decided to do was to bundle up policing back with justice so that the whole thing could be devolved as a package in 2026. There is an element of compromise both ways, of course, as the Bill is drafted.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i ddiolch i fy ffrind, yr Aelod dros Flaenau Gwent, am ei gwestiynau? Mae'n gywir i ddweud fy mod i wedi dweud y gellid datganoli plismona yn gynharach. Ryw'n dal i greed bod hynny'n bosibl, ond, fel rhan o Fil Cymru, penderfynais gadw plismona i'w gynnwys yn ôl gyda chyflawnder er mwyn gallu datganoli'r pecyn cyfan yn 2026. Mae yna elfen o gyfaddawd y ddwy ffordd, wrth gwrs, wrth i'r Bil gael ei ddrafftio.

He shares my concern about the timescale here. It was suggested by the Secretary of State that new powers could be introduced halfway through the term of the next Assembly; it now seems that isn't possible. We are not in control of the timetable, unfortunately, and there's no clarity now as to when the new powers would actually be brought into being. It seems now that it would be from 2021 onwards.

In terms of income tax devolution, the reality is it doesn't need legislation, the Treasury could just impose it on us on their own terms, and that is something that concerns us, because we have given the view time and time again to the Treasury that we need to make sure that the financial floor is in place first before we can then discuss what the framework is for income tax devolution. They take the opposite view. Now, that will have to be resolved soon, and the fact that they have come to an agreement with Scotland over the fiscal framework, which they seem to think doesn't apply in any way to Wales—well, it's naïve to think that that is the case—that approach will need to be taken to Wales as well. Of course, they have, if I remember rightly, as part of the fiscal framework in Scotland, accepted an element of independent arbitration, and I welcome that; I've made this point in the joint ministerial committee several times. The dispute resolution process in the joint ministerial committee goes through several stages and ends up with the UK Government. So, effectively, if you're in dispute with the UK Government, the UK Government decides the dispute anyway. That again is not an acceptable situation to be in, and that was the case before the current Government was in place. It's not a party political point; that's been the reality for a while, and that can't be right for the future.

So, we expect the Treasury to approach the discussions on the Welsh fiscal framework using the same principles and then coming to the same conclusions as were accepted as far as Scotland was concerned. There is no justification for doing otherwise, and we look forward to UK Treasury Ministers actually wanting to meet with our Ministers in order to discuss these issues.

Mae'n rhannu fy mhryder i yngylch yr amserlen yma. Awgrymwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y gellid cyflwyno pwerau newydd hanner ffordd drwy dymor y Cynulliad nesaf, mae'n ymddangos nad yw hynny'n bosibl bellach. Nid oes rheolaeth gennym dros yr amserlen, yn anffodus, ac nid oes eglurder bellach o ran pryd y byddai'r pwerau newydd yn dod i rym. Mae'n ymddangos nawr y byddai hynny o 2021 ymlaen.

O ran datganoli treth incwm, y gwir amdani yw nad oes angen deddfwriaeth. Gallai'r Trysorlys orfodi hyn arnom ar ei delerau ei hun, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n peri pryerdi i ni, oherwydd ein bod wedi mynegi ein barn wrth y Trysorlys dro ar ôl tro, bod angen i ni sicrhau bod y sylfaen ariannol gennym yn gyntaf cyn y gallwn wedyn drafod y fframwaith ar gyfer datganoli treth incwm. Maen nhw'n credu i'r gwrthwyneb. Nawr, bydd yn rhaid datrys hynny yn fuan, ac mae'r ffaith eu bod wedi dod i gytundeb gyda'r Alban am y fframwaith cyllid, nad ydynt yn meddwl ei fod yn gymwys i Gymru mewn unrhyw ffordd—wel, mae'n naïf meddwl bod hynny yn wir—bydd angen i Gymru ddefnyddio'r dull hwnnw hefyd. Wrth gwrs, maent, os cofiaf yn iawn, yn rhan o'r fframwaith cyllid yn yr Alban, wedi derbyn elfen o gyflafareddu annibynnol, a chroesawaf hynny; rwyf i wedi gwneud y pwnt hwn i'r cyd-bwyllgor gweinidogol sawl gwaith. Mae'r broses datrys anghydfod yn y cyd-bwyllgor gweinidogol yn mynd trwy sawl cam ac yn gorffen gyda Llywodraeth y DU. Felly, i bob pwrras, os ydych yn rhan o anghydfod gyda Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth y DU yn penderfynu ar yr anghydfod beth bynnag. Nid yw hynny yn sefyllfa dderbyniol i fod yn ddi, a dyna oedd y sefyllfa cyn y Llywodraeth bresennol. Nid yw'n bwnt plaid wleidyddol; hynny fu'r realiti am sbel, ac ni all hynny fod yn iawn ar gyfer y dyfodol.

Felly, rydym yn disgwyl i'r Trysorlys drafod fframwaith cyllid Cymru gan ddefnyddio'r un egwyddorion a chyrraedd yr un casgliadau ag a dderbyniwyd gan yr Alban. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros wneud fel arall, ac edrychwn ymlaen at yr adeg pan fydd Gweinidogion Trysorlys y DU yn awyddus i gwrdd â'n Gweinidogion er mwyn trafod y materion hyn.

14:46

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf innau ddiolch i'r Prif Weinidog am ymateb i'r rhai ohonom ni a ofynnodd yn y pwylgor cyfansoddiadol am i Lywodraeth Cymru gynhyrchu ei Bil ei hun i bwysleisio a dangos methiant Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddeddfu'n briodol yn y fan yma? Mae'r hyn sydd ger ein bron ni, am y tro cyntaf erioed, yn ymgais glodwiw yn fy marn i—rwy'n rhoi B+ iddo fo fel mae'n ymddangos ar hyn o bryd—i greu cyfansoddiad sydd wedi ei gydlynw a'i gyfnherthu, ond mae yna un peth sydd ar goll yma, Brif Weinidog, a charwn i gael eich ymateb chi i hyn. Pryd ydym ni'n mynd i gyd-ddeddfu? Nid mater i ddwy Lywodraeth y dylai hwn fod yn unig; mae hwn yn fater i ddwy Senedd. Dewch i ni feindio ffordd greadigol o gael ein cydweithwyr yn San Steffan—ac roeddwn i ymhli'r rhoi ohonyn nhw ddoe, o blaid y bobl yma hefyd, rhoi ohonyn nhw—a fyddai'n barod i ystyried cyd-ddeddfu gyda ni, oherwydd fel hyn y gwnawn ni ddatrys y dryswch yma rydym ni wedi glanio ynddo fo.

Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I thank the First Minister for responding to those of us who requested in the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the Welsh Government produce its own Bill to emphasise the failure of the UK Government to legislate properly in this area? What is before us, for the first time ever, is a praiseworthy attempt in my opinion—I give it a B+ as it currently appears—to create a constitution that is co-ordinated and that is robust, but there is one thing missing here, First Minister, and I would appreciate your response on this. When are you going to legislate jointly? This shouldn't be a matter just for two Governments; this is a matter for two Parliaments. Let's find a creative way of getting our colleagues in Westminster—and I was with some of them yesterday, and some of them were in support of these people here—who would be willing to legislate jointly with us, because that is how we will resolve this confusion that we find ourselves in.

Rhodri Glyn Thomas took the Chair.

14:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? Mae'n iawn, wrth gwrs, fod yna rôl sylweddol a chryf i'r Senedd hon, ac wrth gwrs rôl i Senedd y Deyrnas Unedig—nid dim ond rhywbeth i Lywodraethau yn unig yw hwn. Rwy'n gwybod bod y Llywydd ei hun wedi bod yn rhan o'r trafodaethau sydd wedi cymryd lle, ac rydym yn edrych ymlaen at weld unrhyw sylwadau sydd gan Aelodau o'r Cynulliad ar y Mesur sydd o'u blaenau nhw—y Mesur rydym ni wedi ei gyflwyno—yn y pen draw.

14:48

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the Bill as well, and I agree with the comments by Dafydd Elis-Thomas that it is up to the two Parliaments to come to an agreement on what should be the detail of the content. I just want to ask you about Schedule 7 on reserved and deferred matters in relation to the authorisation of activity relating to the generation, transmission, distribution and supply of electricity. I'm just wondering why we haven't talked about the possibility of allowing the Welsh Parliament to be involved in the regulation of energy, because it's very important that we have the powers to ensure that people aren't just wasting electricity in order to both meet our environmental obligations, and to ensure our future prosperity. So, I just wondered if I could push you a little bit further on that, particularly in light of the future technology around storage, which could enable us to export a lot more energy.

14:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The reservation in the draft Bill talks about a reservation to the UK Government of the regulation of the electricity market. When it comes to energy conservation, that wouldn't be caught. So, if we encourage people to conserve more energy, that is something that we do already, but that wouldn't be caught by that reservation; it simply deals with the way the market operates. I can give the Member the assurance that an exception to the reservation would mean that we have both legislative and executive competence to consent to electricity-generating stations, with the exception of nuclear-powered stations. The exceptions would also ensure that Welsh Ministers would be able to consent to the installation of distribution electricity lines. The point's been made, and she has made the point before, that a situation could arise where Welsh Government consent was given to a particular energy-generating plant, only for it to be stymied by the fact that the transmission was then not approved by the UK Government. The two things obviously run together and the Bill seeks to resolve that.

14:50

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I thank the Member for his comments? It's right that there is a significant and strong role for this Parliament, and also a role for the UK Parliament—this is not just for Governments alone. I know that the Presiding Officer herself has been part of the discussions that have taken place, and I look forward to hearing the comments of Assembly Members on the draft Bill that is before them—the Bill that we have introduced.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf innau yn croesawu'r Bil hefyd, ac yn cytuno â sylwadau Dafydd Elis-Thomas bod yn rhaid i'r ddwy Senedd ddod i gytundeb ar y manylion yn y ddogfen. Hoffwn i ofyn i chi am Atodlen 7 ar faterion a gadwyd yn ôl ac a ohiriwyd o ran awdurdodi gweithgarwch sy'n ymwneud â chynhyrchu, trosgwyddo, dosbarthu a chyflenwi trydan. Rwy'n ystyried pam nad ydym wedi sôn am y posibilrwydd o ganiatáu i Senedd Cymru gael rhan mewn rheoleiddio ynni, gan ei fod yn bwysig iawn bod gennym y pwerai i sicrhau nad yw pobl yn gwastraffu trydan er mwyn diwallu ein rhwymedigaethau amgylcheddol, ac i sicrhau ein bod yn ffynnu yn y dyfodol. Felly, rwyf yn holi tybed a allwn i'ch gwthio chi ychydig ymhellach ar hynny, yn enwedig o ystyried y dechnoleg yn y dyfodol o ran storio, a allai ein galluogi ni i allforio llawer mwy o ynni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r pwerai a gadwyd yn ôl yn y Bil drafft yn sôn am gadw rheoleiddio'r farchnad drydan yn ôl i Lywodraeth y DU. O ran cadwraeth ynni, ni fyddai hynny'n cael ei ddal. Felly, os ydym yn annog pobl i arbed mwy o ynni, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei wneud eisoes, ond ni fyddai'n cael ei ddal gan y pŵer a gadwyd yn ôl; mae'n ymwneud yn syml â'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithredu. Gallaf sicrhau yr Aelod y byddai eithriad i'r pŵer a gadwyd yn ôl yn golygu bod gennym gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol i gydysnio i orsafoedd trydan, ac eithrio gorsafoedd niwclear. Byddai'r eithriadau hefyd yn sicrhau y gallai Gweinidogion Cymru gydysnio i osod llinellau dosbarthu trydan. Gwnaed y pwnt, fel y gwnaeth hi o'r blaen, y gellid cael sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru yn cydysnio i safle penodol ar gyfer cynhyrchu ynni, dim ond iddo gael ei atal oherwydd nad yw Llywodraeth y DU yn cymeradwyo'r trosgwyddo. Mae'r ddau beth yn amlwg yn cyd-redeg ac mae'r Bil yn ceisio datrys hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, First Minister.

14:50

4. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 4, Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i wneud y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5985 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 yn cael eu llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2016.

Cynigiwyd y cynnig.

14:50

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Formally move.

14:50

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Nid oes neb wedi gofyn am siarad ar y rheoliadau hyn. Felly, y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig? A oes unrhyw wrthwynaebiad? Felly, derbynnyr y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

14:50

5. Cyfnod 4 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 5, Cyfnod 4 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i wneud y cynnig—Jane Hutt.

Cynnig NDM5997 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

Cynigiwyd y cynnig.

4. The Water Resources (Control of Pollution) (Oil Storage) (Wales) Regulations 2016

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 4, the Water Resources (Control of Pollution) (Oil Storage) (Wales) Regulations 2016. I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Motion NDM5985 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Water Resources (Control of Pollution) (Oil Storage) (Wales) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 9 February 2016.

Motion moved.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Minister. I have no speakers on these regulations. Therefore the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. Stage 4 of the Tax Collection and Management (Wales) Bill

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 5: Stage 4 of the Tax Collection and Management (Wales) Bill. I call on the Minister for Finance and Government Business to move the motion—Jane Hutt.

Motion NDM5997 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Approves the Tax Collection and Management (Wales) Bill.

Motion moved.

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Diolch, acting Presiding Officer. In moving the motion, I'd like to focus on the significance of the legislative step forward we're taking today. The Tax Collection and Management (Wales) Bill looks to the future. It provides us with the essential infrastructure for our new devolved tax responsibilities, including the powers to establish the Welsh revenue authority, the WRA. The historical significance of what we're considering today is that this is the first ever piece of Welsh tax legislation, and as such it is another significant chapter in the story of Welsh devolution.

This Bill puts in place the essential tax arrangements and paves the way for us to introduce taxes that are more suited to Welsh circumstances and preferences. In this way, the Bill can make a real difference to people's lives.

The Bill's primary policy objective is to provide a clear and strong tax framework, but it also addresses three much wider ambitions. Firstly, it paves the way for the replacement of stamp duty land tax and landfill tax with new devolved Welsh taxes from April 2018. Secondly, our approach to this Bill and the preparatory work on developing proposals for the devolved taxes underlines the commitment of this Government to work with business to create a world-class economy, supported by a first-class system of public services. That's why, in developing the tax arrangements for Wales, I have pursued and enshrined in this Bill the following principles: fairness, simplicity, supporting jobs and growth, stability and certainty.

Businesses and taxpayers in Wales deserve a system of taxation that is fundamentally simple, transparent and, where appropriate, consistent with existing UK tax arrangements. Such an approach will help minimise the burden on taxpayers and assist tax compliance.

Finally, the Bill furthers the Welsh Government's commitment to fairness. Taxation must be fair both to those who pay it and to the broader society that benefits from the public services our taxes support. The Bill includes taxpayer rights and the requirement for the WRA to prepare a charter of standards and values. I've started preparatory work in readiness for a charter through my Welsh Taxes: A Conversation programme.

The Bill is the result of a considerable body of work by many people in the public, private and third sectors, as well as our social partners, and I'd like to place on record my thanks to them all. I would like to thank Members across the Chamber for contributing to the scrutiny of the Bill, to my officials and Commission staff for their support in this process. I'm especially grateful to Jocelyn Davies and members of the Finance Committee, and to David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their thorough scrutiny and reports of their findings. I'd also like to thank the many stakeholders who engaged with us to build a better Bill, in particular members of my tax advisory group and the tax forum, and those additional people who've contributed their views and opinions during the consultation process.

Diolch, Lywydd dros dro. Wrth gyflwyno'r cynnig, hoffwn ganolbwytio ar arwyddocâd y cam ymlaen deddfwriaethol rydym yn ei gymryd heddiw. Mae Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn edrych i'r dyfodol. Mae'n rhoi'r seilwaith hanfodol i ni ar gyfer ein cyfrifoldebau trethi datganoledig newydd, gan gynnwys y pwerau i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, sef ACC. Arwyddocâd hanesyddol yr hyn yr ydym yn ei ystyried heddiw yw mai hwn yw'r darn cyntaf erioed o ddeddfwriaeth trethi i Gymru, ac fel y cyfryw, mae'n bennod bwysig arall yn hanes datganoli yng Nghymru.

Mae'r Bil hwn yn sefydlu'r trefniadau trethi hanfodol ac mae'n parato'i'r ffordd i ni gyflwyno trethi sydd yn fwy addas i amgylchiadau a dewisiadau Cymru. Yn y modd hwn, gall y Bil wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Prif amcan polisi y Bil yw darparu fframwaith trethi clir a chryf, ond mae hefyd yn mynd i'r afael â thair uchelgais llawer ehangach. Yn gyntaf, mae'n parato'i'r ffordd ar gyfer disodli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi â threthi datganoledig newydd ar gyfer Cymru o Ebrill 2018 ymlaen. Yn ail, mae ein dull ni o weithredu'r Bil hwn a'r gwaith paratoadol ar ddatblygu cynigion ar gyfer y trethi datganoledig yn tanlinellu ymrwymiad y Llywodraeth hon i weithio gyda busnesau i greu economi o'r radd flaenaf, a gefnogir gan system o'r radd flaenaf o wasanaethau cyhoeddus. Dyna pam, wrth ddatblygu'r trefniadau trethi ar gyfer Cymru, yr wyf wedi mynd ar drywydd yr egwyddorion canlynol a'u hymgorffori yn y Bil hwn: tegwch, symrwydd, cefnogi swyddi a thwf, sefydlogrwydd a sicrwydd.

Mae busnesau a threthdalwyr yng Nghymru yn haeddu system drethiant sy'n sylfaenol syml, yn dryloyw a, lle bo'n briodol, yn gyson â'r trefniadau trethi presennol yn y DU. Bydd dull o'r fath yn helpu i leihau'r baich ar drethdalwyr ac yn cynorthwyo cydymffurfiad â threthi.

Yn olaf, mae'r Bil yn hybu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i degwch. Rhaid i drethi fod yn deg i'r rhai sydd yn eu talu ac i'r gymdeithas ehangach sy'n cael budd o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae ein trethi yn eu cefnogi. Mae'r Bil yn cynnwys hawliau trethdalwr a'r gofyniad i ACC baratoi siarter o safonau a gwerthoedd. Rydw i eisoes wedi dechrau gwaith paratoi ar gyfer siarter trwy fy rhaglen Trethi Cymru: Sgwrs.

Mae'r Bil yn ganlyniad llawer iawn o waith gan lawer o bobl yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â'n partneriaid cymdeithasol, a hoffwn gofnodi fy niolch i bob un ohonynt. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau ym mhob rhan o'r Siambra am gyfrannu at graffu ar y Bil, a hoffwn ddiolch i fy swyddogion a staff y Comisiwn am eu cefnogaeth yn y broses hon. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Jocelyn Davies ac aelodau'r Pwyllgor Cyllid, ac i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eu gwaith craffu trylwyr a'r adroddiadau ar eu canfyddiadau. Hoffwn hefyd ddiolch i'r rhanddeiliaid lawer a fu'n ymgysylltu â ni i ddatblygu Bil gwell, yn enwedig aelodau fy ngrŵp cynghori ar drethi a'r fforwm trethi, a'r bobl ychwanegol hynny sydd wedi cyfrannu eu barn a'u safbwytiau yn ystod y broses ymgynghori.

14:54

Finally, I'm pleased that Members have supported the Bill to date and have agreed important amendments to the Bill at both Stages 2 and 3, and I urge Members to vote in support of the Bill.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Minister has said, this is new territory for all of us in this Assembly. The Welsh Conservatives will be supporting Stage 4 of this Bill. The passing of this Bill clearly represents the turning of a new chapter.

With the devolution of taxes in 2018, there will be a pressing need for a tax collection regime that is fit for purpose and the new WRA is a key part of that new fiscal landscape. From my discussions with the Minister, both one to one and also during the Finance Committee sessions, I can say that I fully appreciate that it's not an easy task. It is far from easy to develop a body that is both arm's length from Government and also accountable to the Government and the Assembly. That has been a difficult balance to strike, I know. We may have had some disagreements during this process about the nature of the new tax collection body and, indeed, the name of the new tax collection body and about the best ways of ensuring its independence and how we ensure appropriate scrutiny, but one thing is undeniably certain: we do not want future Members of this Assembly to be taking part in future debates about where tax collection in Wales went wrong and saying, 'If only we had got this process right in the first place.' So, it is very important that we here today do get this process right.

Can I just say, Minister, that, in terms of the charter, I am pleased to hear that work has begun on developing that charter? The Finance Committee believed that that charter is going to be crucial to making this new regime work and for it to be accepted by the public. It must be a charter in more than just name. It must actually work as well and have real teeth, and that is going to be, as I say, all part of this new tax collection body being accepted and working correctly.

Minister, we cannot afford to get this wrong. I hope that this Bill is one step along the way to providing a robust, transparent and accountable system of tax collection and management in Wales because that is what we will need.

Yn olaf, rwy'n falch bod yr Aelodau wedi cefnogi'r Bil hyd yn hyn ac wedi cytuno ar newidiadau pwysig i'r Bil yng Nghyfnodau 2 a 3, ac rwyf yn annog Aelodau i bleidleisio o blaid y Bil.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fel y dywedodd y Gweinidog, mae hwn yn dir newydd i bob un ohonom yn y Cynulliad hwn. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi Cyfnod 4 y Bil hwn. Mae pasio'r Bil hwn yn amlwg yn ddechrau pennod newydd.

Gyda datganoli trethi yn 2018, bydd angen dybryd am gyfundrefn casglu trethi sy'n addas at y diben ac mae'r ACC newydd yn rhan allweddol o'r dirwedd ariannol newydd honno. Yn dilyn fy nhrafodaethau gyda'r Gweinidog, yn unigol a hefyd yn ystod sesiynau y Pwyllgor Cyllid, gallaf ddweud fy mod yn llwyr sylweddoli nad yw'n dasg hawdd. Nid yw'n hawdd o gwbl ddatblygu corff sydd hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ac sydd hefyd yn atebol i'r Llywodraeth a'r Cynulliad. Mae hynny wedi bod yn gydbwysedd anodd ei sefydlu, rwy'n gwybod. Efallai ein bod wedi anghytuno ar rai pethau yn ystod y broses hon o ran natur y corff casglu trethi newydd ac, yn wir, enw'r corff casglu trethi newydd ac am y dulliau gorau o sicrhau ei annibyniaeth a sut yr ydym yn sicrhau craffu priodol, ond mae un peth yn gwbl sicr: nid ydym am weld Aelodau'r Cynulliad hwn yn y dyfodol yn cymryd rhan mewn dadleuon ynghylch beth aeth o'i le gyda chasglu trethi yng Nghymru ac yn dweud, 'Trueni na chawsom y broses hon yn iawn yn y lle cyntaf.' Felly, mae'n bwysig iawn ein bod ni yma heddiw yn cael y broses hon yn iawn.

A gaf i ddweud, Weinidog, o ran y siarter, fy mod yn falch o glywed bod y gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r siarter honno? Credai'r Pwyllgor Cyllid fod y siarter yn mynd i fod yn hanfodol i sicrhau bod y drefn newydd hon yn gweithio ac yn cael ei derbyn gan y cyhoedd. Rhaid iddi fod yn siarter mewn mwy na dim ond enw. Rhaid iddi hefyd weithio mewn gwirionedd a chael dannedd go iawn, ac mae hynny i gyd, fel y dywedais, yn mynd i fod yn rhan o sicrhau bod y corff casglu trethi newydd hwn yn cael ei dderbyn a'i fod yn gweithio'n iawn.

Weinidog, ni allwn fforddio gwneud hyn yn anghywir. Gobeithio y bydd y Bil hwn yn un cam ar y ffordd i ddarparu system gadarn, dryloyw ac atebol o gasglu a rheoli trethi yng Nghymru oherwydd dyna beth fydd ei angen arnom.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn fyr iawn, buaswn i'n hoffi llonyfarch y Gweinidog ar y ffordd yr ymgynghorwyd ar y Bil yma a'r modd y mae wedi ymateb i gynigion a gwelliannau o'r pwylgor, gan sicrhau cefnogaeth eang. Mewn llawer ffordd, rwy'n credu bod y ffordd y mae'r Gweinidog wedi cyflwyno'r Bil ac wedi ymgynghori, ac wedi ymateb, yn batrwm a dweud y gwir. Ar fater mor bwysig â hwn, lle rydym ni'n gosod i lawr deddfwriaeth a fydd â goblygiadau mawr yn y dyfodol, mae angen sicrhau bod y trefniadau yn gadarn a thrwyndl, ac mae mantais fawr wrth gwrs bod hynny'n cael ei wneud gyda chefnogaeth eang yn draws bleidiol hefyd. Felly, yn hynny o beth, rwy'n croesawu'r Bil yn fawr iawn ac yn llonyfarch y Gweinidog.

14:57

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I also thank the Minister for the way she has handled this Bill? I think the Bill is a much better Bill now than it was when it was introduced because of the committee's scrutiny, but also because the Minister was prepared to listen to the committee and respond to the recommendations that we put forward. I think the changes that were made to the Bill are going to make it far more fit for purpose than it was at the start, though I think it was most probably, you know, just about okay then as well.

Of all the Bills that this Assembly has passed in this term, this is most probably one of the more historic and significant because it does represent a step change in the way that the Assembly operates. For the first time, we are going to have some tax-raising powers, and this Bill starts to put in place the mechanisms by which we can exercise those powers and deal with the taxation system. For that reason, I think the overriding principle, if you like, is that we have to do it better than the UK Government has managed so far. In a sense, the amendments that my party tabled and those which weren't passed, I think, are quite crucial in trying to make sure that we do do it better. Particularly, I was concerned about the service levels. Nick Ramsay's referred to the charter, which is going to be crucial. Let's hope the charter has more significance in Wales than the Inland Revenue has given it in the UK, where I think they've largely ignored their own charter. But, certainly, the charter is going to be very important. Also, what's going to be important is who has the contract to deliver this tax collection system—who the Welsh revenue authority actually contracts to do that. We've talked about HMRC being responsible for that, but, of course, we are also concerned about the way that HMRC are scaling back their operations in Wales and, in particular, that they still haven't yet worked out how they're going to be able to provide a service through the Welsh language. So, I think it's crucial—and this doesn't have to be on the face of the Bill—that, as we move forward in terms of this tax collection regime, we ensure that whoever is given responsibility for collecting those taxes does have customer service at the very heart of their rationale and their philosophy, and also that they are properly geared up to dealing with queries through the medium of Welsh. I think that that is crucial.

Very briefly, I'd like to congratulate the Minister on the way that this Bill was consulted on and the way that she has responded to proposals and amendments put forward by the committee, ensuring widespread support. In many ways, I do think that the way in which the Minister has introduced the Bill and consulted on it, and responded, is a model for this kind of process. On an issue as important as this, where we are putting in place legislation that will have far-reaching implications for the future, we do need to ensure that the arrangements are robust and thorough, and it's a great benefit that that, of course, is done with widespread support on a cross-party basis. So, in that regard, I do welcome this Bill very warmly and congratulate the Minister.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

A alla i hefyd ddiolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae hi wedi trin y Bil hwn? Rwy'n meddwl bod y Bil yn Fil llawer gwell yn awr nag yr oedd pan gafodd ei gyflwyno oherwydd gwaith craffu'r pwylgor, ond hefyd oherwydd bod y Gweinidog yn barod i wrando ar y pwylgor ac ymateb i'r argymhellion a gyflwynwyd gennym. Rwy'n meddwl bod y newidiadau a wnaed i'r Bil yn mynd i'w wneud yn llawer mwy addas at y diben nag yr oedd ar y dechrau, er fy mod yn credu ei fod yn ôl pob tebyg, wyddoch chi, bron yn iawn bryd hynny hefyd.

O'r holl Filiau y mae'r Cynulliad hwn wedi eu pasio yn ystod y tymor, hwn fwy na thebyg yw un o'r rhai mwyaf hanesyddol ac arwyddocaoл am ei fod yn cynrychioli newid sylwedol yn y modd y mae'r Cynulliad yn gweithredu. Am y tro cyntaf, rydym yn mynd i gael rhywfaint o bwerau codi trethi, ac mae'r Bil hwn yn dechrau sefydlu mechanweithiau y gallwn eu defnyddio i arfer y pwerau hynny ac ymdrin â'r system drethiant. Am y rhewsm hwnnw, rwyf yn meddwl mai'r brif egwyddor, os mynnwch, yw bod yn rhaid i ni wneud hynny yn well nag y mae Llywodraeth y DU wedi llwyddo i wneud hyd yn hyn. Mewn ffordd, mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan fy mhlaid i a'r rhai na chawsant eu pasio, rwy'n meddwl, yn eithaf tyngedfennol wrth geisio gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud yn well. Yn benodol, roeddwn yn bryderus am y lefelau gwasanaeth. Cyfeiriodd Nick Ramsay at y siarter, sy'n mynd i fod yn dyngedfennol. Gadewch i ni obeithio y bydd gan y siarter fwy o arwyddocâd yng Nghymru nag y mae Cyllid y Wlad wedi ei roi iddo yn y DU, gan fy mod yn meddwl eu bod wedi anwybyddu eu siarter eu hunain i raddau helaeth. Ond, yn sicr, mae'r siarter yn mynd i fod yn bwysig iawn. Hefyd, yr hyn sy'n mynd i fod yn bwysig yw pwy sydd â'r contract i gyflawni'r system hon o gasglu trethi hon—pwy fydd awdurdod cyllid Cymru mewn gwirionedd yn dyfarnu'r contract iddo. Rydym wedi trafod bod CThEM yn gyfrifol am hynny, ond, wrth gwrs, rydym hefyd yn pryderu am y ffordd y mae Cyllid a Thollau EM yn torri yn ôl ar eu gweithrediadau yng Nghymru ac, yn benodol, eu bod yn dal heb weithio allan sut maen nhw'n mynd i allu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, rwy'n credu ei bod yn hanfodol—ac nid oes rhaid i hyn fod ar wyneb y Bil—wrth i ni symud ymlaen o ran y gyfundrefn hon o gasglu trethi, ein bod yn sicrhau bod gwasanaethau cwsmeriaid wrth galon rhesymeg ac athroniaeth pwy bynnag sy'n derbyn y cyfrifoldeb am gasglu'r trethi hynny, a hefyd eu bod yn barod iawn i ymdrin ag ymholaadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Credaf fod hynny'n hanfodol.

I think the second issue, which—again, I would have preferred my amendments to go through—. But I think the second issue that can be dealt with outside of the legislative process is how this body is accountable to the Welsh Assembly. As it's set up, it's accountable to the Minister and the Minister is accountable to us, but, of course, we do need to have, I think, some scrutiny of the body itself through a committee, possibly the Public Accounts Committee, possibly through the Finance Committee. I think it will be for the next Assembly to determine the relationship between Assembly committees and this body and how we scrutinise the way it is doing its job.

Of course, there are other Bills that have yet to come forward before we can successfully collect both stamp duty and other taxes and this is going to be the first one, but that's why I think it's so crucial that we get this one right and why I think it's so crucial that, when we come to work through future legislation, we reflect the principles that have been in this Bill, we make sure there is proper accountability and we make sure that we can properly scrutinise the work of the various bodies that have been tasked with collecting taxes on our behalf, because that is the best way we can ensure that the Welsh public gets a good service and that we do better than the UK Government has done so far and HMRC has done so far in collecting our taxes and try to avoid the many, many public relations gaffes that they've got involved in. Thank you, Chair.

Rwy'n meddwl bod y ail fater,—ac eto byddai'n well gennyst fod fy ngwelliannau wedi mynd trwedd—. Ond rwy'n credu mai'r ail fater y gellir ymdrin ag ef y tu allan i'r broses ddeddfwriaethol yw sut mae'r corff hwn yn atebol i Gynulliad Cymru. Wrth ei sefydlu, mae'n atebol i'r Gweinidog ac mae'r Gweinidog yn atebol i ni, ond, wrth gwrs, mae angen inni gael, rwy'n meddwl, rywfaint o graffu ar y corff ei hun drwy bwyllgor, o bosibl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, o bosibl drwy'r Pwyllgor Cyllid. Rwy'n meddwl mai mater i'r Cynulliad nesaf fydd penderfynu ar y berthynas rhwng pwylgorau'r Cynulliad a'r corff hwn a sut ydym yn craffu ar y ffodd y mae'n gwneud ei waith.

Wrth gwrs, mae yna Filiau eraill sydd eto i'w cyflwyno cyn y gallwn gasglu'r dreth stamp a threthi eraill yn llwyddiannus a hwn fydd yr un cyntaf. Ond dyna pam yr wyf yn credu ei bod mor hanfodol ein bod yn gwneud hwn yn iawn a pham rwy'n credu ei bod mor dyngedfennol, pan fyddwn yn gweithio trwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol, ein bod yn adlewyrchu'r egwyddorion sydd wedi bod yn y Bil hwn, ein bod yn gwneud yn siŵr bod atebolrwydd priodol a'n bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu craffu yn briodol ar waith y gwahanol gyrrf sydd wedi cael y dasg o gasglu trethi ar ein rhan. Dyna'r ffodd orau y gallwn sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn cael gwasanaeth da a'n bod yn gwneud yn well nag y mae Llywodraeth y DU wedi ei wneud hyd yn hyn ac yn well nag y mae CThEM wedi ei wneud hyd yn hyn wrth gasglu ein trethi a cheisio osgoi y camgymeriadau cysylltiadau cyhoeddus niferus iawn y maent wedi bod yn rhan ohonynt. Diolch, Gadeirydd.

15:01

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister for Finance and Government Business to reply to the debate.

15:01

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Diolch yn fawr i chi i gyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you all very much.

It's really very heart warming, I think, to have support expressed today for this Bill and for the positive words that have been expressed, but I would like to thank all Members and all parties across this Assembly for helping us move forward into this, as you've described, new territory.

Mae'n hyfryd iawn, rwy'n meddwl, fod cefnogaeth yn cael ei mynegi heddiw i'r Bil hwn a geiriau cadarnhaol yn cael eu mynegi. Ond hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau a'r holl bleidiau ar draws y Cynulliad hwn am ein helpu i symud ymlaen i'r diriogaeth newydd hon, fel rydych wedi ei ddisgrifio.

I think it's worth restating that this is the first ever piece of Welsh tax legislation—as I said, a significant chapter in the story of Welsh devolution. For the first time in some 800 years, this Bill does enable Wales to take steps towards putting in place taxes that are more suited to Welsh circumstances and Welsh preferences.

Rwy'n credu ei bod yn werth ailddatgan mai hwn yw'r darn cyntaf erioed o ddeddfwriaeth trethi yng Nghymru—fel y dywedais, mae'n bennod arwyddocaol yn hanes datganoli yng Nghymru. Am y tro cyntaf mewn rhyw 800 mlynedd, mae'r Bil hwn yn galluogi Cymru i gymryd camau tuag at sefydlu trethi sy'n fwy addas i amgylchiadau Cymru a dewisiadau Cymru.

But I think the scrutiny and engagement that you took part in has been very important in shaping this Bill to this point of Stage 4. There has been a real opportunity to improve on current UK legislation. Indeed, also, following on from Scottish legislation as well, we've made our own decisions based on evidence. It's very important that your scrutiny and the points that you raised again this afternoon in terms of the charter, in terms of delegation, Welsh language, and, of course, the overall accountability of the Welsh Revenue Authority to the people of Wales as well as to the Welsh Government and the National Assembly, have clearly been expressed at each stage, but also in the debate this afternoon. So, I thank you all again and urge Members to support this Bill.

Ond rwy'n credu bod y gwaith craffu ac ymgysylltu yr ydych wedi cymryd rhan yn ddd wedi bod yn bwysig iawn wrth lunio'r Bil hwn i'r pwyt hwn yng Nghyfnod 4. Mae cyfle gwirioneddol wedi bod i wella ar ddeddfwriaeth bresennol y DU. Yn wir, yn dilyn ymlaen o ddeddfwriaeth yr Alban hefyd, rydym wedi gwneud ein penderfyniadau ein hunain yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n bwysig iawn bod eich gwaith craffu a'r pwytiau a godwyd gennych eto y prynhawn yma am y siarter, am ddirprwyo, yr iaith Gymraeg, ac, wrth gwrs, atebolwydd cyffredinol Awdurdod Cyllid Cymru i bobl Cymru, yn ogystal ag i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi cael eu mynegi yn glir yn ystod pob cyfnod, ond hefyd yn y ddadl hon y prynhawn yma. Felly, rwyf yn diolch i chi gyd eto ac yn annog yr Aelodau i gefnogi'r Bil hwn.

15:02

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig? A oes unrhyw wrthwnebiad? Felly, derbynnyr y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

15:03

6. Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2015-16

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 6 yw'r ddadl ar yr ail gyllideb atodol 2015-16. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i wneud y cynnig—Jane Hutt.

Cynnig NDM5967 Jane Hutt

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 9 Chwefror 2016.

Cynigiwyd y cynnig.

6. Debate on the Second Supplementary Budget 2015-16

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 6 is the debate on the second supplementary budget for 2015-16. I call on the Minister for Finance and Government Business to move the motion—Jane Hutt.

Motion NDM5967 Jane Hutt

To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the Second Supplementary Budget for the financial year 2015-16 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 9 February 2016.

Motion moved.

15:03

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

This supplementary budget represents our last opportunity to amend budgetary plans before the end of the current financial year. Amendments are made to the plans this Assembly approved in the first supplementary budget last July.

Firstly, I'd like to take this opportunity to thank the Finance Committee for their scrutiny of this second supplementary budget and I'm responding to the Chair on the specific recommendations made in their report.

Mae'r gyllideb atodol hon yn cynrychioli ein cyfle olaf i ddiwygio cynlluniau cyllidebol cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Gwneir diwygiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y Cynulliad hwn yn y gyllideb atodol gyntaf fis Gorffennaf diwethaf.

Yn gyntaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu ar yr ail gyllideb atodol hon ac rwy'n ymateb i'r Cadeirydd ar yr argymhellion penodol a wnaed yn eu hadroddiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As you know, the NHS remains a priority for this Government. This budget includes revenue allocations of £103.8 million for health and social services. In September 2015, I announced an additional funding package of £58.8 million to support the NHS in Wales. Funding of £45 million was provided to drive a number of initiatives within the service targeted at improving performance. A further £13.8 million was allocated to support the NHS in meeting the additional costs associated with the introduction of a number of treatments approved this year, including drugs to treat hepatitis C.

In February, the Minister for Health and Social Services announced additional funding of £45 million to address winter pressures at a time when the highest number of attendances at A&E in Wales and across the UK were recorded.

Alongside this budget, I announced a total of £23 million additional capital funding from reserves for twenty-first century school projects across all 22 local authorities, supporting the rebuild and refurbishment of over 150 schools and colleges and supporting up to 300 jobs.

I also announced funding of £20 million to be made available for social housing, which will help build approximately 230 affordable homes across Wales and support up to 500 jobs.

I've provided an additional £46.5 million of capital loan funding to support the Welsh economy by supporting businesses across the length and breadth of the country. This includes initiatives such as the Wales microbusiness loan fund, to improve access to finance for microbusinesses, and the business growth SME business fund, to help realise the potential of fast-growing medium-sized companies, and the JEREMIE successor fund. Further loan support has been created for land for affordable housing, Coleg y Cymoedd's new campus in Aberdare, and promoting green investment in Wales as part of our green growth Wales scheme.

The late announcement of consequential funding from the UK Government this year means that we're holding reserves containing funding that I've earmarked for allocation in 2016-17. These include the £10.7 million we received for flood-damage repair following storm Desmond and storm Eva. In December, the Minister for Natural Resources announced £1 million from within existing main expenditure group resources for local authorities for immediate repairs and maintenance to ensure homes and properties remain resilient. Shortly afterwards, the First Minister announced a further £2.3 million for flood protection works, building on the initial £1 million already announced. Last month, the First Minister announced that extra funding of £0.5 million is being provided to accelerate drainage improvement works on the A55, as well as confirming that the £1.9 million Talybont flood alleviation scheme would go ahead this spring. I've agreed to provide funding for these in 2016-17, along with the balance, which will be utilised in the flood and coastal risk management programme.

Fel y gwyddoch, mae'r GIG yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys dyraniadau refeniw o £103.8 miliwn ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Ym mis Medi 2015, cyhoeddais becyn cyllid ychwanegol o £58.8 miliwn i gefnogi'r GIG yng Nghymru. Darparwyd cyllid o £45 miliwn ar gyfer nifer o fentrau o fewn y gwasanaeth gyda'r nod o wella perfformiad. Dyrannwyd £13.8 arall i gefnogi'r GIG i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno nifer o driniaethau a gymeradwywyd eleni, gan gynnwys cyffuriau i drin hepatitis C.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid ychwanegol o £45 miliwn i fynd i'r afael â phwysau'r gaeaf ar adeg pan gofnodwyd y nifer uchaf o ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru a ledled y DU.

Ochr yn ochr â'r gyllideb hon, cyhoeddais gyfanswm o £23 miliwn o gyllid cyfalaф ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol, gan gynorthwyo'r gwaith o ailadeiladu ac ailwampio dros 150 o ysgolion a cholegau a chefnogi hyd at 300 o swyddi.

Cyhoeddais hefyd gyllid o £20 miliwn i gael ei roi ar gael ar gyfer tai cymdeithasol, a fydd yn helpu i adeiladu tua 230 o dai fforddiadwy ledled Cymru a chefnogi hyd at 500 o swyddi.

Rwyf wedi darparu £46.5 ychwanegol o gyllid benthyriad cyfalaф i gefnogi economi Cymru trwy gefnogi busnesau ar hyd a lled y wlad. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel cronfa benthyciadau microfusnesau Cymru, i wella mynediad at gyllid i ficrofusnesau, a'r gronfa busnes BBaCh twf busnes, er mwyn helpu i wireddu potensial cwmniau o faint canolig sy'n tyfu'n gyflym, a chronfa olynol JEREMIE. Crëwyd cymorth benthyciadau bellach ar gyfer tir a thai fforddiadwy, campws newydd Coleg y Cymoedd yn Aberdâr, a hyrwyddo buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru yn rhan o'n cynllun twf gwyrdd Cymru.

Mae cyhoeddiad hwyr cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU eleni yn golygu bod gennym ni gronfeydd wrth gefn sy'n cynnwys cyllid yr wylf wedi ei glustnod i'w ddyrannu yn 2016-17. Mae'r rhain yn cynnwys y £10.7 miliwn a gawsom ar gyfer atgyweirio difrod llifogydd yn dilyn storm Desmond a storm Eva. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol £1 filiwn o adnoddau prif grŵp gwariant presennol i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar unwaith i sicrhau bod cartrefi ac eiddo yn parhau i fod yn gydneth. Yn fuan wedyn, cyhoeddodd y Prif Weinidog £2.3 miliwn arall ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd, gan adeiladu ar yr £1 filiwn gychwynnol a gyhoeddwyd eisoes. Y mis diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog bod cyllid ychwanegol o £0.5 miliwn yn cael ei ddarparu i gyflymu gwaith gwella draenio ar yr A55, yn ogystal â chadarnhau y byddai cynllun Iliniaru llifogydd £1.9 miliwn Talybont yn mynd rhagddo y gwanwyn hwn. Rwyf wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer y rhain yn 2016-17, ynghyd â'r balans, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y rhaglen rheoli risg llifogydd ac arfordirol.

The revised plans outlined in this budget demonstrate that we are able to respond to the financial challenges we come up against, we are able to deliver our commitment as a Government, and we are able to provide value for money for the people of Wales. I would like to thank the Finance Committee once again for their scrutiny of this supplementary budget, and I encourage Members to support it.

Mae'r cynlluniau diwygiedig a amlinellir yn y gyllideb hon yn dangos ein bod yn gallu ymateb i'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu, ein bod yn gallu cyflawni ein hymrwymiad fel Llywodraeth, a'n bod yn gallu darparu gwerth am arian i bobl Cymru. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid unwaith eto am eu gwaith craffu ar y gyllideb atodol hon, ac rwy'n annog yr Aelodau i'w chefnogi.

15:07 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

I call upon the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

15:07 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Chair. The committee met to consider the second supplementary budget on 24 February. We have published our report, which includes the following conclusions. The committee recognises that the Government has delivered, or is on track to deliver, more than 95 per cent of the programme for government. However, we are disappointed that there are still commitments within the programme that have not been met and there seem to be no significant adjustments within the final supplementary budget of this Assembly to do so.

Diolch, Gadeirydd. Cyfarfu'r pwylgor i ystyried yr ail gyllideb atodol ar 24 Chwefror. Rydym ni wedi cyhoeddi ein hadroddiad, sy'n cynnwys y casgliadau canlynol. Mae'r pwylgor yn cydnabod bod y Llywodraeth wedi cyflawni, neu ar y trywydd iawn i gyflawni, mwy na 95 y cant o'r rhaglen lywodraethu. Fodd bynnag, rydym ni'n siomedig bod ymrwymiadau yn y rhaglen sydd heb eu bodloni o hyd ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw addasiadau sylweddol yng Nghyllideb atodol olaf y Cynulliad hwn i wneud hynny.

The increase in funding for health has been a topic of the committee's recommendations in most of our budget scrutiny reports. As I have said previously, it is not the role of the committee to comment on whether the health sector should be receiving an increase in funding. However, we have concerns that this additional funding continues not to be linked to targets and expectations on how the health service will improve. We remain concerned that additional funding for the NHS should not be used to fund inefficiencies or unplanned overspends, and we had hoped, by now, to see evidence of transformational change.

Mae'r cynnydd i'r cyllid ar gyfer iechyd wedi bod yn destun argymhellion y pwylgor yn y rhan fwyaf o'n hadroddiadau craffu ar y gyllideb. Fel yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen, nid swyddogaeth y pwylgor yw gwneud sylwadau o ran a ddylai'r sector iechyd fod yn derbyn cynnydd i'w gyllid. Fodd bynnag, mae gennym ni bryderon o hyd nad yw'r cyllid ychwanegol hwn yn gysylltiedig â thargedau a disgwyliadau yng Nghylch sut y bydd y gwasanaeth iechyd yn gwella. Rydym ni'n dal yn bryderus na ddylai cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG gael ei ddefnyddio i ariannu aneffeithlonrwydd neu orwario na gynlluniwyd, ac roeddem ni wedi gobethio gweld, erbyn hyn, dystiolaeth o newid gweddnewidiol.

The committee had concerns during its scrutiny of the draft budget 2016-17 that provisions for refuges and specialist domestic abuse and sexual violence services were not being met across Wales. Therefore, the committee welcomes the additional capital allocation to domestic abuse action within the local government MEG as part of this supplementary budget. This is a positive move and I believe demonstrates the impact scrutiny can have.

Roedd gan y pwylgor bryderon yn ystod ei waith craffu ar gyllideb ddrfft 2016-17 nad oedd y darpariaethau ar gyfer llochesi a gwasanaethau cam-drin domestig a thrasis rhywiol arbenigol yn cael eu bodloni ledled Cymru. Felly, mae'r pwylgor yn croesawu'r dyrianiad cyfalaif ychwanegol ar gyfer camau ar gam-drin domestig yn y MEG llywodraeth leol yn rhan o'r gyllideb atodol hon. Mae hwn yn gam cadarnhaol ac rwy'n credu ei fod yn dangos yr effaith y gall craffu ei chael.

The supplementary budget included a transfer of £5.1 million from the Higher Education Funding Council for Wales to the Welsh Government as the second part of the funding for the tuition fee grant for 2015-16. The transfer from HEFCW to the Welsh Government made up a significant part of both supplementary budgets for 2015-16. The Minister stated that this transfer was historical and confirmed that there would no longer be a transfer of £21.1 million as the final element of the tuition fee grant from HEFCW to the Welsh Government in the final budget for 2016-17. The committee was keen to explore the link between these allocations and announcements in 2015-16 and decisions around the Wales Audit Office recommendation that the Welsh Government transfer £21 million in 2016-17 on the basis of an assessment of risk relating to the tuition fee grant. However, the committee were not convinced by the Minister's argument, and look forward to a clearer explanation in the debate on the final budget later today.

I'm grateful to the Minister for providing the additional information requested on the invest-to-save fund, and we would also thank the Minister for her continued co-operation in all our endeavours. I'd also like to take this opportunity to thank the Commission staff who very ably assisted the Finance Committee during this Assembly term. Their support has been generously given and, I have to say, very gratefully received. Thank you.

Roedd y gyllideb atodol yn cynnwys trosglwyddo £5.1 miliwn o Gyngor Cylido Addysg Uwch Cymru i Lywodraeth Cymru fel yr ail ran o'r cyllid ar gyfer y grant ffioedd dysgu ar gyfer 2015-16. Roedd y trosglwyddiad o CCAUC i Lywodraeth Cymru yn rhan sylwedol o'r ddwy gyllideb atodol ar gyfer 2015-16. Dywedodd y Gweinidog fod y trosglwyddiad hwn yn hanesyddol a chadarnhaodd na fyddai trosglwyddiad o £21.1 miliwn mwyach fel elfen olaf y grant ffioedd dysgu o CCAUC i Lywodraeth Cymru yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2016-17. Roedd y pwylgor yn awyddus i ystyried y cysylltiad rhwng y dyraniadau hyn a chyhoeddiadau yn 2015-16 a phenderfyniadau yngylch argymhelliaid Swyddfa Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo £21 miliwn yn 2016-17 ar sail asesiad o risg yn gysylltiedig â'r grant ffioedd dysgu. Fodd bynnag, ni chafodd y pwylgor ei argyhoeddi gan ddadl y Gweinidog, ac mae'n edrych ymlaen at esboniad mwy eglur yn y ddadl ar y gyllideb derfynol yn ddiweddarach heddiw.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani am y gronfa buddsoddi i arbed, ac rydym hefyd yn diolch i'r Gweinidog am ei chydweithrediad parhaus â'n holl ymdrechion. Hoffwn achub ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i staff y Comisiwn a gynorthwyodd y Pwyllgor Cylid yn fedrus iawn yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Rhosant eu cefnogaeth yn hael ac, mae'n rhaid i mi ddweud, fe'i derbynwyd gyda diolch mawr. Diolch.

15:10

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just wish to make a few points about this process, if I may, Minister. As the Minister will be aware, and as we've just heard, the Finance Committee report highlighted a number of concerns with the second supplementary budget. As the Chair of the committee has just said, some of the biggest concerns surround whether the spending in these plans tie in with the Welsh Government's own stated priorities, and there is a real doubt over whether they actually do.

Whilst we do, of course, welcome any additional funding for the NHS to try and bring us back towards the funding level where we should have been without the real-terms cuts to the NHS budget over recent years, there is a question mark over where exactly this additional funding will go. Will it simply be used to fund inefficiencies or unplanned overspends—effectively a bail-out, although I'm sure it won't masquerade as that. If this is the case, then the conclusion has to be that there is a lack of strategic spending in this supplementary budget, which is a real cause of concern, and was for the committee. Are we really making the most of additional funding coming to us from the Treasury, Minister? The Welsh Government needs to look closely at the reasons for its allocation of additional funding and whether it is achieving the desired aims.

Hoffwn i wneud ychydig o bwyntiau am y broses hon, os caf, Weinidog. Fel y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, ac fel yr ydym ni newydd ei glywed, amlygodd adroddiad y Pwyllgor Cylid nifer o bryderon gyda'r ail gyllideb atodol. Fel y mae Cadeirydd y pwylgor newydd ei ddweud, mae rhai o'r pryderon mwyaf yn ymweud â pha un a yw'r gwariant yn y cynlluniau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau datganedig Llywodraeth Cymru ei hun, a cheir amheuaeth wrioneddol o ran a ydyn nhw'n gwneud hynny mewn gwirionedd.

Er ein bod, wrth gwrs, yn croesawu unrhyw gyllid ychwanegol i'r GIG er mwyn ceisio dod â ni yn ôl tuag at y lefel gyllido lle dylem ni fod heb y toriadau termau real i gyllideb y GIG dros y blynnyddoedd diwethaf, mae cwestiwn yn codi o ran ble yn union y bydd yr arian ychwanegol hwn yn mynd. A fydd yn cael ei ddefnyddio'n syml i ariannu aneffeithlonwyd neu orwario na gynlluniwyd—cymhorthdal i bob pwrras, er fy mod i'n siŵr na fydd yn cael ei gyflwyno felly. Os yw hyn yn wir, yna mae'n rhaid mai'r casgliad yw bod diffyg gwariant strategol yn y gyllideb atodol hon, sy'n destun pryder gwirioneddol, fel yr oedd i'r pwylgor. A ydym ni wir yn gwneud y mwyaf o gyllid ychwanegol sy'n dod i ni gan y Trysorlys, Weinidog? Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych yn ofalus ar y rhesymau am ei dyraniad o gyllid ychwanegol a pha un a yw'n cyflawni'r nodau a ddymunir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If I can just turn to invest-to-save, I think there is universal support for this in principle, but the committee was concerned about the circulation of money that the scheme requires. Is money returning to the coffers as readily as it flows out? Turning to some of the specifics of invest-to-save, which were announced in the recent statement by the Minister: yes, new LED lighting on roads seems a sensible way to proceed, but is the money that is being saved in the NHS, for instance, as a result of this programme, being reinvested in healthcare, and are we making the most of that funding?

Finally, Minister, you did commit to the Finance Committee to provide a written response to the committee, which was going to be made available on the committee's webpages, with regard to our last evidence session and some of the unanswered questions. I don't think that that response has been provided yet, so we look forward to seeing that on those webpages as soon as possible. Thank you.

Os caf i droi at fuddsoddi i arbed, rwy'n meddwl bod cefnogaeth gyffredinol i hyn mewn egwyddor, ond roedd y pwylgor yn bryderus am y cylchriad o arian sydd ei angen ar y cynllun. A yw arian yn dychwelyd i'r coffrau mor rhwydd ag y mae'n liifo allan? Gan droi at rai o fanylion penodol buddsoddi i arbed, a gyoeddwyd gennym yn y datganiad diweddar gan y Gweinidog: ydy, mae goleuadau LED newydd ar ffyrdd yn ymddangos fel ffordd synhwyrol i symud ymlaen, ond a yw'r arian sy'n cael ei arbed yn y GIG, er enghraift, o ganlyniad i'r rhaglen hon, yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gofal iechyd, ac a ydym ni'n gwneud y mwyaf o'r cyllid hwnnw?

Yn olaf, Weinidog, fe wnaethoch ymrwymiad i'r Pwyllgor Cyllid i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r pwylgor, a oedd yn mynd i fod ar gael ar dudalennau gwe'r pwylgor, o ran ein sesiwn dystiolaeth ddiwethaf a rhai o'r cwestiynau a oedd heb eu hateb. Nid wyf yn credu bod yr ymateb hwnnw wedi ei ddarparu eto, felly edrychwn ymlaen at weld hynny ar y tudalennau gwe hynny cyn gynted â phosibl. Diolch.

15:12

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I very much welcome the additional moneys that you mentioned in terms of provision to deal with flood risk. Of course, demand is very considerable right across Wales in terms of improvements to defences. As far as my constituency is concerned—and I know that Newport East isn't alone in this regard—there is considerable risk from both coastal and river flooding, and that is risk to existing development as well as future planned development with regard to the local development plan, for example.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There is a feeling, Minister, that considerable improvement to defences is required, together with associated improvements to warning systems, community involvement and partnership working in general, and that also those improvements to defences should be very much about use of the natural environment and shaping of that natural environment rather than perhaps simply pouring the concrete, as it were. So, in that context, Minister, I wonder if you could say a little bit about the provision of additional funding and, in your view, the extent to which it will be sufficient to meet these ongoing challenges.

Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr iawn yr arian ychwanegol y soniasoch amdano o ran darpariaeth i ymdrin â pherygl llifogydd. Wrth gwrs, mae'r galw yn sylweddol iawn ledled Cymru o ran gwelliannau i amddiffynfeydd. Cyn bellod ag y mae fy etholaeth i yn y cwestiwn—a gwn nad yw Dwyrain Casnewydd ar ei ben ei hun yn hyn o beth—ceir perygl sylweddol o lifogydd arfordirol ac afonydd, ac mae hynny'n risg i ddatblygiad presennol yn ogystal â datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol o ran y cynllun datblygu lleol, er enghraift.

Ceir teimlad, Weinidog, bod angen gwelliant sylweddol i amddiffynfeydd, ynghyd â gwelliannau cysylltiedig i systemau rhybuddio, cyfranogiad cymunedol a gwaith partneriaeth yn gyffredinol, a hefyd y dylai'r gwelliannau hynny i amddiffynfeydd ymwneud yn bendant â'r defnydd o'r amgylchedd naturiol a siapio'r amgylchedd naturiol hwnnw yn hytrach na dim ond arllwys y concrid, fel petai. Felly, yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, tybed a allech chi ddweud ychydig am y ddarpariaeth o gyllid ychwanegol ac, yn eich barn chi, i ba raddau y bydd yn ddigonol i ymateb i'r heriau parhaus hyn.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dim ond sylwadau byr iawn iawn—rwyf ar yr un trywydd â Nick Ramsay, a dweud y gwir—sef ar yr arian ychwanegol sydd wedi mynd unwaith eto i'r gwasanaeth iechyd. Y cwestiwn yr oedd aelodau'r pwylgor yn gofyn, wrth gwrs, oedd: beth ydy'r deilliannau o'r gwario ychwanegol yma? Mae yna restr hirfaith o gynlluniau unigol, a phob un ohonyn nhw'n ddigon teilwng, ond nid oes yna arwydd o sut mae'r darlun mawr yn datblygu ac yn newid. Un rheswm yr wyf yn codi ar fy nhraed heddiw ydy fy mod newydd fod yn gwrandio ar y prif swyddog meddygol, Ruth Hussey, yn siarad am ddatblygiadau yn y gwasanaeth iechyd a datblygu gwasanaethau iechyd yn y gymuned. Ac roedd y cynlluniau yma, llawer iawn ohonyn nhw, yn rhai cyffrous iawn ac yn rhai y byddwn i'n gefnogol iawn ohonyn nhw. Ond wrth ymateb i'r sylw nad oedd enghreifftiau cadarn o'r newidiadau yma ar lawr gwlaid, mi ddywedodd hi fod 'pilotitis' yn rhemp, a diffyg cydlyniant. Dyna'r ofn gyda'r gyllideb iechyd a'r arian ychwanegol sydd yn dod iddi hi, sef bod yr arian yno yn aml iawn i lenwi bwlcw cylldol. Mae yna nifer fawr o gynlluniau digyswllt ar hyd a lled Cymru, ond nid ydym ni'n gweld y trawsnewid yna sydd yn cael ei addo yn gyson, ac sydd wedi cael ei addo ar hyd y blynnyddoedd. Ac rwy'n meddwl mai dyna'r her sy'n wynebu unrhyw Lywodraeth, ond nid oes yna ddim arwydd ar hyn o bryd bod yr arian ychwanegol yna yn cyflawni ei fwriad.

Just some very brief comments along the same lines as Nick Ramsay in relation to the additional funding again provided to the health service. The question that committee members asked, of course, was: what are the outcomes of this additional expenditure? There is a lengthy list of individual programmes, each of them very worthy, but there is no sign of how the bigger picture is developing and changing. One reason that I'm speaking this afternoon is that I've just been listening to Ruth Hussey, the chief medical officer, speaking above developments in the health service and developing health services in the community. And many of these proposals were very exciting and ones that I would be very supportive of. But in responding to a comment that there were no firm examples of these changes being implemented on the ground, she said that 'pilotitis' was rife and there was a lack of co-ordination. That is the fear with the health budget and the additional funding provided to it—the money is often there to fill a funding gap. There are a number of unconnected programmes the length and breadth of Wales, but we don't see that transformation which is consistently pledged and has been pledged over the years. And I think that is the challenge facing any Government, but there is no sign at present that this additional funding is achieving its intention.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like other Members, and the committee report, first of all, can I welcome the money that is being allocated in this budget? But I think it's important that some of the criticisms in the Finance Committee report are taken on board by the Minister—and these are not just new criticisms. I think the issue around the health service, as the Chair said, is a matter that has been raised in report after report by the Finance Committee. Essentially, the health service budget, and particularly the money going to local health boards, is opaque and difficult to scrutinise. We need to have some reassurance that when additional money is given to the health service, we can see clear outcomes coming from that expenditure. And it's not just a matter of the Welsh Government actually bailing out health boards, but actually using this money in a constructive way to deliver a more effective, more efficient health service, and one that is going to start tackling some of the structural problems that we all know the health service has. I think that, yet again, the Minister has not passed that test. Clearly, extra money to health is welcome, and we hope very much that it will have the impact that is being claimed for it, that it will start to transform the way the health service is being delivered, but I think the concern is that, without having any proper transparency in terms of how this money is being spent, any proper means of scrutinising the way that the £9 billion in the budget is being spent on health, it's very difficult for the committee itself and for other committees to get a handle on how that money is being spent and whether or not this additional money that is being allocated to health is being used in a proper way and is delivering what is being claimed of it.

Fel Aelodau eraill, ac adroddiad y pwylgor, yn gyntaf oll, a gaf i groesawu'r arian sy'n cael ei ddyrrannu yn y gyllideb hon? Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig bod rhai o'r beirniadaethau yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn cael eu hystyried gan y Gweinidog—ac nid beirniadaethau newydd yn unig yw'r rhain. Rwy'n meddwl bod y mater yngylch y gwasanaeth iechyd, fel y dywedodd y Cadeirydd, yn fater sydd wedi ei godi mewn adroddiad ar ôl adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid. Yn y bôn, mae cyllideb y gwasanaeth iechyd, a'r arian sy'n mynd i fyrdau iechyd lleol yn arbennig, yn anhryloyw ac yn anodd craffu arno. Mae angen i ni gael rhywfaint o sicrwydd, pan fo arian ychwanegol yn cael ei roi i'r gwasanaeth iechyd, y gallwn weld canlyniadau eglur yn dod o'r gwariant hwnnw. Ac nid dim ond mater o Lywodraeth Cymru yn gwneud cymorthdaliadau i fyrdau iechyd yn unig yw hyn, ond defnyddio'r arian hwn mewn ffordd adeiladol i ddarparu gwasanaeth iechyd mwy effeithiol, mwy effeithlon, ac un sy'n mynd i ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r problemau strwythurol yr ydym ni i gyd yn gwybod sydd gan y gwasanaeth iechyd. Rwy'n credu, unwaith eto, nad yw'r Gweinidog wedi pasio'r prawf hwnnw. Yn amlwg, dylid croesawu arian ychwanegol ar gyfer iechyd, a gobeithiwn yn fawr y bydd yn cael yr effaith yr honnir y mae'n ei gael, ac y bydd yn dechrau gweddnewid y ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yn cael ei ddarparu, ond rwy'n credu mai'r pryer yw, heb fod ag unrhyw dryloywder priodol o ran sut y mae'r arian hwn yn cael ei wario, unrhyw ddull priodol o graffu ar y ffordd y mae'r £9 biliwn yn y gyllideb yn cael ei wario ar iechyd, mae'n anodd iawn i'r pwylgor ei hun ac i bwylgorau eraill gael syniad o sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario a pha un a yw'r arian ychwanegol hwn sy'n cael ei ddyrrannu i iechyd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol ac yn cyflawni'r hyn yr honnir y mae'n ei wneud.

The committee also raised the issue—and, again, the Chair referred to this—in terms of the Government's programme for government. We know that only 95 per cent of that programme has been delivered, and we would have expected, I think, that any supplementary budget, particularly this late in the year, would allocate additional moneys and be clearly earmarked to try to start delivering the remaining 5 per cent. Again, that does not appear to have happened, and I think it's important that there's clarity there as well and some transparency around that.

Finally, Chair, I just wanted to be fair to the committee's recommendation in terms of provision for refuges and specialist domestic abuse and sexual violence services. I very much welcome the additional allocation that has been put in for those particular services. Other committees have taken evidence to the effect that waiting times for these services are unacceptable and, in some cases, women are being turned away, and there are concerns about the way those services are being delivered. They have been raised with the relevant Minister, and he's talking about moving to a regional means of delivery, which I think might deal with that, but I think we need to see that reflected in the budget as well, and I think, for future budgets—and this is not a matter for this supplementary budget—that a future budget needs, I think, to reflect not only the way that delivery is being put in place for these services in future, but also ensure that the money that is being allocated to them is able to be scrutinised so that we can see some clear outcomes coming from that. It has been a theme, Chair, of all Finance Committee scrutiny of budgets and supplementary budgets that we are concerned about outcomes and about transparency and accountability, and, of course, also about prevention, and I think that we still have some way to go until we can be fully happy that all the budgets that come before us meet the criteria that we apply to them in respect of those four tests. Thank you.

Cododd y pwylgor y mater—ac, unwaith eto, cyfeiriodd y Cadeirydd at hyn—o ran rhaglen lywodraethu'r Llywodraeth. Rydym ni'n gwybod mai dim ond 95 y cant o'r rhaglen honno sydd wedi ei chyflawni, a byddem wedi disgwyl, rwy'n credu, y byddai unrhyw gyllideb atodol, yn enwedig mor hwyr â hyn yn y flwyddyn, yn dyrannu arian ychwanegol ac yn cael ei chlustnod i'n eglur i geisio dechrau'r cyflawni'r 5 y cant sy'n weddill. Unwaith eto, nid yw'n ymddangos bod hynny wedi digwydd, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig bod eglurder yn y fan honno hefyd a rhyw faint o dryloywder ynghylch hynny.

Yn olaf, Gadeirydd, roeddwn i eisiau bod yn deg i argymhelliaid y pwylgor o ran y ddarpariaeth ar gyfer llochesi a gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol. Rwy'n croesawu'n fawr y dyriadau ychwanegol sydd wedi ei wneud ar gyfer y gwasanaethau penodol hynny. Mae pwylgorau eraill wedi derbyn tystiolaeth i'r perwyl bod amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau hyn yn annerbyniol ac, mewn rhai achosion, mae menywod yn cael eu gwrrhod, a cheir pryderon am y ffordd y mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu. Maen nhw wedi eu codi gyda'r Gweinidog perthnasol, ac mae ef yn sôn am symud i ddull rhanbarthol o ddarparu, yr wyf yn credu y gallai ymdrin â hynny, ond rwy'n credu bod angen i ni weld hynny'n cael ei adlewyrchu yn y gyllideb hefyd, ac rwy'n credu, ar gyfer cyllidebau'r dyfodol—ac nid yw hwn yn fater ar gyfer y gyllideb atodol hon—bod angen i gyllideb yn y dyfodol, rwy'n credu, fyfyrion idyn yn unig ar y ffordd y mae'r ddarpariaeth honno'n cael ei rhoi ar waith ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y dyfodol, ond hefyd sicrhau y gallir craffu ar yr arian sy'n cael ei ddyrannu iddyn nhw fel y gallwn ni weld canlyniadau eglur yn dod o hynny. Mae wedi bod yn tema, Gadeirydd, o holl waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gyllidebau a chyllidebau atodol ein bod yn pryeru am ganlyniadau ac am dryloywder ac atebolwydd, ac, wrth gwrs, am atal hefyd, a chredaf fod gennym ni grym dipyn i'w wneud o hyd cyn y gallwn fod yn gwbl hapus bod yr holl gyllidebau a ddaw ger ein bron yn bodloni'r meinu prawf yr ydym yn eu defnyddio ar eu cyfer o ran y pedwar prawf hynny. Diolch.

15:19

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister for Finance and Government Business to respond to the debate.

15:19

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, acting Presiding Officer. At the beginning of this administration, we created the most ambitious and comprehensive government programme for Wales since devolution, and we did so accepting that the outlook for public finances would present a challenge. And I think it is important just to put on record today, again, the context, because our response to austerity has been the biggest test for the Welsh Government, and devolution as a whole. The impact of the UK Government's austerity measures has been particularly stark. Our budget has been cut by around 8 per cent in real terms since 2011, and the challenge this year is no different.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Ar ddechrau'r weinyddiaeth hon, lluniwyd y rhaglen lywodraethu fwyaf uchelgeisiol a chynhwysfawr gennym i Gymru ers datganoli, a gwnaethom hynny gan dderbyn y byddai'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn her. Ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i'w roi ar goedd heddiw, unwaith eto, y cyd-destun, gan mai ein hymateb i gyni cyllidol fu'r prawf mwyaf i Lywodraeth Cymru, ac i ddatganoli yn ei gyfanwydd. Mae effaith mesurau cyni cyllidol Llywodraeth y DU wedi bod yn arbennig o lym. Torrwyd ein cyllideb tua 8 y cant mewn termau real ers 2011, ac nid yw'r her eleni ddim gwahanol.

We have delivered by maintaining a firm focus on delivery and supporting those most in need by setting four overarching priorities on behalf of the people of Wales: on health, and health services; educational attainment; growth and jobs; and supporting children, families and deprived communities. We have been consistently clear about our priorities in the programme for government. In terms of demonstrating our commitment to those priorities through our budget decisions, keeping a close eye on progress—. But of course the annual budget is the best time to make changes to reflect changes. So, the supplementary budget, as I said in committee, is part of our in-year management, focusing on how we manage those budgets to respond to emerging pressures and opportunities.

But looking at this in the context of our programme for government, I do believe the additional allocations we're making in this supplementary budget, including the additional funding for health and education, clearly align with our stated priorities. If we look at the additional funding for health, which has been welcomed today and has been welcomed again this afternoon in this Chamber, the additional allocations in this budget are to support improvements in NHS performance during this financial year, and to help maintain safe services during the winter. This non-recurrent investment is helping the NHS to respond to record levels of demand for unscheduled care, which have been particularly evident in emergency departments since Christmas. The funding of £45 million was provided to drive initiatives within the service and target improving performance in 2015–16, and that's included targeting a reduction in the number of long-waiting referral-to-treatment and diagnostic patients by the end of March, and health boards undertaking additional activity to ensure these reductions are achieved.

But I think it's important, you know, that local delivery targets have been agreed with each health board for the balance of that £13.8 million to support a number of treatments this year. Those are used, the treatments, for hepatitis C—Sofosbuvir—and a new treatment for atypical haemolytic uremic syndrome, and that funding has been used to treat approximately 350 patients in the last five months, expected to rise to 450 patients by the end of this financial year. Again, it's very important that we put that on record, I believe, again today.

Important points have been made by Members this afternoon. Again, I've made it clear how we've allocated to support and respond to flood events and to improve our flood defences, and of course, as John Griffiths said, that can be reflected in terms of allocations into the next financial year. It's very important today, International Women's Day, that we recognise that additional capital allocation to the domestic abuse action within the local government main expenditure group, and the fact that we have shown, again, our commitment to tackling domestic abuse and violence against women, and ways in which we can assist those organisations supporting women and their children in terms of the abuse, the unacceptable and horrific abuse, that so many women, unfortunately, are still experiencing.

Rydym ni wedi cyflawni gan gadw pwyslais cadarn ar ddarparu a chefnogi'r rhai sydd mewn angen trwy bennu pedair blaenoriaeth gyffredin ar ran pobl Cymru: ar iechyd, a gwasanaethau iechyd; cyrhaeddiad addysgol; twf a swyddi; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Rydym ni wedi bod yn gyson eglur yngylch ein blaenoriaethau yn y rhaglen lywodraethu. O ran dangos ein hymrwymiad i'r blaenoriaethau hynny drwy ein penderfyniadau cyllideb, cadw llygad barcud ar gynnydd —. Ond wrth gwrs y gyllideb flynyddol yw'r amser gorau i wneud newidiadau i adlewyrchu newidiadau. Felly, mae'r gyllideb atadol, fel y dywedais yn y pwylgor, yn rhan o'n rheolaeth yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwytio ar sut yr ydym ni'n rheoli'r cyllidebau hynny i ymateb i bwysau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Ond o edrych ar hyn yng nghyd-destun ein rhaglen lywodraethu, rwy'n credu bod y dyraniadau ychwanegol yr ydym ni'n eu gwneud yn y gyllideb atadol hon, gan gynnwys y cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd ac addysg, yn cyd-fynd yn eglur â'n blaenoriaethau datganedig. Os edrychwn ni ar y cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd, sydd wedi ei groesawu heddiw ac wedi ei groesawu eto y prynhawn yma yn y Siambwr hon, mae'r dyraniadau ychwanegol yn y gyllideb hon ar gyfer cefnogi gwelliannau berfformiad y GIG yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac i helpu i gynnal gwasanaethau diogel yn ystod y gaeaf. Mae'r buddsoddiad achlysurol hwn yn helpu'r GIG i ymateb i'r lefelau uchaf erioed o alw am ofal heb ei drefnu, sydd wedi bod yn arbennig o amlwg mewn adrannau achosion brys ers y Nadolig. Darparwyd y cyllid o £45 miliwn i fwrw ymlaen â mentrau o fewn y gwasanaeth a thargedu gwella perfformiad yn 2015–16, ac mae hynny wedi cynnwys targedu gostyngiad i nifer y cleifion o atgyfeiriad i driniaeth a diagnostig sydd wedi bod yn aros ers amser maith erbyn diwedd mis Mawrth, a byrddau iechyd yn cyflawni gweithgarwch ychwanegol i sicrhau bod y gostyngiadau hyn yn cael eu cyflawni.

Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig, wyddoch chi, bod targedau cyflawni lleol wedi eu cytuno gyda phob bwrdd iechyd ar gyfer gweddill y £13.8 miliwn hwnnw i gefnogi nifer o driniaethau eleni. Defnyddir y rheini, y triniaethau, ar gyfer hepatitis C—Sofosbuvir—a thriniaeth newydd ar gyfer syndrom wremig hemolytic annodwediadol, a defnyddiwyd y cyllid hwnnw i drin tua 350 o gleifion yn y pum mis diwethaf, a disgwylir iddo godi i 450 o gleifion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Unwaith eto, mae'n bwysig iawn ein bod yn rhoi hynny ar y cofnod, rwy'n credu, unwaith eto heddiw.

Gwnaed pwyntiau pwysig gan yr Aelodau y prynhawn yma. Unwaith eto, rwyf wedi ei gwneud yn eglur sut yr ydym ni wedi dyrannu i gefnogi ac ymateb i lifogydd ac i wella ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd, ac wrth gwrs, fel y dywedodd John Griffiths, gellir adlewyrchu hynny o ran dyraniadau i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'n bwysig iawn heddiw, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ein bod yn cydnabod y dyraniad cyfalaф ychwanegol yna i'r camau cam-drin domestig o fewn y prif grŵp gwariant llywodraeth leol, a'r ffath ein bod wedi dangos, unwaith eto, ein hymrwymiad i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod, a ffyrdd y gallwn helpu'r sefydliadau hynny sy'n cefnogi menywod a'u plant o ran y cam-drin, y cam-drin annerbyniol ac arswydus, y mae cynifer o fenywod, yn anffodus, yn dal i'w ddioddef.

Finally, I'd say, acting Deputy Presiding Officer, that we have had a challenge this year. The Chancellor announced cuts of £42.5 million revenue and £7.4 million capital in last summer's budget, and Assembly Members may have forgotten that occasion, but through careful financial management and a considered approach we absorbed those cuts in this current year, negating the impact on future plans as well as in this financial year in terms of our budget. I know you will have welcomed that. Other devolved administrations have deferred their share of cuts into 2016-17.

We've talked about the Treasury this afternoon; the controls that the Treasury impose upon us make it a difficult environment for us to plan effectively. Despite this, the additional allocations we are making in this supplementary budget are significant, and clearly align with our stated priorities and the commitments we made in our programme for government back in 2011.

Yn olaf, byddwn yn dweud, Ddirprwy Lywydd dros dro, ein bod ni wedi cael her eleni. Cyhoeddodd y Canghellor doriadau o £42.5 miliwn o refeniw a £7.4 miliwn o gyfalaif yng nghyllideb yr haf diwethaf, ac efallai fod Aelodau'r Cynulliad wedi anghofio'r achlysur hwnnw, ond drwy reolaeth ariannol ofalus ac agwedd ystyriol, amsugwyd y toriadau hynny gennym yn y flwyddyn gyfredol, gan negyddu'r effaith ar gynlluniau yn y dyfodol yn ogystal ag yn y flwyddyn ariannol hon o ran ein cyllideb. Gwn y byddwch wedi croesawu hynny. Mae gweinyddiaethau datganoledig eraill wedi gohirio eu cyfran o doriadau i mewn i 2016-17.

Rydym ni wedi siarad am y Trysorlys y prynhawn yma; mae'r rheolaethau y mae'r Trysorlys yn eu gorfodi arnom ni yn gwneud hwn yn amgylchedd anodd i ni gynllunio'n effeithiol. Er gwaethaf hyn, mae'r dyraniadau ychwanegol yr ydym ni'n eu gwneud yn y gyllideb atodol hon yn sylweddol, ac yn cyd-fynd yn eglur â'n blaenoriaethau datganedig a'r ymrwymiadua a wnaed gennym yn ein rhaglen lywodraethu yn ôl yn 2011.

15:25 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. Felly, y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Felly, fe ohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Daeth y Llywydd i'r Gadair.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Voting deferred until voting time.

The Presiding Officer took the Chair.

15:25 **7. Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2016-17**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 7, which is a debate on the final budget 2016-17. I call on the Minister for finance—Jane Hutt.

Cynnig NDM5986 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-2017 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 1 Mawrth 2016.

Cynigiwyd y cynnig.

7. Debate on the Final Budget 2016-17

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr at eitem 7, sef dadl ar gyllideb derfynol 2016-17. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid—Jane Hutt.

Motion NDM5986 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.25:

Approves the Annual Budget for the financial year 2016-2017 laid in the Table Office by the Minister for Finance and Government Business on 1 March 2016.

Motion moved.

Llywydd, over the past six years, the United Kingdom as a whole has seen an unprecedented tightening of its public finances, and Wales has not been exempt from the scale of cuts imposed by the UK Government. During that time, as a Welsh Labour Government, we have striven to mitigate the effect of budget cuts on our public services and the people who depend on them. In taking tough budget decisions, we've been guided by our principles and commitment to deliver what the people of Wales want—a caring society with a shared commitment to supporting our public services—and to support a sustainable economy with a programme of infrastructure investment and a commitment to skills and growth.

Today, I'm presenting a budget that continues to invest in our priorities for Wales. It would be good if I could say that the tough times are over, but our budget will be 3.6 per cent lower in real terms by 2019-20 than it is today, and the signs are that the Chancellor will announce further cuts to public spending in the budget next week, and this will hit Wales hard.

Contrast continuing austerity with the choices we have made for Wales. We're taking a difference course, using all the levers and investment available to support our priorities. We have chosen to invest in health and social care. We have chosen to invest across our education system to develop ambitious and capable learners regardless of background. We have chosen to sustain our approach to prevention. We have chosen to invest in our ambitions for Wales.

But, as I said, there are more tough financial challenges ahead, and that's why we continue to press the UK Government on a number of important matters including progress on fiscal devolution, which is pivotal to our ambitions for Wales.

It is encouraging that the UK and Scottish Governments have reached agreement on the fiscal framework for Scotland, and I know you will be supportive of my negotiation with the UK Government to reach agreement on our fiscal framework to underpin our future funding arrangements for the long term. Today, I wrote to the Chief Secretary to the Treasury underlining the key areas where we need to reach agreement—a long-lasting solution to fair funding, a framework for our capital and revenue borrowing powers, and new budgetary arrangements and methodologies for adjusting the Welsh block grant to reflect Wales's fiscal powers.

I've also written to the Chancellor ahead of his budget. We want to see real progress on our ambitions for city deals in Wales and the Swansea bay tidal lagoon, as well as continuing to press on the devolution of air passenger duty to Wales—equal treatment for Wales in line with Scotland and Northern Ireland.

Llywydd, dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd wedi gweld tynhau digynsail ar ei chyllid cyhoeddus, ac nid yw Cymru wedi'i heithrio rhag maint y toriadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Yn ystod y cyfnod hwnnw, fel Llywodraeth Lafur Cymru, rydym wedi ymdrechu i lliniaru effaith y toriadau yn y gyllideb ar ein gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n dibynnu arny'n nhw. Wrth wneud penderfyniadau cyllidebol anodd, rydym wedi cael ein harwain gan ein hegwyddorion a'n hymrwymiad i ddarparu'r hyn y mae pobl Cymru ei eisiau—cymdeithas ofalgar gydag ymrwymiad a rennir i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus—ac i gefnogi economi gynaliadwy drwy raglen o fuddsoddi mewn seilwaith ac ymrwymiad i sgiliau a thwf.

Heddiw, rwy'n cyflwyno cyllideb sy'n parhau i fuddsoddi yn ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru. Byddai'n dda pe byddai modd i mi ddweud bod y cyfnod anodd ar ben, ond bydd ein cyllideb 3.6 y cant yn llai mewn termau real erbyn 2019-20 nag ydyw heddiw, ac mae'n ymddangos y bydd y Canghellor yn cyhoeddi toriadau pellach i wariant cyhoeddus yn y gyllideb yr wythnos nesaf, a bydd hyn yn ergyd fawr i Gymru.

Gallwch gyferbynnu'r cyni parhaus hwn gyda'r dewisiadau yr ydym ni wedi'u gwneud ar gyfer Cymru. Rydym yn dilyn llwybr gwahanol, gan ddefnyddio'r holl ysgogiadau a buddsodiadau sydd ar gael i gefnogi ein blaenoriaethau. Rydym wedi dewis buddsoddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi dewis buddsoddi ym mhob rhan o'n system addysg i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym wedi penderfynu cynnal ein dull o atal. Rydym wedi dewis buddsoddi yn ein huchelgeisiau i Gymru.

Ond, fel y dywedais, mae mwy o heriau cyllidol anodd o'n blaenau, a dyna pam yr ydym yn parhau i bwysio ar Lywodraeth y DU ynghylch nifer o faterion pwysig gan gynnwys cynnydd o ran datganoli cyllidol, sy'n ganolog i'n huchelgais ar gyfer Cymru.

Mae'n galonogol bod y DU a Llywodraeth yr Alban wedi dod i gytundeb ar y fframwaith cyllidol ar gyfer yr Alban, ac rwyf yn gwybod y byddwch yn cefnogi fy nhrafodaeth gyda Llywodraeth y DU i ddod i gytundeb ynglŷn â'n fframwaith cyllidol ni fel sail i'n trefniodau cyllido yn y dyfodol ar gyfer y tymor hir. Heddiw, ysgrifennais at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn tanlinellu'r meysydd allweddol lle mae angen i ni ddod i gytundeb—datrysiaid hirdymor ar gyfer cyllido teg, fframwaith ar gyfer ein pwerau benthyca cyfalafr a refeniw, a threfniadau a methodoleg gyllidebol newydd ar gyfer addasu grant bloc Cymru i adlewyrchu pwerau cyllidol Cymru.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Canghellor cyn ei gyllideb. Rydym yn dymuno gweld cynnydd gwirioneddol o ran ein huchelgeisiau ar gyfer ein cytundebau dinasoedd yng Nghymru a'r morlun llanw ym mae Abertawe, yn ogystal â pharhau i bwysio ynglŷn â datganoli toll teithwyr awyr i Gymru—triniaeth gyfartal ar gyfer Cymru, yn unol â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

I refer to the record of achievement of this Welsh Government. Let's reflect on it—over £1 billion additional funding invested in the NHS over the last three years, and next year investing over £300 million more in our health services, bringing our total investment in our health service next year to £7 billion, the highest it has ever been. The recent OECD report into the quality of healthcare in Wales, Scotland, England and Northern Ireland highlighted where other nations can learn from Wales. It silenced those detractors claiming that any one nation has a second-rate NHS compared to others.

The social care workforce also know we value them, and we're investing an additional £21 million next year to social services through the local government settlement. The most recent Treasury figures show that health and social services spending in Wales is 7 per cent higher per head than in England, and it's increased faster over the last year than in any other part of the UK. We had already announced that we're increasing the pioneering intermediate care fund next year from £20 million to £50 million. With the extra £10 million capital boost I announced last month, the fund will now stand at record levels—£60 million available to support service transformation and new ways of delivering the services people want and need.

Education is a cornerstone of our country's success. We have protected front-line spending for schools by 1 per cent above changes to our settlement overall in each year of this administration. The pupil deprivation grant will also increase to £1,150 per eligible pupil in 2016–17, in accordance with our budget agreement with the Welsh Liberal Democrats. We all depend on our families and communities to help us to get the best start in life and to fulfil our potential. That's why we continue to invest in Flying Start—£77 million being provided next year—and latest figures show that we are on track to deliver our commitment to provide Flying Start support to 36,000 children for the second year running.

We're also protecting funding for the Supporting People programme and investing more in our concessionary fares, school breakfasts, prescriptions and measures to tackle fuel poverty. As I've said, this is a Government determined to boost growth and jobs. We've levered around £4 billion additional infrastructure investment through the Wales infrastructure investment plan, and this includes the significant capital package of £120 million I announced last month to support a range of pan-Wales projects in line with our priorities.

Cyfeiriaf at gyflawniadau'r Llywodraeth hon yng Nghymru. Gadewch i ni fyfyrion arnynt—buddsoddi dros £1 biliwn o gyllid ychwanegol yn y GIG dros y tair blynedd ddiwethaf, a'r flwyddyn nesaf, buddsoddi dros £300 miliwn ychwanegol yn ein gwasanaethau iechyd, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd. Yn flwyddyn nesaf i £7 biliwn, yr uchaf y bu erioed. Yn adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar ansawdd gofal iechyd yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, amlygydwl lle y gall gwledydd eraill ddysgu oddi wrth Gymru. Rhoddodd daw ar y bobl ddilornus hynny oedd yn nodi bod gan unrhyw un wlad benodol Wasanaeth iechyd Gwladol eilradd o'i gymharu â gwledydd eraill.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol hefyd yn gwybod ein bod yn eu gwerthfawrogi, ac rydym yn buddsoddi £21 miliwn ychwanegol y flwyddyn nesaf yn y gwasanaethau cymdeithasol trwy'r setliad llywodraeth leol. Mae ffigurau diweddaraf y Trysorlys yn dangos bod gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru 7 y cant yn uwch fusel pen nag yn Lloegr, ac y mae wedi cynyddu'n gyflymach y llynedd nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bod yn cynyddu'r gronfa gofal canolraddol arloesol y flwyddyn nesaf o £20 miliwn i £50 miliwn. Gyda'r hwb ychwanegol o £10 miliwn mewn cyfalafr a gyhoeddais y mis diwethaf, bydd y gronfa bellach yn sefyll ar ei lefel uchaf erioed—£60 miliwn ar gael i gefnogi gweddnewid gwasanaethau a chyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl eu heisiau a'u hangen.

Mae addysg yn gonglafan llwyddiant ein gwlad. Rydym wedi diogelu gwariant rheng flaen ar gyfer ysgolion sydd 1 y cant yn uwch na'r newidiadau i'n setliad yn gyffredinol ym mhob blwyddyn o'r weinyddiaeth hon. Bydd y grant amddifadedd disgylion hefyd yn cynyddu i £1,150 fusel disgylion cymwys yn 2016–17, yn unol â'n cytundeb cyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rydym i gyd yn dibynnu ar ein teuluoedd a'n cymunedau i'n helpu i gael y dechreud gorau mewn bywyd ac i gyflawni ein potensial. Dyna pam yr ydym yn parhau i fuddsoddi yn Dechrau'n Deg—£77 miliwn yn cael ei ddarparu y flwyddyn nesaf—ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad i ddarparu cymorth Dechrau'n Deg i 36,000 o blant am yr ail flwyddyn yn olynol.

Rydym hefyd yn diogelu cyllid ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl ac yn buddsoddi mwy yn ein tocynnau teithio rhatach, brecwastau mewn ysgolion, presgripsiynau a'n mesurau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Fel yr wyf wedi'i ddweud, mae hon yn Llywodraeth sy'n benderfynol o hybu twf a swyddi. Rydym wedi denu buddsoddiad seilwaith ychwanegol o oddeutu £4 biliwn drwy'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru, ac mae hyn yn cynnwys pecyn cyfalafr sylwedol o £120 miliwn a gyhoeddais y mis diwethaf i gefnogi ystod o brosiectau Cymru gyfan yn unol â'n blaenoriaethau.

Investment in both flood defence infrastructure and making our communities more resilient to flooding is a priority. Since 2011, we've committed almost £300 million, including European funding, to managing flood risk, and an additional £150 million will be invested in coastal risk management from 2018. The flooding events this winter highlight the importance of continuing to invest in our flood defences. In addition to our recent announcement to provide immediate support, I'm announcing today a further £10.7 million for flood-related works, with £5 million being allocated in 2016-17 to accelerate priority schemes within the flood and coastal risk management programme. And this will include schemes and improvements in Conwy, Blaenau Gwent, Carmarthenshire, Gwynedd, Neath Port Talbot and Denbighshire. This is in addition to the new flood alleviation works at Tal-y-bont, complementing the support we're providing to local authorities hit by the December storms.

Mae buddsoddi yn y seiwaith amddiffyn rhag llifogydd a gwneud ein cymunedau'n gryfach i wrthseffyll llifogydd yn flaenorïaeth. Er 2011, rydym wedi ymrwymo bron i £300 miliwn, gan gynnwys cyllid Ewropeidd, i reoli'r perygl o llifogydd, ac mae £150 miliwn yn ychwanegol yn cael ei buddsoddi ar gyfer rheoli risg arfordirol o 2018 ymlaen. Roedd y llifogydd y gaeaf hwn yn amlyu pwysigrwydd parhau i buddsoddi yn ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd. Yn ychwanegol at ein cyhoeddiad diweddar i roi cymorth ar unwaith, rwy'n cyhoeddi heddiw £10.7 miliwn ychwanegol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â llifogydd, gyda £5 miliwn yn cael ei ddyrannu yn 2016-17 i gyflymu cynlluniau blaenorïaeth o fewn y rhaglen rheoli risg llifogydd ac arfordirol. A bydd hyn yn cynnwys cynlluniau a gwelliannau yng Nghonwy, Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith lliniaru llifogydd newydd yn Nhal-y-bont, sy'n ategu'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu i awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt gan y stormydd ym mis Rhagfyr.

Llywydd, we are a Government that listens to the views of the people of Wales and our partners, drawing on all of the available evidence to shape our plans. It's been warmly welcomed that we've allocated £2.5 million top-up funding for those local authorities facing the greatest year-on-year reductions to their settlement. We've also allocated an additional £10 million to the higher education sector next year to bolster support for part-time provision, capacity building and excellence in research, and have also agreed that the planned transfer of the tuition fee grant in 2016-17 will not proceed at this point.

Lywydd, rydym yn Llywodraeth sy'n gwrando ar farn pobl Cymru a'n partneriaid, gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i ni i lunio ein cynlluniau. Cafwyd croeso cynnes i'r ffaith ein bod wedi dyrannu £2.5 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n wynebu'r gostyngiadau mwyaf o un flwyddyn i'r llall i'w setliad. Rydym hefyd wedi dyrannu £10 miliwn ychwanegol i'r sector addysg uwch y flwyddyn nesaf i gryfhau'r cymorth i ddarpariaeth ran-amser, cynyddu gallu a rhagoriaeth mewn ymchwil, ac rydym hefyd wedi cytuno na fydd trosglwyddiad arfaethedig y grant ffioedd dysgu yn 2016-17 yn digwydd ar hyn o bryd.

This is a Government delivering for the people of Wales, securing our public finances despite relentless cuts by the UK Government. Our final budget delivers on our commitment to a fairer, better Wales, investing for the future.

Mae hon yn Llywodraeth sy'n cyflawni dros bobl Cymru, gan sicrhau ein cyllid cyhoeddus er gwaethaf toriadau dibaid gan Lywodraeth y DU. Mae ein cyllideb derfynol yn cyflawni ein ymrwymiad i greu Cymru well a thecach, drwy buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

15:32

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, I'm pleased to hear the commitment of the Minister to a fiscal framework. As you know, I also believe we should have a fiscal framework and reform to the Barnett formula. I'm afraid to say I think that's probably where we then part company, Minister. The Welsh Conservatives—it will not surprise you to hear—will not be supporting the Welsh Government's budget for 2016-17, the sequel to last year's Welsh Government-Lib Dem budget. As is the case with so many sequels over the years, it doesn't quite hit the mark.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lywydd, rwy'n falch o glywed am ymrwymiad y Gweinidog i fframwaith cyllidol. Fel y gwyddoch, rwyf innau hefyd yn credu y dylai fod gennym fframwaith cyllidol a diwygiad i'r fformiwl Barnett. Rwy'n ofni ein bod yn anghytuno ar bethau o hynny ymlaen, Weinidog. Ni fydd y Ceidwadwyr Cymreig—ac ni fydd clywed hyn yn syndod i chi —yn cefnogi cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17, y dilyniant i gyllideb Llywodraeth Cymru a'r Democrataid Rhyddfrydol y llynedd. Fel sy'n wir gyda chymaint o ddilyniannau dros y blynyddoedd, nid yw'n taro deuddeg yn hollol.

The draft budget showed a £245 million increase in resource spending on health and social services, thanks to an additional £260 million in funding for the delivery of core NHS services. But all this, of course, is against the backdrop of five years of cuts to the Welsh health service. In fact, spending on the NHS has fallen by over 2 per cent since 2010-11. I know that the Welsh Government and the Minister like to say that spending on the NHS is higher per head here than in England. Well, it may have been, but the real question is the relative growth of the health budget over time—over that five years—and, as you know, we have big concerns about that.

As the Nuffield Trust has shown, health spending per capita in Wales remains £50 lower than in England, adjusted for age. As Cardiff and Vale University Local Health Board have stated,

'When we received news of our allocation, we were then able to set that against all of those costs, and for us, we're left with around about £26 million of efficiency still to find.'

And there is, of course, a question mark over whether this money is going to achieve its aim anyway. As conclusion 3 of the Finance Committee's report makes clear, and as I mentioned in the previous debate, the committee did not receive sufficient evidence that this year's additional funding will lead to significant reform and service improvements, rather than simply compensating for overspends—effectively, a bail-out.

Minister, isn't it the case that piecemeal funding of the Welsh NHS, which we have come to expect from this Government, is no substitute at the end of the day for a properly funded, properly protected NHS budget? Yes, we welcome additional funds to the NHS—of course we do—but let's have a proper long-term strategy. Let's have protection of the health budget. We welcome more investment in the NHS, but why has it taken until now? These sums will not make up for previous cuts.

Dangosodd y gyllideb ddrafft gynnydd o £245 miliwn mewn gwariant ar adnoddau ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, diolch i £260 miliwn ychwanegol mewn cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG. Ond mae hyn i gyd, wrth gwrs, yn digwydd yng nghyd-destun pum mlynedd o doriadau i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mewn gwirionedd, mae gwariant ar y GIG wedi gostwng gan dros 2 y cant ers 2010-11. Gwn fod Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn hoffi dweud bod gwariant ar y GIG yn uwch fesul pen yma nag yn Lloegr. Wel, efallai y bu hynny'n wir, ond y cwestiwn mewn gwirionedd yw twf cymharol y gyllideb iechyd dros gyfnod o amser—dros y pum mlynedd hynny—ac, fel y gwyddoch, mae gennym bryderon mawr ynglŷn â hynny.

Fel y mae Ymddiriedolaeth Nuffield wedi ei ddangos, mae gwariant ar iechyd fesul pen yng Nghymru yn parhau i fod £50 yn is nag yn Lloegr, wedi'i addasu ar gyfer oedran. Fel y mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi nodi,

Pan gawsom y newyddion am ein dyraniad, roeddem wedyn yn gallu gosod hynny yn erbyn yr holl gostau hynny, ac i ni, rydym yn dal i fod angen dod o hyd i oddeutu £26 miliwn o arbedion effeithlonrwydd.

Ac mae cwestiwn, wrth gwrs, ynghylch pa un a yw'r arian hwn yn mynd i gyflawni ei nod beth bynnag? Fel y mae casgliad 3 yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ei amlygw, ac fel y soniais yn y ddadl flaenorol, ni dderbyniodd y pwylgor ddigon o dystiolaeth y byddai cyllid ychwanegol eleni yn arwain at ddiwygio sylweddol a gwellianau mewn gwasanaethau, yn hytrach na dim ond gwneud iawn am orwariant—mewn gwirionedd, achub croen.

Weinidog, onid yw'n wir nad yw cyllid tameidiog y GIG yng Nghymru (yr ydym wedi dod i'w ddisgwyl gan y Llywodraeth hon), yn y pen draw yn gallu cymryd lle cyllideb GIG wedi'i chyllido a'i diogelu yn iawn? Ydym, rydym yn croesawu arian ychwanegol i'r GIG—wrth gwrs ein bod ni—ond gadewch i ni gael strategaeth hirdymor briodol. Gadewch i ni ddiogelu'r gyllideb iechyd. Rydym yn croesawu mwy o fuddsoddiad yn y GIG, ond pam y mae wedi cymryd hyd at nawr? Ni fydd y symiau hyn yn gwneud iawn am y toriadau blaenorol.

Turning to education and skills, the changes the Welsh Government have announced to higher education sound great on the face of it. However, as we all know, and at least some of us acknowledge, the costs of the tuition fee subsidy in its current form is ultimately unsustainable. Cardiff University told the Finance Committee that the Welsh Government underestimated the amount of funds required by the tuition fee grant, which would see £20 million transferred from the Higher Education Funding Council for Wales's budget. I hear what the Minister has said in recent weeks in terms of changing some of these policy announcements, but the Welsh Government—the next Government—will have to face up to the fact that the higher education policies of the last five years are ultimately not sustainable in the future. As we know, there are many long-term negatives to cuts in HE funding. Cutting research funding can have an adverse effect on science, technology, engineering and mathematics subjects, which will, in turn, have repercussions for the future Welsh economy.

Whilst we welcome any additional funding for local government—and clearly there have been announcements on that in the last few weeks—the last-minute additional sums announced for Monmouthshire, Powys and Ceredigion do not mitigate the fact that these authorities are still facing the worst settlements and a 3 per cent cut, the latest in a number of cuts over recent years—and these are cumulative cuts and have cumulative effects. It's not good enough to say that local government is happy because it's not as bad as they were expecting. Well, I'm sure it's not as bad as they were expecting, but that does not mitigate the fact that they are facing huge cuts for another year running. And it's not just an overall cut. As we know, it's the lack of equity in the slicing up of the local government funding cake. As we know, rural authorities are consistently badly hit, year on year. It's quite clear to everyone, I think, with the exception of the Welsh Government, that the current local government funding formula is unfair. It needs revision. I recognise that cannot be done overnight. So, in the meantime, a rural stabilisation grant is essential, but, ultimately, we need reform of that unfair formula.

It's not just rural councils that are being penalised. This is another deeply worrying draft budget for Welsh agriculture. An over £3 million cash-term cut to the agriculture and food budget is more bad news for the nation's farmers and our rural communities, and the cut includes £0.5 million or so less to support the marketing of Welsh food and drink produce at a time when that really does need support.

As I've said, Minister, the Welsh Conservatives are unable to support this budget. We are the only party in the Assembly that has consistently stood up against Welsh Government cuts to vital areas of public services. In conclusion, Presiding Officer, this budget does not meet the needs of the people of Wales. It is a sticking plaster on the wound of previous budget cuts to our vital services. It is too little and it is too late.

Gan droi at addysg a sgiliau, y mae'r newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi i addysg uwch yn swniō'n wych ar yr wyneb. Fodd bynnag, fel yr ydym i gyd yn gwybod, ac mae o leiaf rhai ohonom yn ei gydnabod, mae costau'r cymhorthdal ffioedd dysgu ar ei ffurf bresennol yn anghynaladwy yn y pen draw. Dywedodd Prifysgol Caerdydd wrth y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi tanamcangyfrifo faint o arian sydd ei angen ar gyfer y grant ffioedd dysgu, a fyddai'n gweld £20 miliwn yn cael ei drosglwyddo o gyllideb y Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru. Ryw'n cydnabod yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud yn yr wythnosau diwethaf o ran newid rhai o'r cyhoeddiadau polisi hyn, ond bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru—Lywodraeth nesaf—wynebu'r ffaith nad yw polisiau addysg uwch y pum mlynedd diwethaf yn gynaliadwy yn y pen draw ar gyfer y dyfodol. Fel y gwyddom, mae llawer o elfennau negyddol hirdymor i doriadau i gyllid AU. Gall torri cyllid ymchwil gael effaith andwyl ar bynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a fydd, yn ei dro, yn effeithio ar economi Cymru yn y dyfodol.

Er ein bod yn croesawu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol—ac yn amlwg, bu cyhoeddiadau ynglŷn â hynny yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf—nid yw'r symiau ychwanegol munud olaf a gyhoeddwyd ar gyfer Sir Fynwy, Powys a Cheredigion yn lliniaru'r ffaith fod yr awdurdodau hyn yn dal i wynebu'r setliadau gwaethaf a thoriad o 3 y cant. Hwn yw'r diweddaraf mewn nifer o doriadau dros y blynnyddoedd diwethaf—ac mae'r rhain yn doriadau cronnol a chanddynt effeithiau cronnol. Nid yw'n ddigon da dweud bod llywodraeth lleol yn hapus am nad yw'r toriadau cyn waethed ag yr oeddent yn disgwyld iddynt fod. Wel, ryw'n siŵr nad ydnt cyn waethed ag yr oeddent yn ei ddisgwyld, ond nid yw hynny'n lliniaru'r ffaith eu bod yn wynebu toriadau enfawr am flwyddyn arall eto. Ac nid dim ond toriad cyffredinol yw hwn. Fel y gwyddom, y diffyg tegwch yw'r broblem wrth rannu cyllid llywodraeth leol. Fel y gwyddom, mae awdurdodau gwledig yn cael eu taro'n galed yn gyson, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n eithaf amlwg i bawb, ryw'n meddwl, ac eithrio Llywodraeth Cymru, bod y fformiwl a gyllido bresennol ar gyfer llywodraeth leol yn annheg. Mae angen ei hadolygu. Yr wyf yn cydnabod na ellir gwneud hynny dros nos. Felly, yn y cyfamser, mae grant sefydlogi gwledig yn hanfodol, ond, yn y pen draw, mae angen inni ddiwygio'r fformiwl a honno.

Nid dim ond cynhorau gwledig sy'n cael eu cosbi. Dyma gyllideb ddrafft arall sy'n achosi pryder ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae toriad o dros £3 miliwn o bunnoedd yn y gyllideb amaethyddiaeth a bwyd yn fwy o newyddion drwg i ffermwyr y genedl a'n cymunedau gwledig, ac mae'r toriad yn cynnwys oddeutu £0.5 miliwn yn llai i gefnogi marchnata cynyrrch bwyd a diod Cymru mewn adeg pan fo hynny wir angen cymorth.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, Weinidog, nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn gallu cefnogi'r gyllideb hon. Ni yw'r unig blaid yn y Cynulliad sydd sefyll yn gyson yn erbyn toriadau Llywodraeth Cymru i feysydd hanfodol o wasanaethau cyhoeddus. I gloi, Lywydd, nid yw'r gyllideb hon yn diwallu anghenion pobl Cymru. Dim ond poeri yn y môr yw hyn o' gymharu â thoriadau cyllidebau blaenorol i'n gwasanaethau hanfodol. Mae'n rhy ychydig ac mae'n rhy hwyr.

Diolch yn fawr am y cyfle i jest wneud ychydig o sylwadau ar y gyllideb derfynol. A gaf i ddechrau gyda'r newidiadau a wnaed i gyllideb Cyngor Cyllico Addysg Uwch Cymru—HEFCW? Rydym ni'n falch bod y Llywodraeth Lafur wedi gwrandio ar bryderon Plaid Cymru a phryderon y sector yn arbennig ynglŷn â'r effaith y buasai'r toriadau cychwynnol a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrabff wedi ei chael ar y sector addysg uwch. Mae'n rhaid dweud bod y cynigion hynny yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r sector a'i photensial a'i phwysigrwydd i Gymru. Wrth gwrs, mae'r Llywodraeth yn dal i dorri'r cyllid, ac mae swm sylwedol o'r toriadau yn cael eu hariannu trwy ddwyn ymlaen croneydd wrth gefn. Rwan, ateb tymor byr ydy hyn i bolisi sy'n parhau i fod yn anghynaladwy. Felly, mi fyddai'n ddiddorol gwybod beth ydy bwriad tymor hir y Llywodraeth yn y cyfeiriad yma.

Rydym yn troi at y gronfa gofal canolraddol. Rwy'n falch o weld bod polisiau Plaid Cymru, a gytunwyd yn y gyllideb dwy flynedd yn ôl, yn cael eu cyllido. Bydd hyn yn rhoi £10 miliwn o gyfalaf i ganolbwntio ar dai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, megis cyfleusterau i gefnogi byw'n annibynnol ac i leihau'r galw ar y gwasanaethau iechyd. Mae'r gwariant hwnnw wedi profi ei werth dros y blynnyddoedd diwethaf ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

O ran Cyngor Llyfrau Cymru, rydym hefyd yn croesawu tro pedol y Llywodraeth, eto yn dilyn pwysau gan y sector, gan awduron a'r sector gyhoeddi. Rydym yn falch iawn, ac yn croesawu, na fydd y gostyngiad arfaethedig i Gyngor Llyfrau Cymru yn digwydd.

O ran llywodraeth leol, roedd Plaid Cymru eisiau gweld grant sefydlogi gwledig a fuasai'n sicrhau na fyddai yna effaith anghymesur ar awdurdodau lleol gwledig y tro yma. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth ychwanegol o £2.5 miliwn i gefnogi awdurdodau lleol Powys, Ceredigion a Mynwy yn y flwyddyn 2016-17, ond go brin bod hynny'n mynd yn ddigon pell. Y gwir amdani, wrth gwrs, yw bod angen ailedrych ar y fformiwlâu. Rwy'n derbyn, yn sicr, ym mhob adolygiad fformiwlâu, fod yna enillwyr a chollwyr, a fydd pawb, yn sicr, ddim yn hapus efo unrhyw newid a ddaw, ond rwy'n meddwl bod angen i'r fformiwlâu adlewyrchu yr angen a'r gost wirioneddol, ac er mor anodd ydy hynny—ac nid wyf yn rhagdybio beth fydd y canlyniad—mae'n rhaid i'r fformiwlâu fod yn deg ac yn cael ei gweld i fod yn deg. Dyna sy'n bwysig.

O ran, wedyn, y gyllideb gyfalaf, rwyf eisiau tynnu sylw eto at y buddsoddiad yn yr M4. Mewn cyfnod lle mae'r Llywodraeth angen buddsoddi mewn projectau ledled Cymru, mae'r gyllideb yma yn canolbwntio pwerau benthyg y Llywodraeth ar un gornel yn unig o'r wlad. Mae angen sortio problemau yr M4, a hynny'n fuan, ond, am lawer o resymau, nid gwario £1 biliwn a throsodd ar un cynllun ydy'r ateb. Mae posibiliadau eraill, a dylid gweithredu ar hynny ar fyrdar yn achos yr M4, ond mae llawer iawn o angen, ym mhob rhan o Gymru, am gynlluniau cyfalaf, a dyna pam na fedrwn ni ddim cefnogi'r gyllideb yma. Nid ein cyllideb ni ydy hi, ac felly fyddwn ni ddim yn ei chefnogi hi. Diolch yn fawr.

Thank you for the opportunity to make a few comments on the final budget. I will start with the changes made to the budget of HEFCW. We are pleased that the Labour Government has listened to the concerns expressed by Plaid Cymru and the sector particularly on the impact that the initial cuts announced in the draft budget would have had on the higher education sector. I have to say that those proposals showed a lack of understanding of the sector and its potential and its importance to Wales. Of course, the Government is still cutting the funding, and much of those cuts are funded by bringing forward reserves, but that is a short-term solution to a policy that continues to be unsustainable. Therefore, it would be interesting to know what the Government's long-term intention is in this regard.

In turning to the intermediate care fund, I'm pleased to say that Plaid Cymru's policies, agreed in the budget two years ago, are to be funded. This will provide £10 million in capital, which will concentrate on housing, health and social services, such as facilities to support independent living and to reduce demands on health services. That expenditure has proven its value over the past few years and is very much appreciated.

With regard to the Welsh Books Council, we also welcome the Government's u-turn, once again following pressure from the sector, from authors and from the publishing houses. We are pleased and welcome the fact that the proposed cut to the Welsh Books Council will not now take place.

In terms of local government, Plaid Cymru wanted to see a rural stabilisation grant that would ensure that there wouldn't be a disproportionate effect on those rural authorities this time. We welcome the additional provision of £2.5 million to support Powys, Ceredigion and Monmouthshire local authorities in the year 2016-17, but it hardly goes far enough. The truth is that we do need to review the formula. Whilst I do expect that, in all reviews of formulae, there are winners and losers, and not everyone will be content with any change implemented, I do think that the formula needs to reflect the need and the real cost, and despite how difficult that is—and I wouldn't anticipate what the outcome would be—the formula does have to be fair and must be seen to be fair. That's the important thing.

In terms of the capital budget, I want to once again highlight the investment in the M4. In a period where the Government needs to invest in projects the length and breadth of Wales, this budget concentrates the Government's borrowing powers on one corner of the country. We do need to solve the problems of the M4, and we need to do that as soon as possible, but, for many reasons, spending £1 billion or more on one scheme is not the solution. There are other possibilities, and action should be taken on those as a matter of urgency in the case of the M4, but there is a great need, in all parts of Wales, for capital programmes, and that is why we cannot support the budget this afternoon. It's not our budget, and therefore we will not support it. Thank you.

Can I also welcome the final budget in front of us? I think that, clearly, it is much later than it should have been, because of the comprehensive spending review, but, of course, the Welsh Liberal Democrats have worked with the Welsh Government in terms of this budget, and we've done so to get specific gains, if you like—specific issues sorted out and which we think are very important and have been consistent over the term of this Assembly. So, the pupil deprivation grant, which the Minister referred to earlier, is now going up next year to £1,150 for every pupil on free school meals—money that will go directly to schools and which has already been proven to actually have a real benefit educationally and, of course, for those schools themselves. I think that that is starting to make a big difference in terms of raising standards and also helping schools to deal specifically with difficult issues around pupils who have been underperforming in the past. Since 2012, in fact, the extra money put into the pupil deprivation grant comes to £282 million going directly to schools, and I think that is a major achievement by a party with just five Assembly Members, being able to talk to the Government and to secure that sort of advantage for local schools. Every school in Wales virtually has benefited from that particular policy, and it is one that has been led by us as a party.

Of course, with regard to the deal we have with the Welsh Government around those specific issues, we have the introduction of the new early years pupil deprivation grant, which I think is particularly important in picking up younger children and trying to intervene very early on. And also, of course, we have the youth concessionary fares scheme—£5 million in 2015-16 and £9.7 million in 2016-17—which is there to help young people get reduced bus fares so they can go to work and training and education. I think that is also a very important scheme and one which I think will grow as take-up picks up.

We've supported through this budget a pilot for childcare support for students who are parents in further education, helping them to return to education by giving them the support they need and working with the National Union of Students on that. And of course, in this budget and the previous budget, we have 5,000 additional apprenticeships, which I think is very important, and no doubt that will be picked up in the next Assembly as well, with even further investment in those apprenticeships—getting people directly into work, giving them real experience and training and enabling them to take up jobs.

A gaf innau hefyd groesawu'r gyllideb derfynol sydd ger ein bron? Credaf, yn amlwg, ei bod yn llawer hwyrach nag y dylai fod, oherwydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Ond, wrth gwrs, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio'r gyllideb hon, ac rydym wedi gwneud hynny er mwyn sicrhau enillion penodol, os mynnwch chi—datrys materion penodol yr ydym yn credu eu bod yn bwysig iawn ac sydd wedi bod yn gyson dros dymor y Cynulliad hwn. Felly, y mae'r grant amddifadedd disgylion y cyfeiriodd y Gweinidog ato yn gynharach, bellach yn cynyddu y flwyddyn nesaf i £1,150 ar gyfer pob disgylion sy'n cael prydu ysgol am ddim—arian a fydd yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion ac sydd eisoes wedi profi i fod o fudd gwirioneddol yn addysgol ac, wrth gwrs, i'r ysgolion hynny eu hunain. Credaf fod hynny'n dechrau gwneud gwahaniaeth mawr o ran codi safonau a hefyd o ran helpu ysgolion i ymdrin yn benodol â materion anodd o ran disgylion sydd wedi bod yn tangyflawni yn y gorffennol. Er 2012, mewn gwirionedd, mae'r arian ychwanegol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y grant amddifadedd disgylion yn golygu bod £282 miliwn yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion, ac rwy'n credu bod hynny yn lwyddiant mawr gan blaidd sydd â dim ond pum Aelod Cynulliad, ei bod yn gallu siarad â'r Llywodraeth a sicrhau'r math hwnnw o fantais ar gyfer ysgolion lleol. Mae pob ysgol yng Nghymru fwy neu lai wedi elwa ar y polisi penodol hwnnw, ac mae'n bolisi sydd wedi'i arwain gennym ni fel plaid.

Wrth gwrs, o ran y cytundeb sydd gennym gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r materion penodol hynny, mae gennym y grant amddifadedd disgylion y blynnyddoedd cynnar newydd yn cael ei gyflwyno, sydd yn fy marn i yn hynod bwysig o ran nodi plant iau a cheisio ymyrryd yn gynnari iawn. A hefyd, wrth gwrs, mae gennym y cynllun tocynnau rhatach ar gyfer pobl ifanc—£5 miliwn yn 2015-16 a £9.7 miliwn yn 2016-17—sydd ar gael i helpu pobl ifanc i gael tocynnau bws rhatach fel y bo modd iddynt fynd i'r gwaith, i gael hyfforddiant neu i dderbyn addysg. Credaf fod hwnnw hefyd yn gynllun pwysig iawn ac yn un yr wyf yn meddwl y bydd yn tyfu wrth i'r niferoedd godi.

Rydym wedi cefnogi drwy'r gyllideb hon, cynllun arbrofol sy'n rhoi cymorth gofal plant i fyfyrwyr mewn addysg bellach sy'n rhieni, gan eu helpu i ddychwelyd i addysg drwy roi't cymorth sydd ei angen arnynt, a gweithio gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ar hynny. Ac wrth gwrs, yn y gyllideb hon a'r gyllideb flaenorol, mae gennym 5,000 o brentisiaethau ychwanegol, yr wyf i'n credu sy'n bwysig iawn. Nid oes amheuaeth y bydd mwy o bwyslais ar hynny yn y Cynulliad nesaf hefyd, gyda mwy fyth o fuddsoddiad yn y prentisiaethau hynny—sicrhau gwaith i bobl yn uniongyrchol, gan roi profiad a hyfforddiant gwirioneddol iddynt a'u galluogi i gael swyddi.

So, I think that this budget, although far from perfect, certainly contains a whole lot of elements that the Welsh Liberal Democrats have put into it, and therefore we will, of course, be allowing the budget to go through. It is not our budget—it is the Welsh Government's budget—but I'm also pleased that the Minister listened to the Welsh Liberal Democrats when we went to them and said that the impact on rural councils of the local government settlement was particularly severe and needed to be mitigated. And I'm pleased that that extra £2.5 million was put into the local government settlement to mitigate that for those three rural councils. I agree with the statements of other Members that there needs to be a look at the formula to make sure that funding is being distributed based on the latest data, but I think it's important to note that the outcome of that change is very difficult to predict. Of course, where you have a formula based on population, and you have a falling population, then, inevitably, a council is going to suffer as a result of that. But I think we do need to bring that data up to date.

I'm also pleased that the Minister listened to us; I know Kirsty Williams had a lot of meetings with her around higher education and trying to mitigate the impact of the transfer to the tuition fee grant. I think that policy will be difficult to sustain in the next Assembly, but I'm pleased that the Minister listened to Kirsty Williams and to the Welsh Liberal Democrats and ensured that that money was put back into higher education. I still have concerns about money being taken out of higher education at this stage, but I think we have pulled back some of that and I think this is better for that.

Welsh Liberal Democrats—we listen to our communities, which is why we've been able to deliver on our priorities in this budget and in previous budgets. We think it's important that the Government gets the basics right—that we invest in education, we invest in the health service, we invest in social services, again which is in this budget—and therefore, for that reason, Presiding Officer, the Welsh Liberal Democrats will be abstaining so that this budget can pass. Thank you.

Felly, credaf fod y gyllideb hon, er ei bod yn bell o fod yn berffaith, yn sicr yn cynnwys llawer iawn o elfennau y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi eu cyfrannu ati, ac felly byddwn ni, wrth gwrs, yn cymeradwyo'r gyllideb. Nid ein cyllideb ni yw hi—cyllideb Llywodraeth Cymru yw hi—ond rwyf hefyd yn falch bod y Gweinidog wedi gwrandio ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru pan aethon ni atyn nhw a dweud bod effaith y setliad llywodraeth leol ar gynghorau gwledig yn arbennig o lym a bod angen ei liniaru. Ac rwy'n falch bod y £2.5 miliwn ychwanegol hwnnw wedi'i gynnwys yn y setliad llywodraeth leol i liniaru hynny ar gyfer y tri chyngor gwledig hynny. Rwy'n cytuno â datganiadau Aelodau eraill fod angen edrych ar y fformiwlâu i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail y data diweddaraf, ond rwy'n credu ei fod yn bwysig nodi ei fod yn anodd iawn rhagweld canlyniad y newid hwnnw. Wrth gwrs, pan fo gennych fformiwlâu sy'n seiliedig ar boblogaeth, a phan fo'r boblogaeth honno'n gostwng, yna, yn anochel, bydd cyngor yn dioddef o ganlyniad i hynny. Ond rwy'n credu bod angen i ni ddiweddarau'r data hwnnw.

Rwyf hefyd yn falch bod y Gweinidog wedi gwrandio arnom ni; rwy'n gwylod bod Kirsty Williams wedi cael llawer o gyfarfod ydydd gyda hi ynglŷn ag addysg uwch ac i geisio lliniaru effaith trosglwyddiad y grant ffioedd dysgu. Rwy'n credu y bydd y polisi hwnnw yn anodd ei gynnal yn y Cynulliad nesaf, ond rwy'n falch bod y Gweinidog wedi gwrandio ar Kirsty Williams ac ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ac wedi sicrhau bod yr arian hwnnw yn cael ei roi yn ôl mewn addysg uwch. Mae gennylf bryderon o hyd am arian yn cael ei dynnu allan o addysg uwch ar y cam hwn, ond rwy'n credu ein bod wedi tynnu rhywfaint o hwnnw yn ôl ac rwy'n credu bod hyn yn well o'r herwydd.

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—rydym yn gwrandio ar ein cymunedau, a dyna pam yr ydym wedi gallu cyflawni ein blaenoraiethau yn y gyllideb hon ac mewn cyllidebau blaenorol. Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth yn cael y pethau sylfaenol yn iawn—ein bod yn buddsoddi mewn addysg, ein bod yn buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd, ein bod yn buddsoddi yn y gwasanaethau cymdeithasol, sydd hefyd yn y gyllideb hon—ac felly, am y rheswm hwnnw, Lywydd, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ymatal fel y caiff y gyllideb hon basio. Diolch.

15:46

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Hoffwn i hefyd groesawu'r ddadl heddiw ar gyllideb derfynol y Llywodraeth. Mae cyllideb nid yn unig yn gasgliad o rifau ond yn ddatganiad o'n gwerthoedd a'n huchelgeisiau. Mae'r gyllideb derfynol ger ein bron heddiw yn wirioneddol ddangos gwerthoedd Llywodraeth Lafur Cymru a'r uchelgeisiau sydd ganddi i bobl Cymru—uchelgeisiau a osodir yn erbyn y ffasâd oer o lymder a weinyddir gan y Torïaid yn San Steffan.

Mae'r gyllideb rŷm yn ei thrafod yma heddiw, heb amheuaeth, yn datgan ymrwymiad Llafur Cymru i ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus mae pobl Cymru'n gofalu'n fawr amdanynt—iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg cenedlaethau'r dyfodol.

Thank you, Presiding Officer. I would also like to welcome this afternoon's debate on the Government's final budget. A budget is not only a collection of numbers but also a statement of our values and ambitions. The final budget before us today truly shows the values of the Welsh Labour Government and the ambitions that it has for the people of Wales—ambitions that are set out against the cold facade of austerity pushed by the Conservatives in Westminster.

The budget that we're discussing this afternoon without doubt sets out Welsh Labour's commitment to fund the public services that the people of Wales care so much about—health, social care and education for the future generations.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ar yr economi, mae'r Llywodraeth yn gweithredu i ehangu'r cynllun rhyddhad ardethi busnesau bach am 12 mis. Bydd y cynllun yma yn lleihau cyfanswm taliadau trethi busnes yng Nghymru gan £90 miliwn yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r Llywodraeth, yn ychwanegol, hefyd yn cefnogi gwaith y dinas-ranbarthau a fydd yn hanfodol i ddatblygiad ein heconomyn y dyfodol. Rwyf hefyd yn croesawu'r buddsoddiad mewn projectau arian cyfalafr a fydd yn helpu busnesau Cymru i gyflawni yn y dyfodol a chreu swyddi i bobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym wasanaethau iechyd a chymdeithasol sy'n darparu ar gyfer anghenion pobl Cymru. Mae £293.5 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i gefnogi ysbytai, gofal cymunedol a sylfaenol, i ofalu am bobl hŷn ac er mwyn darparu gwell gwasanaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Bydd y gronfa gofal canolraddol hefyd yn cael ei chynyddu i £50 miliwn i gefnogi'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl hŷn a bregus drwy eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain, a'u hatal eu hanfon nhw i'r ysbyty ac i hwyluso eu rhyddhau yn gynnwr o'r ysbyty.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fuddsoddi yn addysg ein plant drwy ymrwymo i gynyddu'r gyllideb ysgolion 1 y cant yn uwch na'r cynnydd yn y grant bloc. Mae £10 miliwn yn ychwanegol yn ymrwymedig i gadw cost addysg uwch i lawr i fyfyrwyr o Gymru, a bydd addysg bellach hefyd yn elwa o £5 miliwn yn ychwanegol i greu 2,500 o brentisiaethau ychwanegol. Mae hefyd yn cynnwys £7.2 miliwn pellach i gynyddu'r grant amddifadedd disgylion o £1,050 i £1,150 i bob disgylb cymwys.

Over my five years in the Assembly, I've seen first-hand the impact of the Welsh Labour Government's investment in the people of Wales. When you walk around my constituency, you can see the positive changes that have been driven by the Government in education, health, housing, the economy and tackling poverty. Despite the challenges of the current economic climate and the fiscal and political trials that the Tory Westminster Government send our way, this budget that we are considering today continues in the Welsh Labour spirit—a budget that invests in the potential of the people of Wales.

I will be supporting this budget today and I hope that a Welsh Labour Government will continue to deliver better public services to the people of Wales long after my time here has come to an end. Diolch yn fawr.

On the economy, the Government is taking action to enhance the small business rate relief scheme for 12 months. This will reduce the rate payments made by businesses in Wales by £90 million in the ensuing year. The Government, in addition, is supporting the work of the city regions, which will be crucial to the development of our economy for the future. I also welcome the investment in capital projects, which will assist Welsh businesses to achieve their aims in the future and to create jobs for the people of Wales.

The Welsh Government is committed to ensuring that we do have health and social services that provide for the needs of the people of Wales. An additional £293.5 million is being allocated to support hospitals, community care and primary care, to look after older people and to provide enhanced services for people with mental health problems. The intermediate care fund will also be increased to £50 million to support the health service and social services to work together to support older and vulnerable people by assisting them to maintain their independence in their own homes, and prevent them from going into hospital and facilitate their release from hospital.

The Government continues to invest in our children's education by committing to enhance the schools budget by 1 per cent above the increase in the block grant. An additional £10 million is committed to keep the cost of higher education down for Welsh students, and further education will also benefit from an additional £5 million to create 2,500 additional apprenticeships. It also includes a further £7.2 million to enhance the pupil deprivation grant from £1,050 to £1,150 to all qualified students.

Yn ystod fy mhum mlynedd yn y Cynulliad, rwyf wedi gweld drosof fy hun effaith buddsoddiad Llywodraeth Llafur Cymru ym mhobl Cymru. Pan eich bod yn cerdded o amgylch fy etholaeth i, gallwch weld y newidiadau cadarnhaol sydd wedi'u sbarduno gan y Llywodraeth ym meysydd addysg, iechyd, tai, yr economi a threchu tlodi. Er gwaethaf heriau'r hinsawdd economaidd bresennol a'r treialon ariannol a gwleidyddol y mae'r Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan yn eu hanfon atom, mae'r gyllideb hon yr ydym yn ei thrafod heddiw yn parhau yn ysbyrd Llafur Cymru—cyllideb sy'n buddsoddi ym mhontensial pobl Cymru.

Byddaf yn cefnogi'r gyllideb hon heddiw, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru ymhell ar ôl i'm hamser yma ddod i ben. Diolch yn fawr.

15:50

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate—Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl—Jane Hutt.

Senedd.tv
[Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Llywydd, we're delivering through our budget our priorities for Wales. We're investing in our health and health services, in growth, in jobs, in educational attainment and in supporting our children, families and deprived communities. The additional funding we're allocating in our final budget, together with the extra investment I've announced today, reflect the importance we place on acting now and for the long-term interests of the people of Wales.

I've spoken of our record of delivery on public services. We also continue to lead the way with our commitment to create and sustain jobs. Let's just look at the facts, reflecting on the period covering devolution. The number of people in work in Wales increased by more than 200,000, or by 18 per cent, compared with 16 per cent in the UK. Gaps in employment inactivity rates relative to the UK have halved, and over the last year in Wales, the number of people in employment increased by 49,000 or 3.5 per cent and the employment rate increased by 2 per cent, compared to just under 1 per cent in the UK. Real disposable income per head across the UK increased by 3.5 per cent over the last year. Wales has shared in and contributed to that increase.

I'm glad that Nick Ramsay and Alun Ffred Jones recognised the importance of our cross-party approach to fiscal reform. In terms of fiscal reform, we have made significant progress towards securing fair funding for Wales. We're not there yet, but the UK Government announced a funding floor within the relative funding range identified by the Holtham commission. And there's no doubt that a Barnett floor, properly implemented, would deliver substantial additional resources to Wales over time. It would end the unreasonable and unacceptable threat of Barnett convergence that hangs over our public services. So, as I said, I continue to welcome the cross-party support for our long-term funding agreement—we talked about this in response to the First Minister's statement earlier on—to ensure we have a lasting solution to the issue of fair funding. That's why I've called on the UK Government to agree a long-term funding agreement. And it does need to sit within a new fiscal framework for Wales that outlines how the block grant will be adjusted to account for the revenues from devolved taxes in Wales. And it is important that we put that on record again in the context of this budget.

Lywydd, rydym yn cyflawni drwy ein cyllideb ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru. Rydym yn buddsoddi yn ein hiechyd a'n gwasanaethau iechyd, yn buddsoddi mewn twf, mewn swyddi, mewn cyrhaeddiad addysgol ac yn buddsoddi i gefnogi ein plant, ein teuluoedd a'n cymunedau difreintiedig. Mae'r cyllid ychwanegol yr ydym yn ei ddyrannu yn ein cyllideb derfynol, ynghyd â'r buddsoddiad ychwanegol yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw, yn adlewyrchu pa mor bwysig yw gweithredu dros fuddiannau pobl Cymru yn awr ac ar gyfer y tymor hir.

Rwyf wedi sôn am hanes ein cyflawniadau yng nghyddestun gwasanaethau cyhoeddus. Rydym hefyd yn parhau i arwain y ffordd gyda'n hymrwymiad i greu a chynnal swyddi. Gadewch i ni edrych ar y ffeithiau yn unig, gan fyfyrion ar y cyfnod datganoli. Mae nifer y bobl sydd mewn gwaith yng Nghymru wedi cynyddu mwy na 200,000, neu gan 18 y cant, o'i gymharu â 16 y cant yn y DU. Mae bylchau mewn cyfraddau anweithgarwch cyflogaeth o'u cymharu â'r DU wedi haneru, a dros y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru, mae nifer y bobl mewn cyflogaeth wedi cynyddu gan 49,000 neu 3.5 y cant a'r gyfradd gyflogaeth wedi cynyddu 2 y cant, o'i gymharu ag ychydig o dan 1 y cant yn y DU. Mae incwm gwario real fesul pen ar draws y DU wedi cynyddu 3.5 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Cymru wedi rhannu ac wedi cyfrannu at y cynnydd hwnnw.

Rwy'n falch fod Nick Ramsay ac Alun Ffred Jones yn cydnabod pwysigrwydd ein dull trawsbleidiol tuag at ddiwygio cyllidol. O ran diwygio cyllidol, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau cyllid teg i Gymru. Nid ydym yno eto, ond cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid gwaelodol o fewn yr ystod cyllid cymharol a nodwyd gan gomisiwn Holtham. Ac nid oes dwywaith y byddai llawr Barnett, o gael ei weithredu'n iawn, yn cyflwyno adnoddau ychwanegol sylweddol i Gymru dros gyfnod o amser. Byddai'n rhoi terfyn ar y bygythiad afresymol ac annerbyniol o gydgyfeirio Barnett sy'n gysgod dros ein gwasanaethau cyhoeddus. Felly, fel y dywedais, rwy'n parhau i groesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer ein cytundeb cyllid tymor hir—siaradasom am hyn mewn ymateb i ddatganiad y Prif Weinidog yn gynharach —er mwyn sicrhau bod gennym ateb parhaol i'r mater o ariannu teg. Dyna pam yr wyf wedi galw ar Lywodraeth y DU i gytuno ar cytundeb cyllid hirdymor. Ac y mae angen iddo fod oddi mewn i fframwaith cyllidol newydd i Gymru sy'n amlinellu sut y bydd y grant bloc yn cael ei addasu i gyfrif am y refeniw o drethi datganoledig yng Nghymru. Ac mae'n bwysig ein bod yn rhoi hynny ar gofnod eto yng nghyd-destun y gyllideb hon.

Let's just look at what we're up against. Experts, including the International Monetary Fund and Organisation for Economic Co-operation and Development and informed commentators such as Martin Wolf of the 'Financial Times' agree that the Government ought to take advantage of record low interest rates to invest in infrastructure, not to impose further austerity—the cold facade of austerity, as Keith Davies has said. Despite the UK Government cutting our capital budget by nearly a third in real terms, our focus on growth and jobs remains steadfast. Infrastructure is essential to improve productivity, pay and to support a balanced recovery, and we are on track to deliver around £4 billion of new investment through the Wales infrastructure investment plan since it was launched in 2012.

But, Llywydd, the stark reality of 2016 is that we've had to defend Wales. We've had to defend Wales as a Welsh Labour Government against sustained political attack by the UK Tory Government—attacks on our Welsh health services and all who work in them; the undermining of our education services, which delivered the best GCSE results last year; and, more crucially for this debate, attacks on our public finances with continued and needless austerity. We choose to support social care and local government social care packages so that social workers in Wales say it's better to work in Wales than in England. We choose to invest in new school buildings, in social housing, in flood defences, integrated transport, new health facilities and projects to transform service delivery in the NHS. I will repeat again those modern primary care resource centres in Llangollen, Flint and Blaenau Ffestiniog, the new purpose-built, midwife-led maternity units in west Wales, the new front-of-house development at Prince Philip Hospital in Llanelli to implement a new model of unscheduled care services, and changes to stroke services in Aneurin Bevan and Cwm Taf so that more patients can return home more quickly and be supported through rehabilitation at home.

So, Llywydd, it is important to acknowledge that more challenges lie ahead, but I wouldn't wish these to overshadow our record of achievement, delivered despite the difficulties we face as a result of the UK Government's cuts. Today, we, the Welsh Labour Government, are delivering a budget providing an alternative to austerity, investing in the future of Wales, and I commend the budget to you.

Gadewch i ni edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wynebu. Mae arbenigwyr, gan gynnwys y Gronfa Ariannol Ryngwladol a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a sylwebwyr gwybodus megis Martin Wolf o'r Financial Times yn cytuno y dylai'r Llywodraeth fanteisio ar y cyfraddau llog isaf erioed i fuddsoddi mewn seilwaith, er mwyn peidio â gorfodi cyni pellach—rhith oer cyni, fel y dywedodd Keith Davies. Er gwaethaf y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi torri ein cylideb cyfalaif o bron i draean mewn termau real, mae ein pwyslais ar dwf a swyddi yn parhau i fod yn gadarn. Mae seilwaith yn hanfodol i wella cynhyrchiant, tâl ac i gefnogi adferiad cytbwys, ac rydym ar y trywydd iawn i gyflwyno tua £4 biliwn o fuddsoddiad newydd drwy'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ers ei lansio yn 2012.

Ond, Lywydd, gwirionedd llwm 2016 yw ein bod wedi gorfod amddiffyn Cymru. Rydym wedi gorfod amddiffyn Cymru fel Llywodraeth Lafur Cymru yn erbyn ymosodiadau gwleidyddol parhaus gan Lywodraeth Doriaidd y DU—ymosodiadau ar ein gwasanaethau iechyd yng Nghymru a phawb sy'n gweithio ynddynt; tanseilio ein gwasanaethau addysg, a gyflwynodd y canlyniadau TGAU gorau y llynedd; ac, yn hollbwysig ar gyfer y ddadl hon, ymosodiadau ar ein harian cyhoeddus gyda chyni parhaus a diangen. Rydym yn dewis cefnogi pecynnau gofal cymdeithasol a gofal cymdeithasol llywodraeth leol fel bod gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn dweud ei bod yn well ganddynt weithio yng Nghymru nag yn Lloegr. Rydym yn dewis buddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd, mewn tai cymdeithasol, mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, trafnidiaeth integredig, cyfleusterau iechyd newydd a phrosiectau i weddnewid y ddarpariaeth o wasanaethau yn y GIG. Soniaf eto am y canolfannau adnoddau gofal sylfaenol modern hynny yn Llangollen, Y Fflint a Blaenau Ffestiniog, yr unedau mamolaeth dan arweiniad bydwragedd pwrrpasol newydd yn y gorllewin, y datblygiad blaen tŷ newydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli i weithredu model newydd o wasanaethau gofal heb eu trefnu, a newidiadau i wasanaethau strôc yn Aneurin Bevan a Chwm Taf fel y gall mwy o gleifion ddychwelyd adref yn gynt a chael eu cefnogi drwy adsefydlu yn y cartref.

Felly, Lywydd, mae'n bwysig cydnabod bod mwy o heriau o'n blaenau, ond ni fyddwn yn dymuno i'r rhain daflu cysgod dros hanes ein cyflawniad, a gyflwynwyd er gwaethaf yr anawsterau sy'n ein hwynnebu o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Heddiw, yr ydym ni, Llywodraeth Lafur Cymru, yn cyflwyno cylideb sy'n darparu dewis amgen i gyni, ac sy'n buddsoddi yn nyfodol Cymru, ac yr wyf yn cymeradwyo'r gyllideb i chi.

15:55

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Objection. I defer all voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

15:55

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It has been agreed that voting time will take place just before the Stage 3 debate on the Public Health (Wales) Bill, so I intend to move straight to the votes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd yn union cyn y ddadl Cyfnod 3 ar Fil iechyd y Cyhoedd (Cymru), felly bwriadaf symud yn syth at y pleidleisiau.

8. Cyfnod Pleidleisio

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first vote is on the debate on the second supplementary budget 2015 and I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour 28, 27 abstentions, none against. Therefore, the motion is carried.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 0, Ymatal 27.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5967.](#)

8. Voting Time

Mae'r bleidlais gyntaf ar y ddadl ar yr ail gyllideb atodol 2015 a galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 28, 27 wedi ymatal, neb yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

Motion agreed: For 28, Against 0, Abstain 27.

[Result of the vote on motion NDM5967.](#)

15:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to a vote on the debate on the final budget 2016-17, and I call for a vote, again tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour 28, five abstentions, 22 against. Therefore, the budget is accepted.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 22, Ymatal 5.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5986.](#)

15:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before we move to the Stage 3 proceedings of the Public Health (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 15 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. There will only be one bell and we will start promptly in 15 minutes. Thank you very much.

Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:56.

Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:11, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

16:11

9. Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The National Assembly is back in session. The next item is the Stage 3 debate on the Public Health (Wales) Bill.

Grŵp 1: Dileu'r Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Dyfeisiau Mewnanadlu Nicotin (Gwelliannau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 2, 1)

Motion agreed: For 28, Against 22, Abstain 5.

[Result of the vote on motion NDM5986.](#)

Cyn i ni symud at drafodion Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), byddaf yn gohirio'r trafodion am 15 munud. Bydd y gloch gael ei chanu bum munud cyn i ni ailymgynnill. Dim ond un gloch fydd a byddwn yn dechrau yn brydlon mewn 15 munud. Diolch yn fawr iawn.

Plenary was suspended at 15:56.

The Assembly reconvened at 16:11, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

9. Stage 3 of the Public Health (Wales) Bill

Group 1: Removing Restrictions on the Use of Nicotine Inhalation Devices (Amendments 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 2, 1)

16:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first group of amendments relates to removing restrictions on the use of nicotine inhaling devices. The lead amendment in this group is amendment 3. I call on Kirsty Williams to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â dileu cyfyngiadau ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:11

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and I formally move amendment 3, which is the lead amendment in the group, and all the other amendments that appear in it, which are 1 through to 26.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As this is the opening of this afternoon's deliberations on the Bill, could I place on record my thanks to all those who have been involved in the process of the Bill to date, especially the Chair of the Health and Social Care Committee for leading the committee's scrutiny of the Bill, which has been long and complex? I'd like to thank the Minister for his interaction with the committee during this period and, especially, the staff of the committee who have done such a wonderful job in publishing the committee's report following the initial scrutiny of the Bill, and all those who gave evidence to it.

Deputy Presiding Officer, in moving the amendments in this group to the Bill, Members will note that they all relate to banning the use of nicotine inhaling devices. It seems to me that, when considering the legislation before us, its primary purpose is to enhance concepts of public health and to deliver better health outcomes for the people of Wales. That goal and outcome is one that I wholeheartedly agree with and support, and I welcome the fact that the Government saw fit to use some of its parliamentary time to focus on the issue of public health. We know that as a nation, in many regards, we languish at the bottom of all the wrong league tables for issues around continuing to smoke, although levels are falling; levels of inactivity; and levels of obesity, although I recognise that, certainly in some aspects of our population, that too is beginning to level out. So, it's right that the Government should focus on public health.

So, the question for me is: do the measures contained within the legislation deliver on the Government's stated goals and aims? Where it seeks to impose restrictions and additional regulations on either individuals, businesses, or traders, are those measures proportional and fair? Of course, Members in this Chamber will be aware of my long-standing concerns around the approach that the Welsh Government has taken to the use of nicotine inhaling devices. My amendments here today seek to remove those provisions completely from the Bill, and I do that because, over the course of the deliberations both in this Chamber and in the committee, I have not been convinced that the measures proposed will enhance the health of the people in Wales. I do not believe, on the basis of the evidence before us, that the measures are proportional to the impact that they have on individuals.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a chynigaf welliant 3 yn ffurfiol, sef y prif welliant yn y grŵp, a'r holl welliannau eraill sy'n ymddangos yn ddo, sef 1 hyd at 26.

Gan mai dyma sy'n agor trafodaethau'r prynhawn yma ar y Bil, a gaf i gofnodi fy niolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o broses y Bil hyd yn hyn, yn enwedig Cadeirydd y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol am arwain craffu'r pwyllgor ar y Bil, sydd wedi bod yn hir a chymhleth? Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ryngweithio â'r pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn ac, yn arbennig, staff y pwyllgor sydd wedi gwneud gwaith mor wych yn cyhoeddi adroddiad y pwyllgor yn dilyn y craffu cychwynnol ar y Bil, ac i bawb a roddodd dystiolaeth iddo.

Ddirprwy Lywydd, wrth gynnig y gwelliannau yn y grŵp hwn o'r Bil, bydd yr Aelodau'n nodi eu bod i gyd yn ymwneud â gwahardd y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin. Mae'n ymddangos i mi, wrth ystyried y ddeddfwriaeth sydd ger ein bron, mai ei phrif ddiben yw gwella cysyniadau iechyd y cyhoedd a sicrhau canlyniadau iechyd gwell i bobl Cymru. Mae'r nod a'r canlyniad hwnnw yn un yr wyf yn cytuno'n llwyr ag ef ac yn ei gefnogi, a chroesawaf y ffaith bod y Llywodraeth wedi gweld yn dda i ddefnyddio rhywfaint o'i hamser seneddol i ganolbwytio ar fater iechyd y cyhoedd. Rydym yn gwybod ein bod fel cenedl, mewn llawer ffordd, yn dihoeni ar waelod pob cynghrair anghywir o ran materion sy'n ymwneud â pharhau i smygu, er bod lefelau yn gostwng; lefelau anweithgarwch; a lefelau gordewdra, er fy mod yn cydnabod, yn sicr mewn rhai agweddau ar ein poblogaeth, bod hynny hefyd yn dechrau gwastadáu. Felly, mae'n iawn y dylai'r Llywodraeth ganolbwytio ar iechyd y cyhoedd.

Felly, y cwestiwn i mi yw: a yw'r mesurau a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth yn cyflawni ar amcanion a nodau datganedig y Llywodraeth? Pan ei bod yn ceisio gosod cyfngiadau a rheoliadau ychwanegol ar unigolion, busnesau, neu fasnachwyr, a yw'r mesurau hynny yn gymesur ac yn deg? Wrth gwrs, bydd yr Aelodau yn y Siambwr hon yn ymwybodol o fy mhryderon hirsefydlog ynglŷn â'r agwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chymryd ynghylch defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin. Mae fy ngwelliannau yma heddiw yn ceisio cael gwared ar y darpariaethau hynny yn llwyr o'r Bil, ac rwy'n gwneud hynny oherwydd nad wyf wedi fy argyhoeddi, yn ystod y trafodaethau yn y Siambwr hon nac yn y pwyllgor, y bydd y mesurau arfaethedig yn gwella iechyd y bobl yng Nghymru. Nid wyf yn credu, ar sail y dystiolaeth sydd ger ein bron, bod y mesurau yn gymesur â'r effaith y maent yn ei chael ar unigolion.

Now, I know that there has been a great deal of discussion and argument about the issue around evidence and I want to make it quite clear that it is not the case that there is no evidence to suggest concern around the impact on human health of the use of nicotine inhaling devices. It would be wrong to suggest otherwise. At this stage in our knowledge and understanding of these devices, the evidence is not conclusive, but what evidence I've heard and that I have been persuaded by is that of people who believe that, actually, the use of nicotine inhaling devices in itself is a way that can be used to deliver better public health for the people of Wales. As George Butterworth, tobacco policy manager at Cancer Research UK said,

'There isn't enough evidence to justify a ban on using e-cigarettes.... The measure could create more barriers for smokers trying to quit tobacco.'

Professor Peter Hajek of Public Health England told the Health and Social Care Committee that, at the moment, all vaping does is potentially save the lives of people.

We know that tobacco is massively harmful to human health, and massively harmful to the people who breathe in the second-hand smoke of it. As we proceed today, my group will support measures tabled by the Government to restrict the use of traditional tobacco products in many areas. We are happy to do so because the evidence is there to demonstrate the harm to public health. But what we do know, and what we were told, is that nicotine inhaling devices are a stepladder down to harm reduction, allowing people who are addicted to traditional tobacco to use less of that harmful product. Many people do start off as dual users, using both an inhaler and traditional tobacco products, but they are able to wean themselves off. I have been inundated by people in my own constituency and across Wales who have successfully kicked lifelong smoking habits with the use of this device. For each one of those it is an opportunity to begin to repair the damage that a lifelong addiction to traditional tobacco has caused them.

The Minister has not been able to persuade me, nor has he been able to produce robust evidence to suggest, that people using nicotine inhaling devices do so as a gateway product into traditional tobacco. There is no meaningful evidence to suggest that people who use e-cigarettes have never been smokers before. The evidence is overwhelmingly the other way around: that people who use these products do so because they genuinely want to give up tobacco. They have often tried and failed other methods of quitting cigarettes, and they have found this method particularly useful.

Nawr, rwy'n gwybod y bu llawer o drafodaeth a dadl am y mater yngylch dystiolaeth ac rwyf am ei gwneud yn gwbl glir nad yw'n wir nad oes dystiolaeth i awgrymu pryder yn ymwneud ag effaith ar iechyd dynol o'r defnydd o ddyfeisiadau mewnanadlu nicotin. Byddai'n anghywir i awgrymu fel arall. Ar y cam hwn yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r dyfeisiau hyn, nid yw'r dystiolaeth yn bendant, ond y dystiolaeth yr wyf wedi'i chlywed ac wedi cael fy mherswadio ganddi yw honno gan bobl sy'n credu, mewn gwirionedd, bod y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin ynddo'i hun yn ffordd y gellir ei defnyddio i ddarparu gwell iechyd y cyhoedd ar gyfer pobl Cymru. Fel y dywedodd George Butterworth, rheolwr polisi tybaco yn Cancer Research UK ,

Nid oes digon o dystiolaeth i gyflawnhau gwaharddiad ar ddefnyddio e-sigaréts Gallai'r mesur greu mwy o rwystrau i ysmgwyr sy'n ceisio rhoi'r gorau i dybaco.

Dyweddodd yr Athro Peter Hajek o Public Health England wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mai, ar hyn o bryd, y cyfan y mae mewnanadlu anwedd yn ei wneud yw achub bywydau pobl o bosibl.

Rydym yn gwybod bod tybaco yn aruthrol niweidiol i iechyd pobl, ac yn aruthrol niweidiol i bobl sy'n anadlu mwg ail-law oddi wrtho. Wrth i ni symud ymlaen heddiw, bydd fy ngrŵp yn cefnogi mesurau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i gyfyngu ar y defnydd o gynhyrchion tybaco traddodiadol mewn llawer o ardaloedd. Rydym yn hapus i wneud hynny oherwydd bod y dystiolaeth yno i ddangos y niwed i iechyd y cyhoedd. Ond yr hyn yr ydym yn ei wybod, a'r hyn a ddywedwyd wrthym, yw bod dyfeisiau mewnanadlu nicotin yn tuag at i lawr i leihau niwed, gan ganiatáu i bobl sy'n gaeth i dybaco traddodiadol ddefnyddio llai ar y cynnyrch niweidiol hwnnw. Mae llawer o bobl yn dechrau fel defnyddwyr deuol, gan ddefnyddio anadlydd a chynhyrchion tybaco traddodiadol, ond maent yn gallu diddyfni eu hunain. Rwyf wedi clywed gan nifer fawr o bobl yn fy etholaeth fy hun ac ar draws Cymru sydd wedi rhoi'r gorau i arferion smygu gydol oes yn llwyddiannus drwy ddefnyddio'r ddyfais hon. Ar gyfer pob un o'r rheini, mae'n gyfle i ddechrau atgyweirio'r difrod y mae bod yn gaeth i dybaco traddodiadol gydol oes wedi'i achosi iddynt.

Nid yw'r Gweinidog wedi gallu fy mherswadio i, ac nid yw wedi gallu dangos dystiolaeth gadarn i awgrymu, bod pobl sy'n defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin yn gwneud hynny fel cynnyrch porth i dybaco traddodiadol. Nid oes unrhyw dystiolaeth ystyrlon i awgrymu nad yw pobl sy'n defnyddio e-sigaréts erioded wedi bod yn ysmgwyr o'r blaen. Mae'r dystiolaeth yn llethol y ffordd arall: bod pobl sy'n defnyddio'r cynhyrchion hyn yn gwneud hynny am eu bod yn wirioneddol awyddus i roi'r gorau i dybaco. Maent yn aml wedi ceisio a methu gyda dulliau eraill o roi'r gorau i cigaréts, ac maent wedi gweld bod y dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol.

The Minister will say that people shouldn't be inhaling anything into their body and, of course, he's absolutely right. I wouldn't want to encourage anybody who has never smoked to take up using a nicotine inhaling device, but there is no evidence to suggest that it's actually happening, and it is not a gateway product. Nor is there evidence to suggest that children—young people—are using this as a gateway into smoking. Young people will always experiment. We don't want them to, but the fact is that they will, whether that's nicotine inhaling devices, traditional cigarettes, vodka, cider or a can of lager. We've all been there. My particular sin was the flagon of cider under the rugby posts of the Bynea rugby club. [Assembly Members: 'Oh.'] We've all been there. None of us want to admit that our young people do this, but the reality is that they do. It is simply wrong to suggest that the presence of these devices actually leads young people into using them on a permanent basis and then moving on to tobacco. What we do know is that people use these to quit tobacco. That, surely, is the most important public health message we could deliver.

The evidence we have also received is that if there is anything that equates these devices with traditional tobacco, that potentially is a barrier for people moving on to nicotine inhaling devices. And their restriction—. I note that the Minister has moved, and I give him credit for that, but any suggestion that equates both these products together is simply wrong, and potentially puts people off from taking that vital step to reducing harm to their health by this product.

Deputy Presiding Officer, the arguments have been held in this Chamber many times. I hope, even at this late stage, that the Minister will reflect on the evidence of the health committee that said that the public health Bill should not be jeopardised by including these provisions in a single piece of legislation, but that this issue should be dealt with by a separate piece of legislation and the remaining parts of the public health Bill should go forward unencumbered. I'm sorry that the Minister hasn't taken up that view from the health committee, but, once again, I want to take this opportunity to remove these provisions from within this Bill and to ensure that the harm reduction that can be acquired, and the human health gains that can be acquired by these products, are not lost. Thank you.

Bydd y Gweinidog yn dweud na ddylai pobl fod yn mewnanadlu unrhyw beth i mewn i'w cyrff ac, wrth gwrs, mae'n hollol gywir. Fyddwn i ddim eisiau annog unrhyw un sydd erioed wedi smygu i ddechrau defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod yn digwydd mewn gwirionedd, ac nid yw'n gynnyrch porth. Ac nid oes dystiolaeth i awgrymu bod plant—pobl ifanc—yn defnyddio hwn fel porth i smygu. Bydd pobl ifanc bob amser yn arbrofi. Nid ydym eisiau iddynt wneud hynny, ond y ffaith yw y byddant, boed hynny â dyfeisiau mewnanadlu nicotin, sigaréts traddodiadol, fodca, seidr neu gan o lager. Rydym i gyd wedi bod yno. Fy mheched arbennig i oedd y fflagen o seidr o dan byst rygbi clwb rygbi Bynea. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.']. Rydym i gyd wedi bod yno. Nid oes yr un ohonom eisiau cyfaddef bod ein pobl ifanc yn gwneud hyn, ond y gwir amdani yw eu bod yn ei wneud. Mae'n anghywir i awgrymu bod presenoldeb y dyfeisiau hyn mewn gwirionedd yn arwain pobl ifanc i'w defnyddio ar sail barhaol ac yna symud ymlaen i dybaco. Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw bod pobl yn defnyddio'r rhain i roi'r gorau i dybaco. Dyna, yn sicr, yw'r neges iechyd y cyhoedd pwysicaf y gallem ei chyflwyno.

Y dystiolaeth yr ydym hefyd wedi'i derbyn yw os oes unrhyw beth sy'n cyfateb y dyfeisiau hyn â thybaco traddodiadol, gallai hynny fod yn rhwystr i bobl sy'n symud ymlaen i ddyfeisiau mewnanadlu nicotin. A byddai eu cyfngu—. Sylwaf fod y Gweinidog wedi symud rhywfaint, ac rwy'n rhoi clod iddo am hynny, ond mae unrhyw awgrym sy'n cyfateb y ddau gynnyrch hyn gyda'i gilydd, yn sym, yn anghywir, ac o bosibl yn peri pobl i beidio â chymryd y cam hollbwysig hwn i leihau niwed i'w hiechyd drwy'r cynnyrch hwn.

Ddirprwy Lywydd, mae'r dadleuon wedi eu cynnal yn y Siambra hon sawl gwaith. Rwy'n gobethio, hyd yn oed ar y cam hwyr hwn, y bydd y Gweinidog yn myfyrio ar dystiolaeth y pwylgor iechyd a ddywedodd na ddylai Bil iechyd y cyhoedd gael ei beryglu gan gynnwys y darpariaethau hyn mewn un darn o ddeddfwriaeth, ond y dylai'r mater hwn gael ei drin gan ddarn arall o ddeddfwriaeth ac y dylai'r rhannau sy'n weddill o'r Bil iechyd y cyhoedd fynd ymlaen yn ddilysfethair. Mae'n ddrwg gennyl nad yw'r Gweinidog wedi derbyn y farn honno gan y pwylgor iechyd, ond, unwaith eto, hoffwn achub ar y cyfle hwn i gael gwared ar y darpariaethau hyn o fewn y Bil hwn ac i sicrhau nad yw'r lleihad i niwed y gellir ei gyflawni, ar enillion iechyd dynol y gellir eu cyflawni gan y cynhyrchion hyn, yn cael eu colli. Diolch.

16:20

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to speak in support of the amendments that have been tabled by Kirsty Williams in this group. I think one thing that has struck me throughout the legislative process in respect of this Bill is that the Minister has managed to do what no other Minister before him has managed, and that has been to unite the cancer charities and others in the third sector with the tobacco industry in opposing some legislation. I mean, it really is quite a remarkable feat, and we all know, as Kirsty Williams has quite rightly said, that the Bill is supposed to be one that seeks to improve public health, but that restricting the use of e-cigarettes may actually cause greater public harm than good.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n codi i siarad o blaid y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno gan Kirsty Williams yn y grŵp hwn. Rwy'n credu mai un peth sydd wedi fy nharo drwy gydol y broses ddeddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil hwn yw bod y Gweinidog wedi llwyddo i wneud yr hyn nad oes yr un Gweinidog arall o'i flaen wedi llwyddo i'w wneud, sef uno elusennau canser ac eraill yn y trydydd sector gyda'r diwydiant tybaco mewn gwirthwynebu rhywfaint o ddeddfwriaeth. Wyddoch chi, mae hyn mewn gwirionedd yn gamp eithaf rhyfeddol, ac rydym i gyd yn gwylod, fel y mae Kirsty Williams wedi'i ddweud yn gwbl briodol, bod y Bil i fod yn un sy'n ceisio gwella iechyd y cyhoedd, ond y gallai cyfngu ar y defnydd o e-sigarets mewn gwirionedd achosi mwy o niwed nag o les i'r cyhoedd.

The man who is widely credited with inventing the e-cigarette 10 years ago was a Chinese pharmacist named Hon Lik, and he was motivated to invent the e-cigarette after seeing his own father pass away from lung cancer. His intention in developing the product was simply to improve and protect the health of other people by assisting them in reducing their tobacco consumption. And since this invention came to market, millions of people around the world, including thousands of people here in Wales, have managed to quit or cut back on their smoking with the help of e-cigarettes. Many of these people have tried other methods to help them quit: some have tried to kick the habit by going cold turkey; some have tried to gradually wean themselves off tobacco with patches and gum. Some have succeeded; others have absolutely failed. But none of those different methods have been anywhere near as successful when compared to the e-cigarette in terms of helping people to achieve success in terms of being able to quit smoking. So, the most successful aid to smoking cessation that we have and know of at the moment here in Wales is the e-cigarette. So, using an e-cigarette—or vaping, as it's becoming known more widely—is proving to be a very key thing in terms of reducing harm from tobacco in society.

We know also that Public Health England's report, 'E-cigarettes: an evidence update', which was published in August last year, concluded that the current best estimate is that e-cigarettes are around 95 per cent less harmful to those who use them than smoking tobacco. And, of course, this was some of the evidence that was considered by the Health and Social Care Committee during our proceedings. We heard that tens of thousands of premature deaths could be prevented each and every year in the UK if all smokers made the switch from smoking tobacco to using e-cigarettes instead. I think that's why Cancer Research UK, the British Heart Foundation, Tenovus Cancer Care, and many, many other organisations, such as ASH Wales and others that are working in this field, support the view that e-cigarette restrictions shouldn't actually be imposed here in Wales. So, given that e-cigarettes are less harmful than smoking, and that they appear to be a more effective aid to quitting than any other method that is currently available, it does seem rather bewildering that the Minister wants to restrict their use.

You know, one of the things that e-cigarette users have told me attracted them to trying e-cigarettes, in addition to the support with smoking cessation, was that they can of course be used in places where smoking is currently banned. I think that this is something that the Minister has completely overlooked, because this is a benefit that the Minister is now going to erode as a result of some of the restrictions that he is bringing in. They will not be able to use some of these products in the places where they are not able to smoke. And, in fact, we may actually see ex-smokers, who have managed to quit with the use of e-cigarettes, pushed into the smoking shelters in order to vape, where they'll be at risk of proven harms of second-hand smoke and potentially be attracted back into the habit that they managed to give up.

Y dyn a gydnabyddir yn gyffredinol am ddyfeisio'r e-sigarét 10 mlynedd yn ôl oedd fferyllydd Tseiniaidd o'r enw Hon Lik, a chafodd ef ei ysgogi i ddyfeisio'r e-sigarét ar ôl gweld ei dad ei hun yn marw o ganser yr ysgyfaint. Ei fwriad wrth ddatblygu'r cynnyrch yn syml oedd gwella a diogelu iechyd pobl eraill drwy eu helpu i leihau eu defnydd o dybaco. Ac ers i'r ddyfais hon fod ar gael, mae miliynau o bobl ledled y byd, gan gynnwys miloedd o bobl yma yng Nghymru, wedi llwyddo i roi'r gorau neu dorri i lawr ar eu smygu gyda chymorth e-sigaréts. Mae llawer o'r bobl hyn wedi rhoi cynnig ar ddulliau eraill i'w helpu i roi'r gorau iddi: mae rhai wedi ceisio rhoi'r gorau i'r arfer drwy stopio ar unwaith; mae rhai wedi ceisio diddyfniu eu hunain yn raddol oddi ar dybaco gyda phatsys a gwm. Mae rhai wedi llwyddo; mae eraill wedi methu yn llwyr. Ond nid oes yr un o'r gwahanol ddulliau hynny wedi bod yn agos mor llwyddiannus o'i gymharu â'r e-sigarét o ran helpu pobl i lwyddo o ran gallu rhoi'r gorau i smygu. Felly, y cymorth mwyaf llwyddiannus i roi'r gorau i smygu sydd gennym ac y gwyddom amdano ar hyn o bryd yma yng Nghymru yw'r e-sigarét. Felly, mae defnyddio e-sigarét—neu fewnanadlu anwedd, fel y'i gelwir yn fwy eang erbyn hyn—yn profi i fod yn rhywbeth allweddol iawn o ran lleihau niwed gan dybaco yn y gymdeithas.

Rydym yn gwybod hefyd bod adroddiad Public Health England, 'E-cigarettes: an evidence update', a gyhoeddwyd ym mis Awst y llynedd, wedi dod i'r casgliad mai'r amcangyfrif gorau presennol yw bod e-sigaréts tua 95 y cant yn llai niweidiol i'r rhai sy'n eu defnyddio na smygu tybaco. Ac, wrth gwrs, dyma rywfaint o'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ein trafodion. Clywsom y gellid atal degau o filoedd o farwolaethau cynamserol bob blwyddyn yn y DU pe byddai'r holl ysmygwyr yn newid o smygu tybaco i ddefnyddio e-sigaréts yn lle hynny. Rwy'n meddwl mai dyna pam y mae Cancer Research UK, Sefydliad Prydeinig y Galon, Gofal Canser Tenovus, a llawer, llawer o sefydliadau eraill, fel ASH Cymru ac eraill sy'n gweithio yn y maes hwn, yn cefnogi'r farn na ddylid gosod cyfyngiadau e-sigaréts mewn gwirionedd yma yng Nghymru. Felly, o gofio bod e-sigaréts yn llai niweidiol na smygu, a'u bod yn ymddangos i fod yn gymorth mwy effeithiol i roi'r gorau iddi nag unrhyw ddull arall sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'n ymddangos braidd yn ddryslyd bod y Gweinidog yn awyddus i gyfngu ar eu defnydd.

Wyddoch chi, un o'r pethau y mae defnyddwyr e-sigaréts wedi'i ddweud wrthyf wnaeth eu denu i roi cynnig ar e-sigaréts, yn ychwanegol at y gefnogaeth o ran rhoi'r gorau i smygu, oedd y gellir, wrth gwrs, eu defnyddio mewn manau lle mae smygu wedi'i wahardd ar hyn o bryd. Rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog wedi ei anwybyddu yn llwyr, oherwydd mae hwn yn fudd y mae'r Gweinidog bellach yn mynd i'w erydu o ganlyniad i rai o'r cyfyngiadau y mae'n eu cyflwyno. Ni fyddant yn cael defnyddio rhoi o'r cynhyrchion hyn yn y manau lle nad ydynt yn cael smygu. Ac, yn wir, gallem mewn gwirionedd weld cyn-ysmygwyd, sydd wedi llwyddo i roi'r gorau iddi gyda'r defnydd o e-sigaréts, yn cael eu gwthio i lochesi smygu er mwyn mewnanadlu anwedd, lle byddant mewn perygl o niwed profedig o smygu ail-law ac o bosibl yn cael eu denu yn ôl i'r arfer y maent wedi llwyddo i roi'r gorau iddo.

The Minister also has said—and Kirsty Williams referred to this in her speech a few moments ago—that e-cigarettes may be a gateway into smoking for children and young people, but there's precious little evidence that actually supports this view. In fact, there was overwhelming evidence that points to e-cigarettes being—[Interruption.] I'll happily take the intervention, of course.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud—a chyfeiriodd Kirsty Williams at hyn yn ei haraith ychydig eiliadau yn ôl—y gall e-sigaréts fod yn borth i mewn i smygu ar gyfer plant a phobl ifanc, ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd mewn gwirionedd yn cefnogi'r farn hon. Yn wir, roedd dystiolaeth ddigamsyniol yn pwyntio at e-sigaréts yn— [Torri ar draws.] Rwyf yn fodlon iawn i dderbyn yr ymyriad, wrth gwrs.

16:25 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I just wondered if you could explain why it is that nearly all the vaping companies have been bought up by the tobacco companies, if it is not as a way of providing a gateway into smoking.

Roeddwn yn meddwl tybed pe gallech egluro pam bod bron yr holl gwmniau mewnanadlu anwedd wedi cael eu prynu gan y cwmniau tybaco, os nad fel ffordd o ddarparu porth i smygu.

16:25 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You'd have to ask the tobacco companies that question. The point I'm making in terms of the gateway effect, which has been one of the pillars upon which the arguments of the Government have been built, is that the only evidence that we did see of a gateway effect is that e-cigarettes are a gateway out of smoking, and to cut tobacco consumption. ASH Wales told the Health and Social Care Committee that, while very low numbers of young people were experimenting with e-cigarettes, the current evidence did not show that experimentation amongst young people was leading to long-term use of e-cigarettes, or that the use of e-cigarettes amongst the young was acting in any way as a gateway into smoking tobacco.

Byddai'n rhaid i chi ofyn y cwestiwn hwnnw i'r cwmniau tybaco. Y pwynt yr wyf yn ei wneud o ran yr effaith porth, sydd wedi bod yn un o'r pilieri y mae dadleuon y Llywodraeth wedi eu hadeiladu arnynt, yw mai'r unig dystiolaeth a welsom o effaith porth yw bod e-sigaréts yn borth allan o smygu, ac at dorri'r defnydd o dybaco. Dywedodd ASH Cymru wrth y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol, er bod niferoedd isel iawn o bobl ifanc yn arbrofi gydag e-sigaréts, nid yw'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod arbrofi ymmsg pobl ifanc yn arwain at ddefnydd hirdymor o e-sigaréts, na bod y defnydd o e-sigaréts ymhliith yr ifanc yn gweithredu mewn unrhyw ffordd fel porth i smygu tybaco.

So, in seeking to restrict the use of e-cigarettes, the Minister is sending a message to smokers and the public that suggests that vaping is harmful and that it is as harmful—perhaps not quite as harmful, but is harmful, as tobacco is. I think that such a message would discourage smokers from trying e-cigarettes, and potentially deprive them of the benefits that they could bring to their own health by making a switch.

Felly, wrth geisio cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts, mae'r Gweinidog yn anfon neges i smygwyr a'r cyhoedd sy'n awgrymu bod mewnanadlu anwedd yn niweidiol a'i fod mor niweidiol—efallai ddim yn holol mor niweidiol, ond yn niweidiol, fel ag y mae tybaco. Credaf y byddai neges o'r fath yn annog ysmygwyr rhag ceisio e-sigaréts, ac o bosibl yn eu hamddifadu o'r manteision y gallent eu gwireddu i'w hiechyd eu hunain drwy newid.

The Minister has also said, during the course of proceedings in committee, that the use of e-cigarettes has the potential to re-normalise smoking. But, actually, it isn't re-normalising smoking—what it's doing is normalising the use of e-cigarettes, surely, which is something that we should encourage for those people who are currently smokers.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud, yn ystod y trafodion yn y pwyllgor, bod gan y defnydd o e-sigaréts y potentiai i ail-normaleiddio smygu. Ond, mewn gwirionedd, nid yw'n ail-normaleiddio smygu—beth mae'n ei wneud yw normaleiddio'r defnydd o e-sigaréts, siawns, ac mae hynny'n rhywbeth y dylem ei annog ar gyfer y bobl hynny sy'n smygu ar hyn o bryd.

So, the review of evidence by Public Health England, which I mentioned earlier, stated that, since the introduction of e-cigarettes to the market, smoking prevalence across the UK has declined, and it concluded that there's absolutely no evidence to date that e-cigarettes are re-normalising smoking. Instead, it's possible that their presence has contributed to further declines in smoking, or de-normalisation of smoking, if you like.

Felly, dywedodd yr adolygiad o dystiolaeth gan Public Health England, a grybwylais yn gynharach, fod cyffredinolrwydd smygu ar draws y DU ers cyflwyno e-sigaréts i'r farchnad, wedi dirywio, a daeth i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth hyd yma bod e-sigaréts yn ail-normaleiddio smygu. Yn hytrach, mae'n bosibl bod eu presenoldeb wedi cyfrannu at ddirywriad pellach mewn smygu, neu ddad-normaleiddio smygu, os mynnwch chi.

The Minister also suggested that the use of e-cigarettes was undermining the smoking ban, but he was unable to furnish us with a single shred of evidence to support this view. He told us, in the committee, that he wanted to restrict e-cigarettes so as to maintain the air quality of enclosed public places, yet the fact is, to date, there is more evidence of harm from smoke from a piece of burnt toast than there is of evidence of harm from the use of an e-cigarette. That is a fact, and I think that, if we're not careful, the Minister's going to get us on to a slippery slope where he'll be seeking to ban air fresheners, the use of deodorants, the use of certain cleaning products, and potentially even opening the window by the roadside, because of the potential harm to the air quality in the enclosed public space of the fumes from passing vehicles.

The Minister has also stated that the Welsh Government is taking what he describes as a precautionary approach in relation to e-cigarettes because there may be evidence of harm to people who use them in the future. But I, and some other members of the committee, are of the opinion that we should take a precautionary approach before doing anything that could discourage the use of e-cigarettes, given the health benefits that an estimated 242,000 people in Wales are deriving from their use. I think that to discourage their use via the introduction of restrictions would be a retrograde step for public health and not a positive one.

No, I'm not taking interventions, because I think you've all had plenty of opportunity to make your points in this debate so far.

Na, nid wyf yn derbyn ymyriadau, oherwydd credaf eich bod i gyd wedi cael digon o gyfle i wneud eich pwyntiau yn y ddadl hon hyd yn hyn.

There are others—. The corollary of that position that NIDs are only capable of doing good is to cast doubt on any evidence of potential harm—not a single shred of evidence, to quote some participants in this debate—no shred of evidence, apparently, of any potential harm to users themselves, to bystanders, to children and young people, to the community at large. Any of that evidence is simply dismissed, whatever its source—

Mae eraill—. Canlyneb y safbwyt hwnnw nad yw dyfeisiau mewnanadlu nicotin ond yn gallu gwneud da yw bwrw amheuaeth ar unrhyw dystiolaeth o niwed—affliw o ddim dystiolaeth, i ddyfynnu rhai cyfranogwyr yn y ddadl hon—affliw o ddim dystiolaeth, mae'n debyg, o unrhyw niwed posibl i ddefnyddwyr eu hunain, i'r rhai sy'n sefyll yn eu hymyl, i blant a phobl ifanc, i'r gymuned yn gyffredinol. Mae unrhyw ran o'r dystiolaeth honno yn cael ei diystyr u yn symwl, beth bynnag yw ei ffynhonnell—

16:57 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, will you take an intervention?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:57 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

No.

Na.

And whatever its scientific rigour—[Interruption.] No, I'm not taking an intervention, Dirprwy Lywydd. Thank you.

A beth bynnag ei manylwedd gwydonol—[Torri ar draws.] Na, nid wyf yn derbyn ymyriad, Ddirprwy Lywydd. Diolch.

And however seriously it is taken by reputable organisations from the World Health Organization to the British Medical Association and to our own chief medical officer. I was disappointed that Lindsay Whittle didn't regard the British Medical Association, which gave evidence to the health committee in favour of this position on nicotine inhaling devices. I was disappointed he didn't regard our own chief medical officer who gave evidence to the health committee in favour of the position I advocate on nicotine inhaling devices; I'm disappointed he didn't regard those as credible voices in this debate.

A pha mor ddifrifol bynnag y caiff ei ystyried gan sefydliadau ag enw da o Sefydliad Iechyd y Byd i Gymdeithas Feddygol Prydain ac at ein prif swyddog meddygol ein hunain. Roeddwn yn siomedig na wnaeth Lindsay Whittle ystyried y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, a roddodd dystiolaeth i'r pwylgor iechyd o blaid y safbwyt hwn ar ddyfeisiau mewnanadlu nicotin. Roeddwn yn siomedig na wnaeth ystyried ein prif swyddog meddygol ein hunain a roddodd dystiolaeth i'r pwylgor iechyd o blaid y safbwyt yr wyf yn ei gefnogi ar ddyfeisiau mewnanadlu nicotin; rwy'n siomedig nad oedd yn ystyried y rhain yn lleisiau credadwy yn y ddadl hon.

Now, it is perfectly capable of taking a different view on the evidence. The position that the Government has taken throughout the development and scrutiny of this Bill is this: that we should preserve the potential health gain that may come from using e-cigarettes for smoking cessation, while acting now to prevent the harm that may also be caused by them. The potential health gain that may come from using e-cigarettes for harm cessation and the harm that may also be caused by them. That, Dirprwy Lywydd, is the most modest and mainstream way of proceeding. Our lives are absolutely full of devices where we use the power of collective action to realise the positives and to contain the negatives. Many of us will go home this evening by car and our lives would be hard to imagine without them, but we are not allowed to drive simply wherever we like, whenever we like and however we like. We legislate and we regulate to harness the good and to restrict the harm.

Now, the regime that the Government seeks to establish in relation to nicotine inhaling devices is squarely in that balanced tradition. Nothing that we propose in this Bill prevents an e-cigarette from being used anywhere a conventional cigarette can be used. Anywhere you can use a conventional cigarette, you will be able to use one of these devices as well. There is no such thing as a ban in this Bill, as I've heard that word several times this afternoon. There is no ban at all. If you are a cigarette user and you would rather use a nicotine inhaling device, then anywhere you use that cigarette, you will be able to use that nicotine inhaling device as well.

That's why our proposals are balanced proposals. That's why we are opposed to the amendments in this group. Amendments passed at Stage 2 and further amendments before you today will, if passed, identify in law those specific places that must be nicotine inhaling device-free. These are places where children are most likely to be present. That possibility and that protection for children would be entirely denied if this group of non-Government amendments were to be supported, because they remove all references to nicotine inhaling devices from the overview and the long title—

Nawr, mae'n berffaith bosibl cymryd safbwyt gwahanol ar y dystiolaeth. Y safbwyt y mae'r Llywodraeth wedi'i gymryd drwy gydol y datblygu a'r craffu ar y Bil hwn yw hyn: y dylem gadw'r cynnydd posibl mewn iechyd a allai ddod o ddefnyddio e-sigaréts ar gyfer rhoi'r gorau i smygu, gan weithredu yn awr i atal y niwed a allai gael ei achosi ganddynt. Y cynnydd posibl mewn iechyd a allai ddod o ddefnyddio e-sigaréts ar gyfer atal niwed a'r niwed a allai hefyd gael ei achosi ganddynt. Dyna, Ddirprwy Lywydd, yw'r ffordd fwyaf cymedrol a phrif ffrwd o symud ymlaen. Mae ein bywydau yn llawn dop o ddyfeisiau lle'r ydym yn defnyddio grym gweithredu ar y cyd i wireddu'r pethau cadarnhaol a rheoli'r pethau negyddol. Bydd llawer ohonom yn mynd adref heno yn y car a byddai ein bywydau yn anodd ei ddychmygu hebddynt, ond nid ydym yn cael gyrru i ble bynnag yr ydym yn dymuno, pryd bynnag yr ydym yn dymuno a sut bynnag yr ydym yn dymuno. Rydym yn deddfu ac rydym yn rheoleiddio i harneisio da ac i gyfngu ar y niwed.

Nawr, mae'r drefn y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei sefydlu mewn cysylltiad â dyfeisiau mewnanadlu nicotin yn gwbl yn y traddodiad cytbwys hwnnw. Nid oes unrhyw beth yr ydym yn ei gynnig yn y Bil hwn yn atal e-sigarét rhag cael ei defnyddio mewn unrhyw fan lle y ceir defnyddio sigarét gonfensiynol. Unrhyw fan lle y cewch ddefnyddio sigarét gonfensiynol, cewch ddefnyddio un o'r dyfeisiau hyn hefyd. Nid oes y fath beth â gwaharddiad yn y Bil hwn, gan fy mod wedi clywed y gair hwnnw sawl gwaith y prynhawn yma. Nid oes gwaharddiad o gwbl. Os ydych yn ddefnyddiwr sigarét ac y byddai'n well gennych ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin, yna, mewn unrhyw le yr ydych yn defnyddio'r sigarét honno, byddwch yn cael defnyddio'r dyfais mewnanadlu nicotin hefyd.

Dyna pam mae ein cynigion yn gynigion cytbwys. Dyna pam yr ydym yn gwrthwnebu'r gwelliannau yn y grŵp hwn. Bydd gwelliannau a basiwyd yng Nghyfnod 2 a gwelliannau pellach ger eich bron heddiw, os c'ant eu pasio, yn nodi mewn cyfraith y manau penodol hynny y mae'n rhaid iddynt fod yn rhai di-ddyfais mewnanadlu nicotin. Mae'r rhain yn fannau lle mae plant yn fwyaf tebygol o fod yn bresennol. Byddai'r posiblwydd hwnnw a'r amddiffyn plant hwnnw yn cael ei wrthod yn gyfan gwbl pe byddai'r grŵp hwn o welliannau heb fod yn rhai'r Llywodraeth yn cael eu cefnogi, oherwydd eu bod yn cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at ddyfeisiau mewnanadlu nicotin o'r trosolwg a'r teitl hir—

17:01 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Member hasn't spoken, I will, of course.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you see a problem with children being able to witness adults drinking alcohol and do you see the parallels with the arguments here, so, therefore, do you think that alcohol should be banned from being drunk in front of children?

A ydych chi'n gweld problem gyda phlant yn gallu gweld oedolion yn yfed alcohol ac a ydych chi'n gweld y tebygrwydd â'r dadleuon yn y fan yma, felly, o'r herwydd, a ydych chi'n credu y dylai alcohol gael ei wahardd rhag cael ei yfed yng ngŵydd plant?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The parallel is utterly fallacious, Dirprwy Lywydd, because of this reason, which the Member surely would understand: that alcohol is something that is steeped in our society already, where we cannot turn the clock back on harm that has already been allowed to occur, whereas e-cigarettes and nicotine inhaling devices are harm that will occur in the future. We can act today to prevent that harm. Now, in what way would we not wish to prevent the risk of our children being drawn into nicotine dependence and from nicotine dependence into dependence on tobacco itself? Why would we not act to prevent that harm when we can, when the harm that is caused by alcohol has already escaped us and we don't have the opportunity that the Member points to? The things are simply not a parallel with one another and to not do the things we can do because there are things that we cannot is hardly a progressive position for her to advocate in front of this Assembly.

So, the effects of these amendments in this group would be to allow the use of nicotine inhaling devices anywhere and everywhere. All of the amendments in this group will be opposed by the Government side today. We will follow in the great radical tradition of Welsh public health policy, and that is a tradition that means that we should act now to prevent harm that need never happen.

Mae'r tebygrwydd yn hollol gamarweiniol, Ddirprwy Lywydd, oherwydd y rheswm hwn, y byddai'r Aelod yn sicr yn ei ddeall: bod alcohol yn rhywbeth sydd wedi ei drwytho yn ein cymdeithas eisoes, lle na allwn droi'r cloc yn ôl ar y niwed y caniatawyd iddo ddigwydd eisoes, tra bod e-sigaréts a dyfeisiau mewnanadlu nicotin yn niwed a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Gallwn weithredu heddiw i atal y niwed hwnnw. Nawr, ym mha ffordd na fyddem ni'n dymuno atal y risg i'n plant gael eu tynnu i mewn i ddibyniaeth ar nicotin ac o ddibyniaeth ar nicotin i ddibyniaeth ar dybaco ei hun? Pam na fyddem ni'n gweithredu i atal y niwed hwnnw pan y gallwn, pan fo'r niwed sy'n cael ei achosi gan alcohol eisoes wedi dianc rhagom ac nad oes gennym y cyfle y mae'r Aelod yn cyfeirio ato? Yn symwl, nid yw'r pethau yn debyg i'w gilydd a phrin fod peidio â gwneud y pethau y gallwn eu gwneud, oherwydd bod pethau na allwn eu gwneud yn sefyllfa flaengar iddi di ei chefnogi ger bron y Cynulliad hwn.

Felly, effeithiau'r gwelliannau hyn yn y grŵp hwn fyddai caniatâu'r defnydd o ddyfeisiadau mewnanadlu nicotin mewn unrhyw fan ac ym mhob man. Bydd pob un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn cael ei wrthwynebu gan ochr y Llywodraeth heddiw. Byddwn yn dilyn yn y traddodiad radicalaidd mawr o bolisi iechyd y cyhoedd Cymru, ac mae hwnnw'n draddodiad sy'n golygu y dylem weithredu nawr i atal niwed nad oes yn rhaid iddo ddigwydd byth.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Kirsty Williams to reply.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:03

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I must say, I'm really surprised by the health Minister's response to Leanne Wood with regard to alcohol. To state that because alcohol is a mainstream activity in our culture and lives, therefore we should not do something to try and restrict the harm of alcohol in our society actually flies in the face of many of the actions and many of the policies that the Minister himself advocates in this Chamber and spends considerable public resources in trying to combat. So, the Minister can't have it both ways. He can't have an alcohol and drugs misuse strategy, he can't spend money on trying to convince those in our society who do harm to themselves and to their communities by abusing alcohol and then say what he has said this afternoon. I'm really sorry that the debate has descended to that level, and, indeed, if I may, Minister, with all due respect, trying to equate the fact that we regulate driving to protect society with the measures here before us is, again, I think, perhaps, a desperate attempt.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n rhaid i mi ddweud, rwyf wir wedi fy synnu gan ymateb y Gweinidog lechyd i Leanne Wood ynglŷn ag alcohol. Mae dweud na ddylem wneud rhywbeth i geisio cyfngu ar niwed alcohol yn ein cymdeithas gan fod alcohol yn weithgaredd prif ffrwd yn ein diwylliant a'n bywydau, mewn gwirionedd yn mynd yn groes i lawer o'r camau a llawer o'r polisiau y mae'r Gweinidog ei hun yn eu cefnogi yn y Siambwr hon ac yn gwario adnoddau cyhoeddus sylweddol wrth geisio mynd i'r afael â nhw. Felly, ni all y Gweinidog ei chael hi bob ffordd. Nid all fod â strategaeth camddefnyddio alcohol a chyffuriau, ni all wario arian ar geisio argyhoeddi'r rhai yn ein cymdeithas sy'n gwneud niwed iddynt hwy eu hunain ac i'w cymunedau trwy gamddefnyddio alcohol, ac yna dweud yr hyn y mae wedi'i ddweud y prynhawn yma. Rwy'n flin bod y ddadl wedi disgyn i'r lefel honno, ac, yn wir, os caf, Weinidog, gyda phob parch, mae ceisio cyfateb y ffaith ein bod yn rheoleiddio gyrru i amddiffyn cymdeithas â'r mesurau sydd yma ger ein bron, unwaith eto, rwy'n credu, efallai, yn ymgais anobeithiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I thank colleagues around the Chamber for their contributions, though? I appreciate it very much indeed. Darren talked about the potential of putting off people from looking to reduce harm to their health by traditional tobacco products. Actually, I'm less concerned about driving people out to the smoking shed, because the vapers I have met who have successfully given up cigarettes rejoice in the fact because, as was referred to earlier, they feel so much better for being tobacco free. I'm confident that those people will continue to be tobacco free. What really concerns me is that those people who are still using cigarettes—still smoking cigarettes—will be put off from taking that step. Darren.

A gaf i ddiolch i gydweithwyr o amgylch y Siambra am eu cyfraniadau, serch hynny? Rwy'n ei werthfawrogi yn fawr iawn yn wir. Siaradodd Darren am y potensial o ddigaloni pobl rhag ceisio lleihau'r niwed i'w hiechyd gan gynnrych tybaco traddodiadol. A dweud y gwir, rwy'n poeni llai am yr yrru pobl allan i'r sied smygu, oherwydd bod yr anadlwyr anwedd yr wyf wedi cyfarfod â hwy sydd wedi llwyddo i roi'r gorau i sigaréts yn llawenhau yn y ffaith, oherwydd, fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach, maent yn teimlo cymaint yn well o fod yn rhydd o dybaco. Rwy'n hyderus y bydd y bobl hynny yn parhau i fod yn rhydd o dybaco. Beth sy'n wir yn peri pryer imi yw y bydd y bobl hynny sy'n dal i ddefnyddio sigaréts—yn dal i smygu sigaréts—yn cael eu digaloni rhag cymryd y cam hwnnw. Darren.

17:05

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I'm very grateful to you for taking an intervention. It's very clear that you were listening to my contribution. I'm grateful for that. The Minister, of course, didn't listen to my contribution. He suggested that I said that there was not a shred of evidence to support some of the points that were made. Of course, my reference to that referred specifically to this issue of undermining the smoking ban, and only that. But I'm very grateful to you for taking the opportunity to take this intervention in order for me to make that point.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am dderbyn ymyriad. Mae'n glir iawn eich bod yn gwrando ar fy nghyfraniad. Rwy'n ddiolchgar am hynny. Ni wnaeth y Gweinidog, wrth gwrs, wrando ar fy nghyfraniad. Awgrymodd fy mod wedi dweud nad oedd affliw o ddim dystiolaeth i gefnogi rhai o'r pwytiau a wnaethpwyd. Wrth gwrs, roedd fy nghyfeiriad at hynny yn cyfeirio'n benodol at y mater hwn o danseilio'r gwaharddiad ar smygu, a dim ond hynny. Ond rwy'n ddiolchgar iawn i chi am gymryd y cyfle i dderbyn yr ymyriad hwn er mwyn i mi wneud y pwynt hwnnw.

17:06

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Darren. Elin went on to talk about the reasons why she feels the approach by the Government this afternoon is worthy of her support. She talked about the principle of renormalisation. I think that that is worthy of due consideration. There was nobody on the committee who wanted to see the renormalisation of smoking. The fact is that, despite hours and hours and hours of being in that committee, there was no evidence to suggest that these products, nicotine inhaling devices, actually do renormalise smoking. And as someone said very eloquently in the debate, what they do do is actually potentially reduce the number of cigarettes that children see. By encouraging people to take up these particular devices, it actually reduces children's exposure to smoking and actually reinforces that actually trying to give up cigarettes is the right thing to do for your health. There is no evidence at all that we saw, in a meaningful sense, that said that by not restricting e-cigarettes we were going to renormalise smoking.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi, Darren. Aeth Elin ymlaen i sôn am y rhesymau pam y mae hi'n teimlo bod ymagwedd y Llywodraeth y prynhawn yma yn haeddu ei chefnogaeth. Soniodd am yr egwyddor o ail-normaleiddio. Credaf fod hynny'n deilwng o ystyriaeth briodol. Nid oedd neb ar y pwylgor a oedd yn dymuno gweld ail-normaleiddio smygu. Y ffaith yw, er gwaethaf oriau ac oriau ac oriau o fod yn y pwylgor hwnnw, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cynhyrchion hyn, dyfeisiau mewnanadlu nicotin, mewn gwirionedd yn ail-normaleiddio smygu. Ac fel y dywedodd rhywun yn huawdl iawn yn y ddadl, yr hyn y maent yn ei wneud mewn gwirionedd o bosibl yw lleihau nifer y sigaréts y mae plant yn eu gweld. Drwy annog pobl i fanteisio ar y dyfeisiau penodol hyn, mewn gwirionedd mae'n lleihau amlygiad plant i smygu ac mewn gwirionedd yn atgyfnerthu mai ceisio rhoi'r gorau i sigaréts mewn gwirionedd yw'r peth iawn i'w wneud ar gyfer eich iechyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl a welsom, mewn ystyr ystylon, a oedd yn dweud ein bod yn mynd i ail-normaleiddio smygu trwy beidio â chyfyngu ar e-sigaréts.

Elin also said that she was motivated by the issue of clarity. Well, actually, the Minister, at the outset of this process, said that he wanted to ensure that there was no problem in enforcing the existing smoking ban. Well, I tell you, this is really a dog's dinner now. Rather than promoting clarity, this just confuses the issue. You now have to have a long list to know exactly where this is illegal, where—. So, in terms of enforcement of bans, and in terms of clarity for individuals, this actually confuses the picture and doesn't deliver what Elin was saying. It actually makes it more difficult for people to understand.

Dyweddodd Elin hefyd ei bod wedi ei hysgogi gan y mater o eglurder. Wel, mewn gwirionedd, ar ddechrau'r broses hon, dywedodd y Gweinidog, ei fod eisiau sicrhau nad oedd unrhyw broblem wrth orfodi'r gwaharddiad presennol ar smygu. Wel, rwy'n dweud wrthych, mae hwn yn gawdel erbyn hyn. Yn hytrach na hyrwyddo eglurder, mae hyn yn drysu'r mater. Mae'n rhaid i chi nawr gael rhestr hir i wybod yn union lle mae hyn yn anghyfreithlon, lle mae —. Felly, o ran gorfodi gwaharddiadau, ac o ran eglurder i unigolion, mae hyn mewn gwirionedd yn drysu'r darlun ac nid yw'n cyflawni'r hyn yr oedd Elin yn ei ddweud. Mae mewn gwirionedd yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl ei ddeall.

Can I say this about the issue of jobs and the economy? I don't want to dismiss those jobs, and I don't want to dismiss those issues, but this is a public health Bill. I think we do have to be absolutely strict in our interpretation of this law in that sense. Therefore, I think those arguments are best made somewhere else because this is about public health.

Jocelyn, very eloquently—and Jocelyn, I will miss you so much being here in this Chamber, because you always do bring that down-to-earth 'park girl' presence here to the Chamber. Jocelyn, like me, starts from a philosophical argument. As a liberal, I do not believe it is the role of Government to use the instruments of the state to restrict the behaviours and the actions of individuals in that state, unless there are very good reasons to do so. I've not seen that there is any good reason for the instruments of the state to restrict citizens' behaviour in this way.

Elin says that the one thing that I have convinced her over five years, sitting next to her on the health committee, is that she is not a liberal. [Laughter.] But I do come to this from an essentially libertarian point of view. Like you, I supported the ban. I supported the ban on traditional cigarettes because the evidence was clear: that your actions as a smoker were impacting negatively on another person. That's where my liberal instincts end, and you have to protect the other person. But that is not the case here in the arguments today.

Now, I've heard that the habit is vulgar. People don't like to see it, people don't want to breathe in other people's vape, and as I joked with Alun Davies in the committee, sometimes I'm overwhelmed by his aftershave, but we don't restrict—[Laughter.] Just because someone is impacted upon by somebody else, we don't legislate in that regard. We really, really don't, and if we go down that road, we're on a very slippery slope indeed. It is right that people buying these products should know what's in the product, and it's right that these products should be regulated. I agree wholeheartedly with that.

Can I talk to this point about effectiveness and whether this is an effective tool for giving up? The Minister said that this is the least effective method of giving up traditional cigarettes. I think the Minister is referring to a specific report. If you look at that report, Minister, my understanding of that report is that it considered people who were using NIDs to give up smoking and it included dual-use users who had no intention of actually ending their tobacco smoking habit, and therefore it is not a true reflection of the effectiveness of giving up, whereas other studies have been quite clear that it is an effective method for people to give up. That's why—

A gaf i ddweud hyn am y mater o swyddi a'r economi? Nid oes arnaf eisiau diystyr u'r swyddi hynny, ac nid oes arnaf eisiau diystyr u'r materion hynny, ond Bil iechyd y cyhoedd yw hwn. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn gwbl lym yn ein dehongliad o'r gyfraith hon yn yr ystyr hwnnw. Felly, credaf y byddai'n well gwneud y dadleuon hynny yn rhywle arall oherwydd mae hyn yn ymweud ag iechyd y cyhoedd.

Roedd Jocelyn, yn huawdl iawn—a Jocelyn, byddaf yn gweld eich eisiau chi yn arw yma yn y Siambra hon, oherwydd eich bod bob amser yn dod â'r presenoldeb traed ar y ddaear 'merch parc' yma i'r Siambra. Mae Jocelyn, fel finnau, yn dechrau o ddadl athronyddol. Fel rhyddfrydwr, nid wyf yn credu mai swyddogaeth y Llywodraeth yw defnyddio offerynnau'r wladwriaeth i gyfyngu ar ymddygiad a gweithredoedd unigolion yn y wladwriaeth honno, oni bai bod rhesymau da iawn dros wneud hynny. Nid wyf wedi gweld bod unrhyw reswm da dros offerynnau'r wladwriaeth i gyfyngu ar ymddygiad dinasyddion yn y modd hwn.

Mae Elin yn dweud mai'r un peth yr wyf wedi'i hargyhoeddi hi ynglŷn ag ef dros bum mlynedd, yn eistedd wrth ei hochr ar y pwylgor iechyd, yw nad yw'n rhyddfrydwr. [Chwerthin.] Ond rwyf yn dod at hyn o safbwyt libertaraidd yn ei hanfod. Fel chithau, cefnogais y gwaharddiad. Cefnogais y gwaharddiad ar sigaréts traddodiadol gan fod y dystiolaeth yn glir: bod eich gweithredoedd fel ysmgywr yn cael effaith negyddol ar berson arall. Dyna lle mae fy ngreddfa rhyddfrydol yn dod i ben, ac mae'n rhaid i chi amddiffyn y person arall. Ond nid yw hynny'n wir yn y dadleuon yma heddiw.

Nawr, rwyf wedi clywed bod yr arfer yn ddi-chwaeth. Nid yw pobl yn hoffi ei weld, nid yw pobl eisiau mewnanadlu anwedd pobl eraill, ac fel yr oeddwn yn cellwair gydag Alun Davies yn y pwylgor, weithiau rwy'n cael fy llethu gan ei bersawr eillio, ond nid ydym yn cyfyngu—[Chwerthin.] Dim ond oherwydd bod rhywun yn cael ei effeithio gan rywun arall, nid ydym yn deddfu yn y cyswllt hwnnw. Nid ydym wir yn gwneud hynny, ac os ydym yn mynd i lawr y llwybr hwnnw, rydym ar lethr llithrig iawn yn wir. Mae'n iawn i'r bobl sy'n prynu'r cynhyrchion hyn gael gwybod beth sydd yn y cynyrrch, ac mae'n iawn y dylai'r cynhyrchion hyn gael eu rheoleiddio. Rwyf yn cytuno'n llwyr â hynny.

A gaf i siarad am y pwynt yngylch effeithiolrwydd a pha un a yw hwn yn offeryn effeithiol ar gyfer rhoi'r gorau iddi? Dywedodd y Gweinidog mai dyma'r dull lleiaf effeithiol o roi'r gorau i sigaréts traddodiadol. Rwy'n meddwl bod y Gweinidog yn cyfeirio at adroddiad penodol. Os edrychwch chi ar yr adroddiad hwnnw, Weinidog, fy nealltwriaeth i o'r adroddiad hwnnw yw ei fod yn ystyried pobl a oedd yn defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin i roi'r gorau i smygu ac roedd yn cynnwys defnyddwyr defnydd deuol nad oedd ganddynt unrhyw fwriad mewn gwirionedd o roi'r gorau i'w harfer o smygu tybaco, ac felly nid yw'n adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd rhoi'r gorau iddi, tra bod astudiaethau eraill wedi bod yn eithaf clir ei fod yn ddull effeithiol i bobl i roi'r gorau iddi. Dyna pam—

17:11

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That's why they're being used by the NHS in England.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dyna pam y maent yn cael eu defnyddio gan y GIG yn lloegr.

17:11

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Exactly. The NHS in England is actually considering making these products available on prescription. If they were such a harm to people's health, then why would that be about to happen?

The evidence does show us that if you equate nicotine inhaling device products with traditional cigarettes, it dissuades those who would be minded to use them to give up. The Minister talks about a precautionary principle. My precautionary principle in this debate today is that I want to be very cautious about putting off people who could be tobacco free because we will introduce this ban today. That is not a public health gain; that is a public health loss, and I urge the Chamber to vote in favour of these amendments.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yn union. Mae'r GIG yn Lloegr mewn gwirionedd yn ystyried rho'i'r cynhyrchion hyn ar gael ar bresgripsiwn. Pe byddent yn achosi cymaint o niwed i iechyd pobl, yna pam y byddai hynny ar fin digwydd?

Mae'r dystiolaeth yn dangos i ni os ydych yn cyfateb cynhyrchion dyfais mewnanadlu nicotin gyda sigaréts traddodiadol, mae'n darbwyllo'r rhai a fyddai'n ystyried eu defnyddio i roi'r gorau iddi. Mae'r Gweinidog yn sôn am egwyddor ragofalus. Fy egwyddor ragofalus i yn y ddadl hon heddiw yw fy mod am fod yn ofalus iawn yngylch digalonni pobl a allai fod yn rhydd o dybaco oherwydd y byddwn yn cyflwyno'r gwaharddiad hwn heddiw. Nid yw hynny'n gynnydd yn iechyd y cyhoedd; mae hynny'n golled iechyd y cyhoedd, ac anogaf y Siambra i bleidleisio o blaid y gwelliannau hyn.

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24; there voted against 31; there was one abstention. Therefore, amendment 3 falls.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid; pleidleisiodd 31 yn erbyn; gwnaeth un ymatal. Felly, mae gwelliant 3 yn methu.

Gwrthodwyd gwelliant 3: O blaid 24, Yn erbyn 31, Ymatal 1.

Amendment 3 not agreed: For 24 Against 31, Abstain 1.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.](#)

[Result of the vote on amendment 3.](#)

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Kirsty Williams, amendment 4.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiwyd gwelliant 4 (Kirsty Williams, gyda chefnogaeth Darren Millar).

Amendment 4 (Kirsty Williams, supported by Darren Millar) moved.

17:12

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 31. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 31 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 4 ei dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 4: O blaid 25, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Amendment 4 not agreed: For 25, Against 31, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4.](#)

[Result of the vote on amendment 4.](#)

Grŵp 2: Mangreоedd a Cherbydau di-fwg (Gwelliannau 56, 57, 60, 61, 62, 63, 64, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 125, 127, 128, 131, 134, 138, 140, 146, 96, 51)

Group 2: Smoke-free Premises and Vehicles (Amendments 56, 57, 60, 61, 62, 63, 64, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 125, 127, 128, 131, 134, 138, 140, 146, 96, 51)

17:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The second group of amendments relates to smoke-free premises and vehicles. The lead amendment in this group is amendment 56. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r ail grŵp o welliannau yn ymweud â mangreodd a cherbydau di-fwg. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 56. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 56 (Mark Drakeford).

17:13

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I move amendment 56 and all other amendments in this group.

Amendment 56 (Mark Drakeford) moved.

The introduction of smoke-free public places in Wales in 2007 has been a major public health success, resulting in reduced exposure to second-hand smoke. This Bill gives us the opportunity to introduce further smoke-free spaces, this time non-enclosed, to protect further the Welsh public and, particularly, children and young people. It has always been the Government's policy intention to make school grounds, public playgrounds and hospital grounds smoke free, and at Stage 2 I committed to doing so on the face of the Bill, rather than through regulations.

Mae cyflwyno mannau cyhoeddus di-fwg yng Nghymru yn 2007 wedi bod yn llwyddiant iechyd cyhoeddus o bwys, gan arwain at lai o amlygiad i fwg ail-law. Mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle i gyflwyno mannau di-fwg pellach inni, y tro hwn rhai nad ydnt yn amgaedig, er mwyn diogelu'r cyhoedd yng Nghymru ymhellach ac, yn arbennig, plant a phobl ifanc. Mae bob amser wedi bod yn fvriad polisi'r Llywodraeth i wneud tir ysgolion, meysydd chwarae cyhoeddus a thir ysbytai yn ddi-fwg, ac yng Nghyfnod 2 ymrwymais i wneud hynny ar wyneb y Bil, yn hytrach na drwy reoliadau.

Amendments 60, 61 and 62 set out the extent to which these places are to be smoke free and, in the case of hospital grounds and schools that provide residential accommodation, permit managers to designate an area in which smoking will be allowed. Any conditions related to such designations will be set out in regulations, and those regulations will be subject to the affirmative procedure.

Mae gwelliannau 60, 61 a 62 yn nodi i ba raddau y mae'r lleoedd hyn i fod yn ddi-fwg ac, yn achos tir ysbytai ac ysgolion sy'n darparu llety preswyll, yn caniatáu i reolwyr ddynodi ardal lle bydd smygu yn cael ei ganiatáu. Bydd unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â dynodiadau o'r fath yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a bydd y rheoliadau hynny yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Public playgrounds, which, for the purposes of these amendments, are those under the control of, or managed to any extent by, a local authority or community council, will be required to be smoke free all of the time. In all cases, any areas used as part of a dwelling are excepted. Any area of a hospital ground that is used as part of an adult care home or adult hospice is also not required to be smoke free. A small number of the amendments clarify provisions about smoking-related offences, additional smoke-free premises, exemptions to the smoke-free regime, and that premises may be smoke free because they are covered by one or more sections in Chapter 1 of Part 2 of the Bill. Amendment 56 updates cross referencing. Amendment 51 updates the overview of the Bill.

Bydd yn ofynnol i feysydd chwarae cyhoeddus, sydd, i ddibenion y gwelliannau hyn, y rhai dan reolaeth, neu'n cael eu rheoli i unrhyw raddau gan, awdurdod lleol neu'r cyngor cymuned, yn ddi-fwg drwy'r amser. Ym mhob achos, bydd unrhyw ardal oedd a ddefnyddir fel rhan o annedd yn cael eu heithrio. Nid oes angen i unrhyw ardal o dir ysbyty sy'n cael ei defnyddio fel rhan o gartref gofal i oedolion neu hobsis i oedolion fod yn ddi-fwg. Mae nifer fach o'r gwelliannau yn egluro darpariaethau yngylch troseddau sy'n gysylltiedig â smygu, mangreodd di-fwg ychwanegol, eithriadau i'r drefn ddi-fwg, ac y gall safle fod yn ddi-fwg oherwydd ei bod yn cael ei chwmpasu gan un neu fwy o adrannau ym Mhennod 1 o Ran 2 y Bil. Mae gwelliant 56 yn diweddu croes gyfeirio. Mae gwelliant 51 yn diweddu'r trosolwg o'r Bil.

Amendment 96 adds to the list of regulations that are subject to the affirmative procedure. The regulations added are those made under the regulation-making powers inserted by amendments 60 and 61, relating to the designations of areas in hospitals and school grounds as being areas where smoking can be permitted.

Mae gwelliant 96 yn ychwanegu at y rhestr o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Y rheoliadau a ychwanegir yw'r rhai a wnaed o dan y pwerau i wneud rheoliadau a fewnosodwyd gan welliannau 60 a 61, sy'n ymweud â dynodiadau o ardaloedd mewn ysbytai a thir yr ysgol fel bod yn ardaloedd lle gellir caniatáu smygu.

Amendment 73 inserts a definition of 'playground equipment', which is needed for the provisions on public playgrounds. A further 16 amendments in this group move definitions and interpretation for the terms used in the new sections on smoke-free school grounds, hospital grounds and public playgrounds. They were all previously included in Schedule 1, applying to nicotine inhaling devices only, but are being repositioned in the Bill as they are now also relevant to the smoking provisions in Chapter 1.

I ask Members to support all the amendments in this group. Members have previously supported a series of measures in this Assembly term to support our aim of a smoke-free Wales. The amendments in this group build again on the ground that was broken in Wales in restricting smoking in enclosed and substantially enclosed public places, and I ask Members to support them today.

Mae gwelliant 73 yn mewnosod diffiniad o 'offer maes chwarae', sydd ei angen ar gyfer y darpariaethau ar feysydd chwarae cyhoeddus. Mae 16 gwelliant pellach yn y grŵp hwn yn cynnig diffiniadau a dehongliad ar gyfer y termau a ddefnyddir yn yr adrannau newydd ar dir ysgolion, tiroedd ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg. Cawsant eu cynnwys i gyd yn flaenorol yn Atodlen 1, yn berthnasol i ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn unig, ond maent yn cael eu hail-leoli yn y Bil gan eu bod bellach yn berthnasol i'r darpariaethau smygu ym Mhennod 1.

Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r holl welliannau yn y grŵp hwn. Mae aelodau yn flaenorol wedi cefnogi cyfres o fesurau yn nhymor y Cynulliad hwn i gefnogi ein nod o greu Cymru ddi-fwg. Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn adeiladu eto ar y tir gafodd ei dorri yng Nghymru o ran cyfyngu ar smygu mewn manau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, a gofynnaf i'r Aelodau eu cefnogi heddiw.

17:16

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for moving the amendments in group 2? As stated earlier, the Welsh Liberal Democrats recognise the harm to public health posed by cigarettes. During the passage of this Assembly term we have supported Government attempts to reduce and to restrict the use of those cigarettes, most notably in cars, and therefore we will be supporting the amendments before us today that look to create an environment where we take all steps possible to discourage people from smoking.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gaf i ddiolch i'r Gweinidog am gynnig y gwelliannau yng ngrŵp 2? Fel y nodwyd yn gynharach, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cydnabod y niwed i iechyd y cyhoedd a achosir gan sigaréts. Yn ystod hynt tymor y Cynulliad hwn rydym wedi cefnogi ymdrechion y Llywodraeth i leihau ac i gyfyngu ar y defnydd o'r sigaréts hynny, yn fwyaf nodedig mewn ceir, ac felly byddwn yn cefnogi'r gwelliannau sydd ger ein bron heddiw sy'n edrych i greu amgylchedd lle rydym yn cymryd pob cam posibl i annog pobl i beidio â smygu.

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister to reply.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for her support.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth.

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 56 be agreed. Does any Member object? Then amendment 56 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 56 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwnebu? Yna caiff gwelliant 56 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd gwelliant 56 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 56 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Kirsty Williams, amendment 5.

Kirsty Williams, gwelliant 5.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiwyd gwelliant 5 (Kirsty Williams, gyda chefnogaeth Darren Millar).

Amendment 5 (Kirsty Williams, supported by Darren Millar) moved.

17:17

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I formally move.

Cynigiaf yn ffurfiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 31, so amendment 5 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 31 yn erbyn, felly ni chaiff gwelliant 5 ei dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 25, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Amendment 5 not agreed: For 25, Against 31, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5.](#)

[Result of the vote on amendment 5.](#)

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 57.

Weinidog, gwelliant 57.

Cynigiwyd gwelliant 57 (Mark Drakeford).

Amendment 57 (Mark Drakeford) moved.

17:18

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 57 be agreed. Does any Member object? Then amendment 57 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 57 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 57 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 57 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 57 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Kirsty Williams, amendment 6.

Kirsty Williams, gwelliant 6.

Cynigiwyd gwelliant 6 (Kirsty Williams, gyda chefnogaeth Darren Millar).

Amendment 6 (Kirsty Williams, supported by Darren Millar) moved.

17:18

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwy'n cynnig.

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 6 is agreed, amendments 58 and 59 will fall. The question is that amendment 6 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 31, therefore amendment 6 is not agreed.

Os derbynir gwelliant 6, bydd gwelliannau 58 a 59 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 31 yn erbyn, felly ni chaiff gwelliant 6 ei dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 25, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Amendment 6 not agreed: For 25, Against 31, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.](#)

[Result of the vote on amendment 6.](#)

Grŵp 3: Mangreoedd a Cherbydau Diddyfais Mewnanadlu Nicotin (Gwelliannau 58, 59, 65, 66, 67, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 118, 119, 120, 121, 123, 147, 95, 52, 53, 54)

Group 3: Nicotine inhaling Device-free Premises and Vehicles (Amendments 58, 59, 65, 66, 67, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 118, 119, 120, 121, 123, 147, 95, 52, 53, 54)

17:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The third group of amendments relates to NID-free premises and vehicles. The lead amendment in this group is amendment 58. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r trydydd grŵp o welliannau'n ymwneud â mangreoedd a cherbydau di-ddyfais mewnanadlu nicotin. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 58. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 58 (Mark Drakeford).

Amendment 58 (Mark Drakeford) moved.

17:19

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Members will be aware that at Stage 2 amendments were agreed that moved away from a regime in which restrictions on e-cigarettes and conventional cigarettes would be identical, and instead created a new, more focused and precise set of arrangements in relation to the use of nicotine inhaling devices, such as e-cigarettes. The new regime is constructed around those public places where children are most likely to be present, and where smoking has already been de-normalised due to the smoke-free requirements. The Bill now creates that regime through a Schedule—Schedule 1—divided into four Parts. Part 1 lists those places that are to be nicotine inhaling device free, and the extent to which they are to be so free. Part 2 of the Schedule lists those premises that are to be NID free, but where the managers may designate an area in which nicotine inhaling device use may be permitted. Part 3 of the Schedule lists those premises that are provided with a general exemption to the NID-free requirement. So, these are places where no restrictions on NID use will now apply. Part 4 provides for definitions and interpretation of the terms used elsewhere in Schedule 1.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd Aelodau'n ymwybodol y cytunwyd ar welliannau yng Nghyfnod 2 a oedd yn symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn lle byddai cyfyngiadau ar e-sigaréts a sigaréts confensiynol yn union yr un fath, ac yn hytrach crëwyd cyfres o drefniadau â mwy o bwyslais a mwy manwl ynglŷn â'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, fel e-sigaréts. Mae'r drefn newydd wedi ei hadeiladu o amgylch y manau cyhoeddus hynny lle mae plant yn fwyaf tebygol o fod yn bresennol, a lle mae smygu eisoes wedi cael ei ddad-normaleiddio oherwydd y gofynion di-fwg. Mae'r Bil yn awr yn creu'r gyfundrefn honno drwy Atodlen—Atodlen 1—wedi'i rhannu'n bedair Rhan. Mae Rhan 1 yn rhestru'r lleoedd hynny sydd am fod yn ddi-ddyfais mewnanadlu nicotin, ac i ba raddau y byddant yn ddi-ddyfais. Mae Rhan 2 yr Atodlen yn rhestru'r mangreoedd hynny sydd am fod yn ddi-ddyfais mewnanadlu nicotin, ond lle gall y rheolwyr neilltuo ardal lle y gelir caniatáu defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin. Mae Rhan 3 yr Atodlen yn rhestru'r mangreodd hynny sy'n cael eu darparu gydag eithriad cyffredinol i'r gofyniad di-ddyfais mewnanadlu nicotin. Felly, mae'r rhain yn lleoedd lle na fydd cyfyngiadau ar ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin yn berthnasol nawr. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer diffiniadau a dehongliad o'r termau a ddefnyddir mewn mannau eraill yn Atodlen 1.

Dirprwy Lywydd, this group of amendments is technical in nature. There is nothing new in the group. The amendments refine, clarify and update the Bill to take account of Stage 2 amendments. Any proposed additions that will extend the provisions to other types of places and exemptions, which will exclude a number of premises from the NID-free requirement, will be discussed when we come to group 5.

Ddirprwy Lywydd, mae'r grŵp hwn o welliannau yn dechnegol eu natur. Nid oes unrhyw beth newydd yn y grŵp. Mae'r gwelliannau yn mireinio, yn egluro ac yn diweddu'r Bil er mwyn ystyried gwelliannau Cyfnod 2. Bydd unrhyw ychwanegiadau arfaethedig a fydd yn ymestyn y darpariaethau i fathau eraill o leoedd ac eithriadau, a fydd yn eithrio nifer o adeiladau o'r gofyniad di-ddyfais mewnanadlu nicotin, yn cael eu trafod pan ddown at grŵp 5.

Within this group, group 3, amendments 58 and 59 have the effect of providing the Welsh Ministers with the power to designate the particular types of NID-free premises to which the offence of failing to prevent the use of an NID applies. Amendment 65 provides the Welsh Ministers with the power to make regulations, subject to the affirmative procedure, to provide the flexibility to respond to new arguments and alter the circumstances in which premises listed in Schedule 1 are required to be nicotine inhaling device free. Amendment 66 clarifies that premises can only be required to be NID free if they are also smoke free. And amendment 67 clarifies that, for premises listed in Part 2 of Schedule 1, any areas designated for NID use cannot be premises covered by Part 1 of Schedule 1. This means, for example, that the cafe in a hospital may not be designated as an area where NID use is permitted because food establishments are separately listed in Part 1 of the Schedule.

Amendment 123 provides clarity to the general exemption from the NID-free requirements for dwellings, by making it clear that it does not apply in the parts of dwellings being used for the provision of childcare or during the times at which they are being used for the provision of childcare. The remaining amendments in this group serve to update the overview provision and the list of regulations that are subject to the affirmative procedure. Others make minor drafting corrections in the Welsh-language version of the Bill. I ask Members to support them.

O fewn y grŵp hwn, grŵp 3, mae gan welliannau 58 a 59 yr effaith o ddarparu i Weinidogion Cymru y pŵer i ddynodi mathau penodol o fangreodd di-ddyfais mewnanadlu nicotin lle mae'r drosedd o fethu ag atal y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin yn berthnasol. Mae gwelliant 65 yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn darparu'r hyblygrwydd i ymateb i ddadleuon newydd a newid yr amgylchiadau lle y bydd yn ofynnol i fangreodd a restrir yn Atodlen 1 fod yn ddi-ddyfais mewnanadlu nicotin. Mae gwelliant 66 yn egluro na all fod yn ofynnol i fangreodd fod yn ddi-ddyfais mewnanadlu nicotin oni bai eu bod hefyd yn ddi-fwg. Ac mae gwelliant 67 yn egluro, ar gyfer mangroedd a restrir yn Rhan 2 Atodlen 1, na chaiff unrhyw fannau wedi'u neilltuo ar gyfer defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin fod yn fangreodd sy'n dod o dan Ran 1 o Atodlen 1. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, efallai na fydd y caffi mewn ysbty yn cael ei ddynodi fel man lle y caniateir defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin oherwydd bod sefydliadau bwyd yn cael eu rhestru ar wahân yn Rhan 1 yr Atodlen.

Mae gwelliant 123 yn rhoi eglurder i'r eithriad cyffredinol rhag y gofynion di-ddyfais mewnanadlu nicotin ar gyfer anheddua, drwy ei gwneud yn glir nad yw'n berthnasol yn y rhannau o anheddua sy'n cael eu defnyddio ar gyfer darparu gofal plant neu yn ystod yr adegau y maent yn cael eu defnyddio ar gyfer darparu gofal plant. Mae gweddill y gwelliannau yn y grŵp hwn yn gwasanaethu i ddiweddarau'r ddarpariaeth drosolwg a'r rhestr o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae eraill yn gwneud mân gywiriadau drafftio yn fersiwn Gymraeg y Bil. Gofynnaf i'r Aelodau eu cefnogi.

17:22

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddweud ar y dechrau, am y rhan fwyaf o'r gwelliannau yn y grŵp hwn, nad mater o bryder na hyd yn oed mater o fwriad yw'r gwahaniaeth rhwng safbwyt y Llywodraeth a'u cynigyd, ond dim ond mater o ddull ac amseru? Rwy'n rhannu'r pryderon a nododd Darren Millar, bod gan driniaethau addasu'r corff, fel holiti tafod, creithio a brandio, y potensial i achosi niwed sylweddol i iechyd. Yr hyn nad wyf yn cytuno ag ef yw y dylid ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig ar hyn o bryd, heb gyfle trefnus a phriodol i archwilio goblygiadau ymarferol gwneud hynny, gyda'r diwydiant a gyda'i ddefnyddwyr. Gofynnodd Darren Millar, 'Pam aros?', ac rwy'n meddwl mai'r ateb yw, 'Er mwyn ei wneud yn iawn', a'i wneud yn iawn drwy wneud yr archwilio sydd ei angen gyda'r bobl sy'n darparu rhai o'r gwasanaethau hyn, a rhai o'r bobl sy'n eu defnyddio, yn ogystal â'r bobl a fydd yn eu rheoleiddio a'u harolygu wrth eu gwaith yn y dyfodol, a rhoi cyfle i ni, fel deddfwyr, i edrych ar rai cwestiynau cyfreithiol a moesol cymhleth sy'n codi ynglŷn â'r triniaethau hyn mewn ffordd nad ydynt yn codi gyda'r pedwar sydd eisoes wedi'u nodi ar wyneb y Bil; rwy'n meddwl bod rhaid rhoi sylw i hynny cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i'w hychwanegu at ddeddfwriaeth.

Oherwydd, Ddirprwy Lywydd, rwyf yn meddwl y dylwn egluro beth, yn fy marn i, y byddai pleidleisio o blaids y gwelliannau hyn y prynhawn yma yn ei olygu. Byddai'n golygu y byddai angen ichi fod yn fodlon bod gennym eisoes bopeth sydd ei angen yn ei le, pob dadl wedi'i pharatoi yn y ffordd angenrheidiol, nes y byddem ni fel Aelodau unigol o'r Cynulliad yn fodlon gweld arwydd mewn ffenestr siop yn dweud, 'Brandio a holtti tafod, a gydnabyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'. Oherwydd, os ydych yn dod â'r gweithgareddau hynny heddiw'n uniongyrchol o fewn cwmpas y gyfraith, yna rydych, i ryw raddau, yn cyfreithloni'r gweithgaredd hwnnw. Ac rwy'n meddwl bod rhai cwestiynau difrifol ar ffin y gyfraith droseddol, yn ogystal ag ystyriaethau moesegol, y dylem, yn syml, gymryd ychydig mwy o amser i'w harchwilio cyn inni benderfynu heddiw ein bod mor sicr ein bod yn barod i symud ar unwaith i'r cyfeiriad hwn.

O ran y gwelliannau ar fewnblannu is-groen—gwelliannau 31 a 38 yw'r rheini, yn benodol—rwy'n nodi nad yw geiriad y gwelliannau wedi newid ers y rhai a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2. Mae gen i farn wahanol i'r cynigyd. Fy marn i o hyd yw y byddai'r gwelliannau hyn yn cynnwys nid yn unig driniaethau fel llenwi croenol, ond hefyd lawdriniaeth gosmetig, gan gynnwys mwyhau bronau. Nid wyf o reidrwydd yn gwrthwynebu rheoleiddio'r gweithgareddau hynny, ond rwyf o'r farn nad yw rheoleiddio llawdriniaeth gosmetig yn fater i awdurdodau lleol ymgymryd ag ef, ac, felly, nid y Bil hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol cywir i reoleiddio'r triniaethau hynny.

Felly, ni allaf gefnogi gwelliannau Darren Millar i'w hychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig, fel hyn, ar hyn o bryd. Yn hytrach, rwy'n credu y dylem ddefnyddio'r pwerau y mae'r Bil yn eu darparu i ymgynghori â'r sector, i gasglu tystiolaeth o niwed a nifer achosion, ac i ddod â'r casgliadau hynny yn ôl yma i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i benderfynu arnynt.

Dirprwy Lywydd, to answer Kirsty Williams's questions as best I can, I'm not an expert in the further reaches of tattooing, but I am quite certainly advised that tashing is captured already by the definitions that are on the face of the Bill, and I think they've been carefully constructed to encompass other variations of the tattooing art as well. But, Dirprwy Lywydd, because I recognise the real concerns that exist in this area, I want to be entirely clear with Members that the approach I have set out about consultation and bringing material back to the floor of the Assembly is one I intend to put into action. And Kirsty Williams asked for more details of what I mean by that.

Well, I wrote to other Members on 23 February, to make a commitment to undertake a consultation exercise in the autumn of this year, on the principle of adding to the list of special procedures covered by the Bill. If the Bill succeeds in becoming law, a working group will be established before the end of this month, to include representatives from local authorities, Public Health Wales, medical ethicists, and practitioners, and the role of that working group will be to advise on the full list of procedures that should be consulted upon in the autumn, and to assist in identifying information about the procedures, any ethical considerations, and their prevalence here in Wales. A further advantage, I believe, of doing things in that way is that the consultation will cover not only all those procedures included in Darren Millar's amendments, but also other, more common, procedures, identified at Stage 1, which have the potential to cause harm, such as colonic irrigation, but also dermal rolling, wet cupping and UV tanning.

Dirprwy Lywydd, it would be my intention that Assembly Members will be kept informed about the outcomes of the working group and kept updated about the consultation and its findings. If, following that consultation, it is concluded that adding to the list of special procedures in section 59 is the right thing to do, regulations subject to the affirmative procedure will be laid before the National Assembly. In that way, any changes will receive full consideration by Members here with the opportunity for debate.

I hope that Members will agree with me that, rightly concerned as we are about the activities that Members have identified, this is not yet the time to move directly to add to the list of special procedures. But I hope that I can assure you that this is a priority for the next Assembly term, should it be the wish of Members at that time. For these reasons, I ask Members to reject the amendments in the group this afternoon in favour of the assurances that I have given about how we will use regulations in the Bill to take this matter forward.

Ddirprwy Lywydd, i ateb cwestiynau Kirsty Williams crystal ag y gallaf, nid wyf yn arbenigwr ar fanylion tatŵio, ond rwy'n sicr wedi cael clywed bod tashio eisoes wedi'i gwmpasu gan y diffiniadau sydd ar wyneb y Bil, ac rwy'n meddwl eu bod wedi eu llunio'n ofalus i gwmpasu amrywiadau eraill ar gelfyddyd tatŵio hefyd. Ond, Ddirprwy Lywydd, gan fy mod yn cydnabod y pryderon gwirioneddol sy'n bodoli yn y maes hwn, hoffwn fod yn hollol glir â'r Aelodau bod y dull a amlinellais ar gyfer ymgynghori a dod â deunydd yn ôl i lawr y Cynulliad yn un yr wyf yn bwriadu ei roi ar waith. A gofynnodd Kirsty Williams am fwy o fanylion am yr hyn yr wyf yn ei olygu wrth hynny.

Wel, ysgrifennais at yr Aelodau eraill ar 23 Chwefror, i wneud ymrwymiad i gynnal ymarfer ymgynghori yn yr hydref eleni, ar yr egwyddor o ychwanegu at y rhestr o weithdrefnau arbennig a gwmpesir gan y Bil. Os bydd y Bil yn llwyddo i ddod yn gyfraith, caiff gweithgor ei sefydlu cyn diwedd y mis hwn, i gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, lechyd Cyhoeddus Cymru, moesegwyr meddygol, ac ymarferwyr. Swyddogaeth y gweithgor hwnnw fydd cynghori ar y rhestr lawn o driniaethau y dylid ymgynghori arnynt yn yr hydref, a chynorthwyo i ganfod gwybodaeth am y triniaethau, unrhyw ystyriaethau moesegol, a'u mynchyder yma yng Nghymru. Mantais arall, rwy'n credu, o wneud pethau yn y ffodd honno yw y bydd yr ymgynghoriad yn cwmpasu, nid yn unig yr holl driniaethau hynny a gynhwysir yng ngwelliannau Darren Millar, ond hefyd driniaethau eraill, mwy cyffredin, a nodwyd yng Nghyfnod 1, sydd â'r potensial i achosi niwed, fel dyfrhau colonig, ond hefyd dreiglo'r croen, cwpanu gwlyb a lliw haul UV.

Ddirprwy Lywydd, fy mwriad i fyddai diweddaru Aelodau'r Cynulliad yn gyson am ganlyniadau'r gweithgor a rhoï'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr ymgynghoriad a'i ganfyddiadau. Ar ôl yr ymgynghoriad hwnnw, os byddwn yn dod i'r casgliad mai ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig yn adran 59 yw'r peth cywir i'w wneud, gosodir rheoliadau darostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Yn y modd hwnnw, bydd unrhyw newidiadau'n cael ystyriaeth lawn gan yr Aelodau yma a cheir cyfle i gynnal dadl arnynt.

Rwy'n gobeithio y gwnaiff yr Aelodau gytuno â mi, er ein bod yn briodol bryderus am y gweithgareddau y mae'r Aelodau wedi eu nodi, nad hon yw'r adeg i gynnig yn uniongyrchol i ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig. Ond rwy'n gobeithio y gallaf eich sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad, pe bai'r Aelodau'n dymuno gwneud hynny bryd hynny. Am y rhesymau hyn, rwy'n gofyn i'r Aelodau wrthod y gwelliannau yn y grŵp y prynhawn yma, gan ffafrio'r sicrwydd yr wyf wedi'i roi ynghyllch sut y byddwn yn defnyddio'r rheoliadau yn y Bil i fwrr ymlaen â'r mater hwn.

18:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar to reply.

Darren Millar i ateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you, Kirsty and the Minister, for your comments in the debate. Kirsty Williams made reference to the fact that it was quite an education being on the committee and absolutely it was. I've never Googled so many terms in a single meeting in my life or seen so many horrific photographs coming up. I'm surprised the filters in the system here in the Assembly didn't prevent them from popping up onto the screens at times.

It was very clear from the evidence that we received that many of the witnesses wanted these specific items added to the list of special procedures. The Minister listened to the evidence during the committee stage and himself indicated that he wanted to add tongue piercing to the list to make sure that it was included within the scope of the Bill. He refers to the fact that he wants to undertake a consultation on whether additional procedures should be added. I welcome that consultation, but he mustn't forget either that we've already consulted as a National Assembly on some of these things and the feedback that we had, and the evidence that we received, was rather overwhelming that the list of special procedures ought to be added to, and that particularly the issues of branding, scarification, subdermal implantation and tongue splitting were clearly things that, in many cases, can be much more harmful than the procedures that are already on the face of the Bill as it currently stands.

I'm grateful for the clarification on tashing, which again is something that I was not familiar with until this Bill began to make progress during the committee stage and I know that the Minister clarified that in writing to the committee as well.

The Minister has suggested that subdermal implantation is something that perhaps is not best captured or regulated by local authorities. I'm surprised by that assertion because, of course, cosmetic surgery, as I indicated earlier on, is generally undertaken by doctors and by other qualified people who are already regulated as part of a separate system and are therefore exempt as a result of that separate system of regulation, and it specifically notes their exemption in the Bill before us today. So, I don't see an issue there, Minister. I'm surprised you used that argument a second time at this particular stage.

The Minister also referred to this argument of National Assembly or Welsh Government approval for these procedures being advertised if they were to be included on the list. I have to say that I can't see people who want to do ear piercing, et cetera, advertising that they are approved by the National Assembly for Wales. I don't think that that was ever something that was suggested as being a thing that would arise as a result of the inclusion of some of the other special procedures already on the face of the Bill. So, I simply do not see that including these additional items would result in the sort of marketing, if you like, that you have suggested.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chi, Kirsty a'r Gweinidog, am eich sylwadau yn y ddadl. Cyfeiriodd Kirsty Williams at y ffaith ei bod yn dipyn o addysg cael bod ar y pwylgor, ac roedd hynny'n hollol wir. Dydw i erioed yn fy mywyd wedi gorfol mynd ar Google i edrych am gynifer o dermau mewn un cyfarfod nac wedi gweld cynifer o luniau erchyll yn ymddangos. Rwy'n synnu na wnaeth yr hidlwyr yn y system yma yn y Cynulliad eu hatal rhag ymddangos ar y sgriniau ar adegau.

Roedd yn amlwg iawn o'r dystiolaeth a gawsom yr hoffai llawer o'r tystion i'r eitemau penodol hyn gael eu hychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig. Gwrandawodd y Gweinidog ar y dystiolaeth yn ystod y cyfnod pwylgor a nododd ei hun yr hoffai ychwanegu tyllu'r tafod at y rhestr i wneud yn siŵr ei fod wedi'i gynnwys o fewn cwmpas y Bil. Mae'n cyfeirio at y ffaith ei fod am gynnal ymgynghoriad ynglŷn ag a ddylid ychwanegu triniaethau ychwanegol. Rwy'n croesawu'r ymgynghoriad hwnnw, ond rhaid iddo beidio ag anghofio ychwaith ein bod eisoes wedi ymgynghori fel Cynulliad Cenedlaethol ar rai o'r pethau hyn a bod yr adborth a gawsom, a'r dystiolaeth a gawsom, braidd yn llethol y dylid ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig, ac yn arbennig bod materion brandio, creithio, mewnblannu is-groen a holli tafod yn amlwg yn bethau sydd, mewn llawer o achosion, yn gallu bod yn llawer mwy niweidiol na'r triniaethau sydd eisoes ar wyneb y Bil fel y mae ar hyn o bryd.

Rwy'n ddiolchgar am yr eglurhad ar tashio, sydd unwaith eto'n rhywbeth nad oeddwn yn gyfarwydd ag ef nes i'r Bil hwn ddechrau gwneud cynnydd yn ystod y cam pwylgor ac rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi egluro hynny yn ysgrifenedig i'r pwylgor hefyd.

Mae'r Gweinidog wedi awgrymu nad mewnblannu is-groen o bosibl yw'r peth mwyaf addas i awdurdodau lleol ei drin neu ei reoleiddio. Mae'r haeriad hwnnw'n fy synnu oherwydd, wrth gwrs, mae llawdriniaeth gosmetig, fel y dywedais yn gynharach, yn cael ei chyflawni yn gyffredinol gan feddygon a phobl gymwys eraill sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio fel rhan o system ar wahân ac sydd felly wedi eu heithrio o ganlyniad i'r system reoleiddio ar wahân honno, ac mae'n nodi yn benodol eu bod wedi'u heithrio yn y Bil sydd ger ein bron heddiw. Felly, nid wyf yn gweld problem yno, Weinidog. Rwy'n synnu eich bod wedi defnyddio'r ddadl honno eilwaith ar yr adeg arbennig hon.

Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y ddadl hon o hysbysebu cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru i'r triniaethau hyn pe baent yn cael eu cynnwys ar y rhestr. Mae'n rhaid imi ddweud na allaf weld pobl sydd am wneud tyllu clustiau, ac ati, yn hysbysebu eu bod wedi'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid wyf yn meddwl y bu awgrym erioed y byddai hynny'n rhywbeth a fyddai'n codi yn sgil cynnwys rhai o'r triniaethau arbennig eraill sydd eisoes ar wyneb y Bil. Felly, ni allaf weld y byddai cynnwys yr eitemau ychwanegol hyn yn arwain at y math o farchnata, os hoffwch, yr ydych wedi'i awgrymu.

I'm not quite sure what the ethical issues are, which you referred to. I'm happy to take an intervention if you want to outline what they may be.

Dydw i ddim yn hollo siŵr beth yw'r materion moesegol y gwnaethoch gyfeirio atynt. Rwy'n hapus i gymryd ymyriad os hoffech ddisgrifio beth ydynt.

18:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There clearly are ethical issues involved in legitimising activity that, in other circumstances, would be regarded as a breach of the criminal law—an assault on somebody. So, those are the issues that I think need to be thought through. That's why I think we need experts to assist us through consultation.

Mae'n amlwg bod materion moesegol yn gysylltiedig â chyfreithloni gweithgareddau a fyddai, dan amgylchiadau eraill, yn cael eu hystyried yn dorri'r gyfraith droseddol—yn ymosod ar rywun. Felly, y rheini yw'r materion y credaf fod angen eu hystyried. Dyna pam fy mod yn meddwl bod angen arbenigwyr i'n cynorthwyo drwy'r broses ymgynghori.

18:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the reality is that these procedures are already within the law and are already being conducted around the country, so I don't see the ethical argument at all. I mean, if you want to suggest that people ought to be prosecuted for tongue splitting at the moment and for sub-dermal implantation, scarification, then let's hear it. Let's see you encouraging, as a Welsh Government, people to be prosecuted for offences as a result of the current procedures that they're undertaking. But I haven't seen you make that case at all in any way, shape or form. So, I do not accept your argument in terms of the ethics. That's why I want to encourage people to support these amendments today; they're sensible amendments. There were other items that I wanted to add to this list, but on reflection because of the balance of evidence that was received by the committee I confined it just to these specific items, which are deliberately mentioned and carefully mentioned in the Stage 1 committee report. So, I do hope that people will be able to support them.

Wel, y gwir amdani yw bod y gweithdrefnau hyn eisoes o fewn y gyfraith a'u bod eisoes yn cael eu cynnal ledled y wlad, felly nid wyf yn gweld y ddadl foesegol o gwbl. Hynny yw, os hoffech awgrymu y dylid erlyn pobl am holtti tafod ar hyn o bryd ac am wneud mewnblaniadau is-groen, creithio, yna dewch inni glywed hynny. Dewch inni eich gweld yn annog, fel Llywodraeth Cymru, erlyn pobl am droseddau o ganlyniad i'r triniaethau y maent yn eu cynnig ar hyn o bryd. Ond nid wyf wedi eich gweld yn gwneud yr achos hwnnw o gwbl mewn unrhyw ffordd o gwbl. Felly, nid wyf yn derbyn eich dadl am y foeseg. Dyna pam yr hoffwn annog pobl i gefnogi'r gwellianau hyn heddiw; maent yn welliannau synhwyrol. Byddwn wedi hoffi ychwanegu eitemau eraill at y rhestr hon, ond ar ôl myfyrio ar gydbwyseodd y dystiolaeth a gafodd y pwylgor, gwnes ei gyfngu i'r eitemau penodol hyn, sy'n cael eu crybwyllyn fwriadol a'u crybwyllyn ofalus yn adroddiad Cyfnod 1 y pwylgor. Felly, rwy'n gofeithio y bydd pobl yn gallu eu cefnogi.

18:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 28 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 39. Therefore amendment 28 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 28. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 28 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 28: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Amendment 28 not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 28.](#)

[Result of the vote on amendment 28.](#)

18:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar, amendment 29.

Darren Millar, gwelliant 29.

Cynigiwyd gwelliant 29 (Darren Millar).

Amendment 29 (Darren Millar) moved.

18:46 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Move.

Cynnig.

18:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 29 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 39. Therefore amendment 29 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 29. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 29 wedi'i dderbyn.

	Gwrthodwyd gwelliant 29: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.	Amendment 29 not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 29.	Result of the vote on amendment 29.	
18:46	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Darren Millar, amendment 30.	Darren Millar, gwelliant 30.	Senedd.tv Fideo Video
	Cynigiwyd gwelliant 30 (Darren Millar).	Amendment 30 (Darren Millar) moved.	
18:46	Darren Millar Bywgraffiad Biography Move.	Cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:46	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 30 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 39. Therefore amendment 30 is not agreed.	Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 30. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 30 wedi'i dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
	Gwrthodwyd gwelliant 30: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.	Amendment 30 not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 30.	Result of the vote on amendment 30.	
18:47	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Darren Millar, amendment 31.	Darren Millar, gwelliant 31.	Senedd.tv Fideo Video
	Cynigiwyd gwelliant 31 (Darren Millar).	Amendment 31 (Darren Millar) moved.	
18:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography Move.	Cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:47	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 31 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12, there voted against 44. Therefore amendment 31 is not agreed.	Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 31. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid, pleidleisiodd 44 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 31 wedi'i dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
	Gwrthodwyd gwelliant 31: O blaid 12, Yn erbyn 44, Ymatal 0.	Amendment 31 not agreed: For 12, Against 44, Abstain 0.	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 31.	Result of the vote on amendment 31.	
18:47	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Darren Millar, amendment 32.	Darren Millar, gwelliant 32.	Senedd.tv Fideo Video
	Cynigiwyd gwelliant 32 (Darren Millar).	Amendment 32 (Darren Millar) moved.	
18:47	Darren Millar Bywgraffiad Biography Move.	Symud.	Senedd.tv Fideo Video

18:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 32 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 39. Therefore amendment 32 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 32. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae pleidleisio o blaid 17, mae pleidleisio yn erbyn 39. Felly, nid yw gwelliant 32 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 32: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.

Amendment 32 not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 32.](#)

[Result of the vote on amendment 32.](#)

Grŵp 9: Y Drosedd o Roi Triniaeth Arbennig i Bersonau Meddw (Gwelliannau 33, 34)

Group 9: Offence of Performing a Special Procedure on an Intoxicated Person (Amendments 33, 34)

18:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The ninth group of amendments relates to the offence of performing a special procedure on an intoxicated person. The lead amendment in this group is amendment 33, and I call on Darren Millar to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r nawfed grŵp o welliannau'n ymwneud â throsedd cynnal triniaeth arbennig ar berson meddw. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 33, a galwaf ar Darren Millar i gynnig y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp, a siarad amdanynt.

Cynigwyd gwelliant 33 (Darren Millar).

Amendment 33 (Darren Millar) moved.

18:48

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 33, Deputy Presiding Officer, and speak to both it and amendment 34 in this group.

Cynigiaf welliant 33, Ddirprwy Lywydd, ac rwyf am siarad am hwnnw a gwelliant 34 yn y grŵp hwn.

Amendment 34 makes it an offence for an individual to carry out a special procedure on a customer if that individual knows that the customer's awareness has been impaired by intoxication, either by drinks, drugs, psychoactive substances or any other means. This means that it would be an offence to undertake a special procedure on a customer who is drunk and not aware of what he or she is doing, but it would not be an offence to undertake a special procedure on a customer who's been drinking but is not considered to be intoxicated, for example, a customer who might be having a drink in order to get the Dutch courage up to undergo the procedure itself.

Mae gwelliant 34 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn gynnal triniaeth arbennig ar gwsmer os yw'r unigolyn hwnnw'n gwybod bod meddwdod yn amharu ar ymwybyddiaeth y cwsmer, naill ai drwy ddiodydd, cyffuriau, sylweddau seicweithredol neu unrhyw ddull arall. Mae hyn yn golygu y byddai'n drosedd cynnal triniaeth arbennig ar gwsmer sy'n feddw ac yn anymwybodol o'r hyn y mae ef neu hi yn ei wneud, ond ni fyddai'n drosedd cynnal triniaeth arbennig ar gwsmer sydd wedi bod yn yfed, ond nad ystyrir ei fod yn feddw, er enghraifft, cwsmer a llallai fod yn cael diod er mwyn cael dewrder potel gwrw i ymgymryd a'r driniaeth ei hun.

The level of intoxication, or lack of awareness, is not specifically defined in the amendment, and the reason for this is that the amendment follows the example that is in section 141 of the Licensing Act 2003, which makes it an offence to

Nid yw'r gwelliant yn diffinio lefel y meddwdod, neu'r diffyg ymwybyddiaeth, yn benodol, a'r rheswm am hyn yw bod y gwelliant yn dilyn yr enghraifft sydd yn adran 141 Deddf Trwyddedu 2003, sy'n ei gwneud hi'n drosedd i

'knowingly...sell alcohol to a person who is drunk'.

'yn fwriadol ... werthu alcohol i unigolyn sy'n feddw'.

'Drunk' is not defined any further in the Licensing Act 2003, but it's commonly understood.

Nid yw 'meddwd' yn cael ei ddiffinio ymhellach yn Neddf Trwyddedu 2003, ond ceir dealltwriaeth gyffredin o'r term.

The 'knowingly' test in this amendment is also taken from section 141 of the Licensing Act 2003. This Act, of course, has been in force for over a decade, it's not been changed, so there have been no problems in terms of people being able to interpret it. The individual carrying out the procedure would have a defence if he or she

'took reasonable precautions and exercised due diligence to avoid committing the offence.'

The offence under the proposals that I've tabled would be punishable by a level 3 fine, which of course is a fine of up to £1,000, and this is the same level of fine for carrying out the special procedure without a licence, which is already in and on the face of the Bill. It also matches the fine that is currently the fine for selling alcohol to a drunk person under the arrangements in the Licensing Act 2003.

The amendment would also mean that an individual who carries out a special procedure on someone who's intoxicated could be prosecuted for one of two offences, and this was something that the Minister referred to at Stage 2 proceedings. They could be prosecuted for performing a special procedure on an intoxicated person under a public health (Wales) Act, should this amendment be successful, or they could be prosecuted for an offence against the person—causing bodily harm without the person's consent under the Offences Against the Person Act 1861.

The Minister has suggested that creating the possibility of being prosecuted for two offences is problematic, but, having taken legal advice and considered the Minister's position, I'm afraid I disagree with him. Whilst there is a general legislative presumption against being punished twice for the same act, there is absolutely nothing wrong with making an individual liable in respect of two offences, if it's fair to do so. Assembly legislation has already done similar things in the past. For example, the Mobile Homes (Wales) Act 2013 provides that, if site owners fail to comply with a compliance notice, then that site owner can be subject to all sorts of punishments and multiple offences, such as committing a criminal offence, paying a fine, losing their site licence, and the local authority claiming back its costs, which could lead, of course, to a local authority taking a legal charge over the site owner's property.

The problem of tattooing customers who are drunk appears, from the evidence given to the committee, to be a common problem, yet there are relatively few prosecutions for offences against the person in the context of tattooing, which is what the Minister suggested at Stage 2 should be the offence under which people ought to be prosecuted at the moment. In fact, in researching for this debate, I couldn't find a single example of anyone who'd been prosecuted for an offence against the person when I was preparing for the debate. So, creating a new offence, I believe, would be fair as it would help to act as a deterrent whilst also protecting the public from harm because, of course, having a tattoo when the blood is thin, it seems, is a very serious health risk.

Mae'r prawf 'yn fwriadol' yn y gwelliant hwn hefyd wedi'i gymryd o adrann 141 Deddf Trwyddedu 2003. Mae'r Ddeddf hon, wrth gwrs, wedi bod mewn grym ers dros ddegawd, nid yw wedi'i newid, felly ni fu unrhyw broblemau o ran gallu pobl i'w dehongli. Byddai gan yr unigolyn sy'n cynnal y weithdrefn amddiffyniad pe bai ef neu hi

'wedi cymryd rhagofalon rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.'

Byddai'r drosedd o dan y cynigion yr wyf wedi'u cyflwyno yn cael ei chosbi â dirwy lefel 3, sef wrth gwrs dirwy o hyd at £ 1,000, ac yr un yw lefel y ddirwy am gynnwl y driniaeth arbennig heb drwydded, sydd eisoes yn y Bil ac ar ei wyneb. Mae hefyd yn cyfateb i'r ddirwy bresennol am werthu alcohol i unigolyn meddw dan y trefniadau yn Neddf Trwyddedu 2003.

Byddai'r gwelliant hefyd yn golygu y gellid erlyn unigolyn sy'n cyflawni gweithdrefn arbennig ar rywun meddw am un o ddwy drosedd, ac roedd hyn yn rhywbeth y cyfeiriodd y Gweinidog ato yn nhrafodion Cyfnod 2. Gellid eu herlyn am gynnwl triniaeth arbennig ar unigolyn meddw o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), pe bai'r gwelliant hwn yn llwyddiannus, neu gelid eu herlyn am drosedd yn erbyn yr unigolyn—achosi niwed corfforol heb gydsyniad yr unigolyn o dan Ddeddf Troseddau Yn Erbyn yr Unigolyn 1861.

Mae'r Gweinidog wedi awgrymu bod creu'r posibilrwydd o'u herlyn am ddwy drosedd yn broblem, ond, ar ôl cael cyngor cyfreithiol ac ystyried safbwyt y Gweinidog, rwy'n ofni fy mod i'n anghytuno ag ef. Er bod rhagdybiaeth ddeddfwriaethol gyffredinol yn erbyn cosbi rhywun ddwywaith am yr un weithred, nid oes unrhyw beth o'i le mewn gwneud unigolyn yn atebol am ddwy drosedd, os yw'n deg gwneud hynny. Mae deddfwriaeth y Cynulliad eisoes wedi gwneud pethau tebyg yn y gorffennol. Er enghraifft, yn ôl Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, os yw perchnogion safleoedd yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio, gall perchenog y safle wynebu pob math o gosbau a throseddau amryfal, fel cyflawni trosedd, talu dirwy, colli ei drwydded safle, a'r awdurdod lleol yn hawlio ei gostau'n ôl, a allai arwain, wrth gwrs, at awdurdod lleol yn cymryd arwystl cyfreithiol dros eiddo perchenog y safle.

Mae'n ymddangos bod problem tatŵio cwsmeriaid meddw, o'r dystiolaeth a roddwyd i'r pwylgor, yn broblem gyffredin, ac eto nifer gymharol fach o erlyniadau a geir am droseddau yn erbyn yr unigolyn yng nghyd-destun tatŵio, sef y drosedd yr awgrymodd y Gweinidog yn ystod Cyfnod 2 y dylid erlyn pobl amdani ar hyn o bryd. Yn wir, wrth ymchwilio ar gyfer y ddadl hon, ni allwn ddod o hyd i un enghraifft o unrhyw un a gafodd ei erlyn am drosedd yn erbyn yr unigolyn wrth imi baratoi am y drafodaeth. Felly, byddai creu trosedd newydd, rwy'n credu, yn deg gan y byddai'n helpu i weithredu fel rhwystro a hefyd yn amddiffyn y cyhoedd rhag niwed oherwydd, wrth gwrs, mae cael tatŵ pan fo'r gwaed yn denau, mae'n ymddangos, yn risg difrifol iawn i ieched.

At Stage 1, the committee heard substantial evidence to support this view. The Chartered Institute of Environmental Health said that they agreed with the need for a cooling-off period, whether the individual was drunk or not, for tattooing or intimate piercing. And, at Stage 2, when I was listening to the Minister's response to a similar amendment that I'd tabled at that time, the Minister responded by saying that we already have a licensing condition, which has now been approved at the Stage 2 process, in order to ensure that this issue, which is a policy issue that we both agree on, is being addressed. Now, whilst I think that that was absolutely a step in the right direction, I don't think it went far enough, and that's why I've tabled amendment 33, which removes the licensing condition instead in favour of this creation of a criminal offence. I think that we need a much more robust approach and, of course, in terms of a deterrent factor, having a criminal conviction for something is much more of a deterrent than simply having a note that you have breached a licensing condition on a licence that you might hold.

So, as I say, Minister, we do have the same policy objectives; this is something that we absolutely agree needs to be dealt with. It's an issue, really, of how we deal with it. I believe that this is a better way than the way that you have proposed. I hope that Members will agree with me.

Yng Nghyfnod 1, clywodd y pwylgor dystiolaeth sylweddol i ategu'r farn hon. Dywedodd Sefydliad Siartredig lechyd yr Amgylchedd eu bod yn cytuno â'r angen am gyfnod i ailfoddwl, p'un a yw'r unigolyn yn feddw neu beidio, ar gyfer tatŵio neu dyllu rhannau personol o'r corff. Ac, yng Nghyfnod 2, pan oeddwn yn gwrando ar ymateb y Gweinidog i welliant tebyg yr oeddwn wedi'i gyflwyno ar y pryd, atebodd y Gweinidog drwy ddweud bod gennym eisoes gyflwr trwyddedu, sydd nawr wedi cael ei gymeradwyo ym mhroses Cyfnod 2, er mwyn sicrhau bod y mater hwn, sy'n fater polisi y mae'r ddau ohonom yn cytuno arno, yn cael sylw. Nawr, er fy mod yn credu bod hynny'n sicr yn gam i'r cyfeiriad cywir, nid wyf yn credu ei fod wedi mynd yn ddigon pell, a dyna pam yr wyf wedi cyflwyno gwelliant 33, sy'n cael gwared ar yr amod trwyddedu ac yn creu trosedd yn lle hynny. Credaf fod angen dull llawer mwy cadarn ac, wrth gwrs, o ran ffactor ataliol, mae cael euogfarn droseddol am rywbedd yn llawer mwy o arf ataliol na dim ond cael nodyn eich bod wedi torri un o'r amodau trwyddedu ar drwydded a allai fod gennych.

Felly, fel y dywedais, Weinidog, mae gennym yr un amcanion polisi; mae hyn yn rhywbedd yr ydym yn cytuno'n llwyr bod angen ymdrin ag ef. Mater ydyw, mewn gwirionedd, o sut yr ydym yn ymdrin ag ef. Rwy'n credu bod hyn yn ffordd well na'r ffordd yr ydych chi wedi'i chynnig. Rwy'n gobeithio y gwnaiff yr Aelodau gytuno â mi.

18:53

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My group will vote against the amendments this afternoon, and we do so because we believe that there is a need to protect practitioners in this particular field. Now, during the passage of the Bill through the Assembly, we didn't receive any evidence that there is a rash of tattooists and special procedure administrators carrying out these procedures on people who do not have the capacity to give their consent. I think it would be very, very difficult to enforce and to protect the people who carry out these procedures from potentially malicious or regretful individuals who decide to take action against them. So, I think there are real issues around enforcement.

But I also think there's an important principle here. I think there is a moral hazard if we continue to legislate in a way that protects the public from doing something personally stupid. Now, if you are daft enough to go into a tattoo parlour and get a tattoo when you don't have the capacity to do it and you regret it in the morning, then that is a matter for you. But I think there is a moral hazard if we create a legal system that actually takes away the personal responsibility of an individual to act accordingly. I really do think that this is a step too far. Now, if there is buyer's remorse the day after, then that is a matter for you; I do not believe it is a matter for the criminal law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bydd fy ngrŵp i'n pleidleisio yn erbyn y gwelliannau y prynhawn yma, ac rydym yn gwneud hynny oherwydd ein bod yn credu bod angen diogelu ymarferwyr yn y maes penodol hwn. Nawr, yn ystod hynt y Bil drwy'r Cynulliad, ni chawsom unrhyw dystiolaeth o lu o datwyddion a darparwyr triniaethau arbennig yn cyflawni'r triniaethau hyn ar bobl nad yw'r gallu ganddynt i roi eu caniatâd. Rwy'n meddwl y byddai'n anodd iawn, iawn gorfodi hyn ac amddiffyn y bobl sy'n cyflawni'r triniaethau hyn rhag unigolion a allai fod yn faleisus neu'n edifar ac yn penderfynu cychwyn achos yn eu herbyn. Felly, rwy'n meddwl bod problem go iawn yn bodoli o ran gorfodaeth.

Ond rwyf hefyd yn meddwl bod yma egwyddor bwysig. Rwy'n meddwl bod yma berygl moesol os ydym yn parhau i ddeddfu mewn ffordd sy'n diogelu'r cyhoedd rhag gwneud rhywbedd personol dwp. Nawr, os ydych yn ddigon dwl i fynd i mewn i barlwr tatŵs a chael tatŵ pan nad oes gennych y gallu i wneud hynny a'ch bod yn difaru yn y bore, mater i chi yw hynny. Ond rwy'n meddwl bod perygl moesol os ydym yn creu system gyfreithiol sydd mewn gwirionedd yn cymryd y cyrifoldeb personol hwnnw oddi ar unigolyn i weithredu'n briodol. Yn wir, rwy'n meddwl bod hwn yn gam sy'n mynd yn rhy bell. Nawr, os yw'r prynwr yn difaru y diwrnod wedyn, mater i chi yw hynny; nid wyf yn credu ei fod yn fater i'r gyfraith droseddol.

18:55

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've enjoyed listening to the debate on this group. The matter we're considering is a serious one, and Darren Millar raised it very early in the passage of this Bill, and the Government has responded positively to the concerns that he raised through amendments that I tabled at Stage 2, and which were agreed by the Health and Social Care Committee at that stage.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi mwynhau gwrando ar y ddadl ar y grŵp hwn. Mae'r mater yr ydym yn ei ystyried yn un dirifol, a chododd Darren Millar y mater yn gynnar iawn yn ystod hynt y Bil hwn, ac mae'r Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon a gododd drwy welliannau a gyflwynais yng Nghyfnod 2, ac y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol bryd hynny.

I think I'd probably take a slightly different view to Kirsty Williams, in that I think that individuals who might have something done to them that has a permanent effect on their skin deserve some protection, even if it's from themselves, and certainly against people who are prepared to take advantage of someone's impaired ability to act in their own best interests. The question is: how do we provide that protection? Well, the Government amendments at Stage 2 mean that section 65 of the Bill now requires that the mandatory licensing conditions, with which all licence holders must comply in order to retain their licence to practice, will include the prohibition of special procedures on individuals intoxicated by drink, drugs or other means. By making it a licence condition, we are making it absolutely clear to licence holders what their responsibilities as practitioners are in this area. Therefore, if a practitioner were to perform a special procedure on a person who is intoxicated, it could result, at the extreme end, in the loss of their licence and thus their livelihood. The sanction is real and it's apparent to those who would be affected by it, but I think it is proportionate and I think it would be properly enforced by local government authorities, which will be responsible for the oversight of licensing conditions.

You have an alternative regime before you, which would abolish the regime agreed at Stage 2 and instead create a new criminal offence where a criminal offence already exists and where, as the mover of this amendment explained to us, the criminal law has so far been remarkably ineffective in policing the activity that is sought to be policed. I believe that the licensing condition way forward is the better one. I think it will protect people from the circumstances that Darren Millar wants to see them protected from, and I think it will do it more effectively than a confused addition to the criminal law.

Rwy'n meddwl fwy na thebyg y byddai fy marn i ychydig bach yn wahanol i farn Kirsty Williams; rwy'n meddwl bod unigolion a allai fod wedi cael rhywbedd wedi'i wneud iddynt sy'n cael effaith barhaol ar eu croen yn haeddu rhywfaint o amddiffyniad, hyd yn oed rhagddynt eu hunain, ac yn sicr rhag pobl sy'n barod i fanteisio ar ddiffyg gallu rhywun i weithredu er eu lles eu hunain. Y cwestiwn yw: sut yr ydym yn darparu'r amddiffyniad hwnnw? Wel, mae gwelliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2 yn golygu bod adran 65 y Bil nawr yn ei gwneud yn ofynnol y bydd yr amodau trwyddedu gorfodol, y mae'n rhaid i bob deiliad trwydded gydymffurfio â hwy er mwyn cadw eu trwydded i ymarfer, yn cynnwys gwahardd triniaethau arbennig ar unigolion sy'n feddw oherwydd yfed, cyffuriau neu ddulliau eraill. Drwy ei wneud yn amod trwydded, rydym yn ei gwneud yn holol glir i ddeiliadau trwydded beth yw eu cyfrifoldebau fel ymarferwyr yn y mae hwn. Felly, pe bai ymarferydd yn cyflawni triniaeth arbennig ar rywun sy'n feddw, gallai arwain, yn y pen draw, at golli ei drwydded ac felly ei fywoliaeth. Mae'r gosb yn un real ac mae'n amlwg i'r bobl y byddai'n effeithio arnynt, ond rwy'n meddwl ei bod yn gymesur ac rwy'n meddwl y byddai'n cael ei gorfodi'n briodol gan awdurdodau llywodraeth leol, a fydd yn gyfrifol am oruchwyliau amodau trwyddedu.

Mae gennych drefn amgen ger eich bron, a fyddai'n diddymu'r drefn y cytunwyd arni yn ystod Cyfnod 2 ac yn hytrach yn creu troeddnewydd lle mae troeddnewydd eisoes yn bodoli a lle, fel yr eglurodd cynigydd y gwelliant hwn inni, mae'r gyfraith droseddol hyd yn hyn wedi bod yn hynod o aneffeithiol o ran plismona'r gweithgaredd yr ydym yn ceisio ei blismona. Rwy'n credu mai'r amod trwyddedu yw'r ffordd orau ymlaen. Rwy'n meddwl y bydd yn amddiffyn pobl rhag yr amgylchiadau yr hoffai Darren Millar eu gweld wedi'u hamddiffyn, ac rwy'n meddwl y bydd yn gwneud hynny'n fwy effeithiol nag ychwanegiad dryslyd at y gyfraith droseddol.

18:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar to reply.

Darren Millar i ateb.

18:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. As I said earlier, I think this is an issue that is important, and I think that the approach that I've set out, whereby we would create a new offence for people who tattoo or undertake other special procedures on an individual is a better approach than the one that the Minister has adopted in terms of the creation of a licensing condition.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel y dywedais yn gynharach, rwy'n meddwl bod hwn yn fater pwysig, ac rwy'n meddwl bod y dull yr wyf wedi'i amlinellu, sef creu troeddnewydd ar gyfer pobl sy'n tatŵio neu'n cynnal triniaethau arbennig eraill ar unigolyn, yn well dull na'r un y mae'r Gweinidog wedi'i fabwysiadu o ran creu amod trwyddedu.

I listened carefully to what Kirsty Williams had to say. She suggested that it might be difficult to enforce this. Well, you know, I don't believe that that would be the case. There's been no difficulty in enforcing these similar tests in terms of people being served with alcohol in a piece of legislation that, I think, was supported by your party when it passed in Westminster. So, I don't accept that it would be difficult to enforce at all.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gan Kirsty Williams i'w ddweud. Awgrymodd y gallai fod yn anodd gorfodi hyn. Wel, wyddoch chi, nid wyf yn credu y byddai hynny'n wir. Ni fu unrhyw anhawster wrth orfodi'r profion tebyg hyn o ran gweini alcohol i bobl mewn darn o ddeddfwriaeth a gafodd, rwy'n meddwl, ei gefnogi gan eich plaid chi pan gafodd ei basio yn San Steffan. Felly, nid wyf yn derbyn y byddai'n anodd ei orfodi o gwbl.

She made an argument about moral hazard. Well, I think it would be a moral hazard for us not to take action to try to do something that can actually protect people's health. At the end of the day, if someone's got a situation where they've been drinking, their blood is thinner, then there's a serious risk to the health of those individuals should they undertake any of the procedures on this list that may result in bleeding. So, I don't think it's a matter where there's a moral hazard of not allowing people to be responsible for their own actions. I'm the first person to suggest that people should be more accountable and responsible for their actions, particularly Government Ministers, but, when it comes to the moral hazard argument, I simply don't think it holds water in this case because, of course, the reality is that, if people have got impaired judgment, they're not aware of the serious risks to their health that might occur as a result of one of these procedures because their blood is thinner, then that's something we ought to protect people against.

The Minister referred, of course, to the existing offence, which I thought he might, which is why I tried to pre-empt some discussion on it earlier on in the debate. But, of course, the reality is that not everybody who has impaired judgment as a result of having too much to drink is actually harmed by the activity that is undertaken on them. It may just harm their pocket in terms of the amount that they've paid to the person undertaking the special procedure: for example, having this huge tattoo on their back, which they wouldn't have bought had they been sober. So, if somebody doesn't come to harm, they cannot be prosecuted under the Offences Against the Person Act 1861, which I made mention of earlier on. So, I do think there is a need to create an offence here. I think it would be a much better way of deterring people from undertaking such activities on people whose judgment is impaired as a result of intoxication, and I urge people to support the amendments.

Gwnaeth hi ddadl am berygl moesol. Wel, rwy'n meddwl y byddai'n berygl moesol inni i beidio â chymryd camau i geisio gwneud rhywbedd a allai mewn gwirionedd ddiogelu iechyd pobl. Ar ddiwedd y dydd, os yw rhywun mewn sefyllfa pan mae wedi bod yn yfed, ac mae'r gwaed yn deneuach, mae'n berygl difrifol i iechyd yr unigolion hynny os ydynt yn ymgymryd ag unrhyw un o'r triniaethau ar y rhestr hon a allai arwain at waedu. Felly, nid wyf yn meddwl ei fod yn fater lle ceir perygl moesol o beidio â chaniatáu i bobl fod yn grifol am eu gweithredoedd eu hunain. Fi yw'r cyntaf i awgrymu y dylai pobl fod yn fwy atebol a chyfrifol am eu gweithredoedd, yn enwedig Gweinidogion y Llywodraeth. Ond, o ran y ddadl am berygl moesol, yn sym, nid wyf yn meddwl ei bod yn dal dŵr yn yr achos hwn oherwydd, wrth gwrs, y realiti yw, os oes nam ar grebwyl pobl, os nad ydynt yn ymwybodol o'r peryglon difrifol i'w hiechyd a allai ddigwydd o ganlyniad i un o'r triniaethau hyn am fod eu gwaed yn deneuach, mae hynny'n rhywbedd y dylem amddiffyn pobl yn ei erbyn.

